



Swansea University  
Prifysgol Abertawe



PRIFYSGOL  
BANGOR  
UNIVERSITY

O Gydberthnasau i Bartneriaethau: effaith  
pandemig COVID-19 ar ymgysylltiad  
rhieni â dysgu plant yng Nghymru a'r  
goblygiadau ar gyfer addysg gychwynnol i  
athrawon

Teitl: O Gydberthnasau i Bartneriaethau

Is-deitl: effaith pandemig COVID-19 ar ymgysylltiad rhieni â dysgu plant yng Nghymru a'r goblygiadau ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon

Awdur(on): Janet Goodall, Ibtihal Ramadan, Margiad Williams, Annamari Ylonen, Helen Lewis, Sion Owen, Delyth Roberts, Chris Wolfe, Carl Hughes, Zoë Clegg

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

## Tabl Cynnwys

1.	<i>Crynodeb Gweithredol</i>	7
2.	<i>Rhestr Termau</i>	9
3.	<i>Cyflwyniad/Cefndir</i>	10
3.1.	<i>Nodau ac amcanion yr ymchwil</i>	10
3.2.	<i>Cynnwys yr adroddiad hwn</i>	10
4.	<i>Gwybodaeth gefndirol allweddol: Ymgysylltiad rhiant/teulu â dysgu plant</i>	12
4.1.	<i>Pam ei fod yn bwysig: Y bwlch o ran cyflawniad yn y DU</i>	12
4.1.1.	<i>Cyfraniad rheini ac ymgysylltiad rhieni</i>	12
4.1.2.	<i>Ymgysylltiad rhieni â dysgu a'r bwlch mewn cyflawniad</i>	13
4.1.3.	<i>Pwysigrwydd cyfathrebu</i>	13
4.1.4.	<i>Rhwystrau i ymgysylltiad rhieni â dysgu</i>	14
4.2.	<i>Ymgysylltiad rhieni a'i rôl mewn AGA: trosolwg byr</i>	14
4.3.	<i>Rôl rhaglenni AGA</i>	15
4.4.	<i>Problemau â Rhaglenni AGA ar hyn o bryd</i>	17
4.4.1.	<i>Diffyg hyfforddiant</i>	17
4.4.2.	<i>Materion strwythurol</i>	18
4.5.	<i>Effaith Covid-19</i>	19
4.6.	<i>Ymgysylltiad Rhieni : Cyd-destun Cymru</i>	20
4.7.	<i>Casgliad yr adolygiad o lenyddiaeth</i>	21
5.	<i>Methodoleg</i>	22
5.1.	<i>Dethol a chaffael samplau</i>	23
5.2.	<i>Dulliau Casglu Data</i>	24
5.2.1.	<i>Arolygon</i>	24
5.2.2.	<i>Cyfweliadau a grwpiau ffocws</i>	25
5.3.	<i>Y broses o ddadansoddi data</i>	25
5.4.	<i>Astudiaeth achos</i>	26
5.5.	<i>Materion ac ystyriaethau moesegol</i>	26

<b>6.</b>	<b><i>Canfyddiadau</i></b>	<b>28</b>
<b>6.1.</b>	<b><i>Canfyddiadau o'r Arolwg Rhieni</i></b>	<b>28</b>
<b>6.1.1.</b>	<b><i>Adnoddau</i></b>	<b>28</b>
<b>6.1.2.</b>	<b><i>Hyder</i></b>	<b>29</b>
<b>6.1.3.</b>	<b><i>Cymorth</i></b>	<b>30</b>
<b>6.1.4.</b>	<b><i>Profiadau o gefnogi dysgu o gartref</i></b>	<b>31</b>
<b>6.1.5.</b>	<b><i>Edrych ymlaen</i></b>	<b>33</b>
<b>6.2.</b>	<b><i>Canfyddiadau o'r arolwg myfyrwyr</i></b>	<b>33</b>
<b>6.2.1.</b>	<b><i>Deall ymgysylltiad rhieni</i></b>	<b>34</b>
<b>6.2.2.</b>	<b><i>Pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni</i></b>	<b>34</b>
<b>6.2.3.</b>	<b><i>Ymgysylltiad rhieni â chyrsgiau AGA</i></b>	<b>34</b>
<b>6.2.4.</b>	<b><i>Edrych ymlaen</i></b>	<b>35</b>
<b>6.3.</b>	<b><i>Canfyddiadau o'r cyfweiliadau ansoddol</i></b>	<b>35</b>
<b>6.3.1.</b>	<b><i>Diffiniad a phwysigrwydd ymgysylltiad rhieni â dysgu</i></b>	<b>35</b>
<b>6.3.2.</b>	<b><i>Cydberthnasau</i></b>	<b>36</b>
<b>6.3.3.</b>	<b><i>Meithrin cydberthnasau</i></b>	<b>36</b>
<b>6.3.4.</b>	<b><i>cyfathrebu</i></b>	<b>37</b>
<b>6.3.5.</b>	<b><i>Cyfathrebu ar gyfer lles</i></b>	<b>38</b>
<b>6.3.6.</b>	<b><i>Ymgysylltiad rhieni â dysgu</i></b>	<b>38</b>
<b>6.3.7.</b>	<b><i>Ymgysylltiad rhieni â hyfforddiant cychwynnol athrawon: darpariaeth</i></b>	<b>39</b>
<b>6.3.8.</b>	<b><i>Ymgysylltiad rhieni â hyfforddiant cychwynnol athrawon: lleoliadau</i></b>	<b>41</b>
<b>7.</b>	<b><i>Effaith Covid-19 ar ymgysylltiad rhieni</i></b>	<b>43</b>
<b>7.1.</b>	<b><i>Dealltwriaeth ar y cyd</i></b>	<b>44</b>
<b>7.2.</b>	<b><i>Dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni</i></b>	<b>44</b>
<b>7.3.</b>	<b><i>Ymylon arian</i></b>	<b>45</b>
<b>8.</b>	<b><i>Astudiaeth Achos: Ymgysylltiad Rhieni yn Ysgol Gynradd Awel y Môr</i></b>	<b>46</b>
<b>8.1.</b>	<b><i>Gwybodaeth gefndirol</i></b>	<b>46</b>
<b>8.1.1.</b>	<b><i>Gwybodaeth gefndirol ar Ysgol Gynradd Awel y Môr</i></b>	<b>46</b>

8.1.2.	<i>Gwybodaeth gefndirol ar ardal Dwyrain Sandfields</i>	46
8.2.	<i>Taith Ymgysylltiad Rhieni yn Awel y Môr</i>	48
8.2.1.	<i>Y sefyllfa flaenorol</i>	48
8.2.2.	<i>Sicrhau cefnogaeth staff</i>	48
8.2.3.	<i>Adeiladu credyd</i>	49
8.2.4.	<i>Gweithio gyda rhieni a theuluoedd</i>	50
8.3.	<i>Y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd</i>	53
8.4.	<i>Ymgysylltiad rhieni mewn AGA</i>	53
8.5.	<i>Cyfyngiadau symud</i>	53
8.6.	<i>Y diffiniad o ymgysylltiad rhieni yn Awel y Môr</i>	54
8.7.	<i>Canlyniadau yn Awel y Môr</i>	54
8.8.	<i>Trafodaeth</i>	54
8.8.1.	<i>Cydberthnasau</i>	54
8.8.2.	<i>Pŵer</i>	55
8.8.3.	<i>Deall ymgysylltiad rhieni</i>	55
9.	<i>Casgliadau yr adroddiad</i>	56
9.1.	<i>CY1: Beth mae darparwyr AGA eisoes yn ei ddarparu mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni â dysgu?</i>	56
9.1.1.	<i>Ymgysylltiad rhieni mewn AGA</i>	56
9.1.2.	<i>Diffiniad o ymgysylltiad rhieni</i>	57
9.1.3.	<i>Safbwyntiau o ddiffyg</i>	58
9.2.	<i>CY2: Sut mae rhieni wedi ymgysylltu â dysgu yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19?</i>	59
9.3.	<i>CY3: Sut y cefnogwyd ymgysylltiad rhieni â dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud?</i>	60
9.4.	<i>CY4: A yw ymgysylltiad rhieni â dysgu wedi newid yn ystod y cyfyngiadau symud – os felly, sut?</i>	61
9.5.	<i>CY5: Sut mae ysgolion, rhieni, athrawon dan hyfforddiant a staff AGA yn gweld ymgysylltiad rhieni â dysgu yn datblygu yn y dyfodol?</i>	62

9.6.	<i>CY6: Sut y gall y data a gafwyd o'r ffynonellau hyn gael eu hintegreiddio i AGA i gefnogi dysgwyr y dyfodol yn y ffordd orau?</i>	62
9.7.	<i>Cyfyngiadau</i>	63
10.	<i>Prif Ganfyddiadau</i>	64
10.1.	<i>Meithrin Cydberthnasau</i>	64
10.2.	<i>Safbwyntiau o Ddiffyg</i>	64
10.3.	<i>COVID-19 ac Ymgysylltiad Rhieni</i>	64
10.4.	<i>Effaith y Pandemig ar Ymgysylltiad Rhieni</i>	65
10.5.	<i>Ymgysylltiad rhieni mewn AGA</i>	66
11.	<i>Argymhellion ar gyfer Dyfodol AGA</i>	67
11.1.	<i>Argymhelliad 1: Sicrhau lle ymgysylltiad rhieni yn y ddarpariaeth AGA yn y dyfodol</i>	67
11.2.	<i>Argymhelliad 2: Seminar</i>	67
11.3.	<i>Argymhelliad 3: Cymorth byrdymor ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu mewn AGA</i>	68
11.4.	<i>Argymhelliad 4: Cynnull grŵp o randdeiliaid i adrodd ar y dulliau er mwyn cynnwys dealltwriaeth o natur a phwysigrwydd cymorth ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu mewn AGA yng Nghymru</i>	68
	<i>Atodiad 1. Rhagor o wybodaeth am ddulliau</i>	70
	<i>Atodiad 2. Cyd-destun safbwyntiol a'r posibilrwydd o ragfarn dymunoldeb</i>	71
	<i>Atodiad 3. Holiaduron</i>	72
	<i>Atodiad 4. Fframwaith Codio</i>	113
	<i>Atodiad 5. Gwybodaeth o Gyfweliadau</i>	114
	<i>Atodiad 6. Astudiaeth Achos Darllen Gwybodaeth Olrhain</i>	118
	<i>Atodiad 7. Cyrsiau a fynychwyd gan rieni yn ysgol yr astudiaeth achos</i>	120
	<i>Atodiad 8. Cyfeiriadau</i>	121

## **Rhestr o dablau**

Tabl 1 Rhestr Termau	9
Tabl 2 Meini prawf ansawdd (Yn seiliedig ar Cohen a Crabtree 2008)	23
Tabl 3 Lefelau uchaf o gymwysterau Dwyrain Sandfields	47
Tabl 4 Cwestiynau a dulliau	70

## **Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1 Nifer y dyfeisiau electronig mewn cartrefi	28
Ffigur 2 Sylwadau rhieni ar adnoddau	29
Ffigur 3 Hyder rhieni	30
Ffigur 4 Dulliau cyfathrebu	30
Ffigur 5 Teimladau rhieni o gefnogaeth	31
Ffigur 6 Gweithgareddau gyda phlant	32
Ffigur 7 Mynegai amddifadedd lluosog Dwyrain Sandfields	47
Ffigur 8 Diffiniadau o ymgysylltiad rhieni	56
Ffigur 9 Continwwm (Goodall a Montgomery, 2013).	58



## 1. Crynodeb Gweithredol

Roedd y prosiect ymchwil hwn yn un o chwe phrosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2020 mewn perthynas ag effaith pandemig COVID-19 ac mae'n ystyried y cysyniad a'r arfer o ymgysylltiad rhieni â dysgu, o fewn hyfforddiant cychwynol athrawon.

### Gwybodaeth gefndirol

Mae'r bwlch rhwng cyflawniad plant o gefndiroedd gwahanol yn y DU yn ehangu i blant yn y blynyddoedd uchaf (Hutchinson, Bonetti et al. 2019). Mae ymgysylltiad rhieni â dysgu yn chwarae rhan sylweddol yn y broses o gau'r bwlch hwn. Fodd bynnag, mae rhieni ac athrawon yn wynebu nifer o rwystrau mewn perthynas ag ymgysylltu rhieni sy'n aml yn cael eu gorsymleiddio, yn ogystal â phroblemau o ran y diffiniad a'r ddealltwriaeth sy'n golygu ei bod yn fwy heriol i weithredu a chefnogi ymgysylltiad rhieni. Ymgysylltiad rhieni â *dysgu*, yn hytrach nag ymgysylltiad ag ysgolion neu addysg, yw'r ymgysylltiad mwyaf effeithiol (Jeynes 2012). Mae'r math hwn o ddysgu yn digwydd y tu allan i'r ysgol yn amgylchedd dysgu'r cartref yn bennaf (Silva, Melhuish et al. 2008).

### Canfyddiadau

Er bod yr ymatebwyr yn yr astudiaeth hon yn cytuno bod ymgysylltiad rhieni â'r broses addysg yn bwysig, roedd ddiffyg cydsyniad o ran ei ddiffiniad a'r ddarpariaeth mewn Addysg Gychwynol i Athrawon. Cafwyd profiadau ymarferol amrywiol yn hyn o beth gan nad yw ymgysylltiad rhieni yn cael ei ymgorffori'n strategol mewn rhaglenni AGA ar hyn o bryd. Mae'r data yn dangos dro ar ôl tro na chafwyd digon o safbwyntiau rhieni, sy'n effeithio'n andwyol ar gydberthnasau rhwng rhieni ac athrawon ac ymgysylltiad rhieni ynddo'i hun.

Mae'r pandemig wedi effeithio'n andwyol ar ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plant yn ogystal â dulliau cyfathrebu rhwng rhieni a staff ysgolion. Mae staff ysgolion a rhieni wedi dod yn ymwybodol o bwysigrwydd cydberthnasau, yn enwedig wrth addasu i amgylcheddau dysgu gwahanol. Mae'r cyfrifoldeb o addysgu plant wedi symud tuag at rôl a rennir rhwng athrawon a rhieni.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi astudiaeth achos sy'n dangos y llwybr a gymerodd un ysgol i gefnogi ymgysylltiad rhieni â dysgu. Mae'r astudiaeth achos hefyd yn dangos y modd yr helpodd cydberthnasau da a oedd wedi'u sefydlu eisoes rhwng athrawon a rhieni i leddfu'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig, yn benodol y rheini sy'n ymwneud â chyflawniad academaidd a lles plant yn fwy cyffredinol. Yn nodedig, dangosodd y diffiniadau o ymgysylltiad rhieni a gafwyd gan ymatebwyr yn yr astudiaeth achos ddealltwriaeth gliriach o'r cysyniad a'i arwyddocâd yn y cartref.

### Argymhellion

**1. Sicrhau bod ymgysylltiad rhieni yn cael ei gynnwys mewn darpariaeth AGA yn y dyfodol**, gan sicrhau bod cysondeb o ran ei ddiffiniad a'i ddealltwriaeth.

**2. Cynnal seminar diwrnod o hyd yn ystod haf 2021** i athrawon ac athrawon dan hyfforddiant.

**3. Cymorth byrdymor ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu mewn AGA** drwy ddsbarthu adnoddau defnyddiol a pherthnasol.

**4. Cynnull grŵp o randdeiliaid** i adrodd ar y dulliau er mwyn cynnwys dealltwriaeth o natur a phwysigrwydd cymorth ar gyfer ymgysylltiad rhieni mewn AGA yng Nghymru.

## 2. Rhestr Termau

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
1 – 18	Dynodi ymatebydd mewn cyfweiliad (Gweler Annex 5)
Plentyn	Defnyddir 'plentyn', 'person ifanc', 'myfyriwr' a 'disgybl' drwy'r adroddiad hwn i gyfeirio at berson ifanc sy'n mynychu rhyw fath o addysg (yn bersonol neu o bell). Ni ddylid tybio unrhyw oedran o unrhyw un o'r termau hyn.
FEO	Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd (Ysgol Astudiaeth Achos)
H	Pennaeth (Ysgol Astudiaeth Achos)
AGA	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
Cyfyngiadau symud	Cyfyngiadau a roddwyd ar waith oherwydd pandemig COVID-19. (Home 2020, UNESCO 2020)
P	Ymatebydd i'r Arolwg Rhieni
Rhiant	Ar gyfer y rhan fwyaf o'r data cyfweiliad a nodir yma, mae 'rhieni' yn cyfeirio at fam neu dad person ifanc. Fodd bynnag, mewn perthynas â llenyddiaeth, dylid deall bod 'rhiant' yn cyfeirio at oedolyn sydd â chyfrifoldeb gofal helaeth dros y plentyn.
Ymgysylltiad rhieni	Ymgysylltiad rhieni ym mywydau eu plant i ddylanwadu ar eu gweithredoedd cyffredinol (Goodall 2017 55)
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
PDP	Pasbort Dysgu Proffesiynol
SAC	Statws Athro Cymwysedig
S	Ymatebydd i'r Arolwg Myfyrwyr

Tabl 1 Rhestr Termau

### 3. Cyflwyniad/Cefndir

#### 3.1. Nodau ac amcanion yr ymchwil

Roedd y prosiect ymchwil hwn yn un o chwech a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2020, dan y pennawd Effaith Pandemig COVID-19 ar y Ddarpariaeth AGA yn y Dyfodol; o fewn yr agenda cyffredinol hwnnw, mae'r prosiect hwn yn ystyried y cysyniad a'r arfer o ymgysylltiad rhieni â dysgu, o fewn hyfforddiant cychwynol athrawon. Roedd y prosiect yn fenter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor.

Roedd yn cynnwys chwe phrif gwestiwn ymchwil (CY 1 – 6):

CY1: Beth mae darparwyr AGA eisoes yn ei ddarparu mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni â dysgu?

CY2: Sut mae rhieni wedi ymgysylltu â dysgu yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19?

CY3: Sut y cefnogwyd ymgysylltiad rhieni â dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud?

CY4: A yw ymgysylltiad rhieni â dysgu wedi newid yn ystod y cyfyngiadau symud – os felly, sut?

CY5: Sut mae ysgolion, rhieni, athrawon dan hyfforddiant a staff AGA yn gweld ymgysylltiad rhieni â dysgu yn datblygu yn y dyfodol?

CY6: Sut y gall y data a gafwyd o'r ffynonellau hyn gael eu hintegreiddio i AGA i gefnogi dysgwyr y dyfodol yn y ffordd orau?

#### 3.2. Cynnwys yr adroddiad hwn

Nid yw'r adroddiad hwn yn nodi'r newidiadau i Addysg Gychwynol Athrawon (AGA) yn ystod pandemig COVID-19 (Addysg Cymru Education Wales 2020). Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y cysyniad o ymgysylltiad rhieni ag addysg gychwynol athrawon (yn cynnwys lleoliadau myfyrwyr), sut y caiff y cysyniad hwnnw ei ddeall, a'r newidiadau i'r cysyniad hwnnw a'r arfer o'i amgylch, sydd wedi codi oherwydd y pandemig.

Mae adran nesaf (adran5) yr adroddiad hwn yn nodi'r fethodoleg a fabwysiedir ar gyfer yr ymchwil, gan gyfiawnhau'r defnydd o ddulliau ymchwil gwahanol, sy'n seiliedig ym maes ymchwil addysgol.

***Yna, mae'r adroddiad yn symud i adran 6, sy'n cynnwys y canfyddiadau o'r arolwg rhieni (adran 6.1) ac o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd â grwpiau amrywiol o ymatebwyr (adran 6.2.4). Mae'r adran nesaf (adran 8) yn cyflwyno astudiaeth achos o ysgol gynradd yn y de sydd wedi dilyn taith lwyddiannus o beidio â chael llawer o ymgysylltiad rhieni â dysgu i sefydlu corff rhieni sy'n ymgysylltu'n sylweddol.***

***Yna, mae'r adroddiad yn symud i drafodaeth a chasgliad y prosiect yn gyffredinol (adran 9). Trafodir y cyfyngiadau i'r broses ymchwil yn adran Error! Reference source not found.. Rhoddir crynodeb o'r casgliadau yn adran 10. Cyflwynir argymhellion yn adran 11. Cefnogir yr adroddiad gan nifer o atodiadau a rhestr o gyfeiriadau.***

## **4. Gwybodaeth gefndirol allweddol: Ymgysylltiad rhiant/teulu â dysgu plant**

### **4.1. Pam ei fod yn bwysig: Y bwlch o ran cyflawniad yn y DU**

Ni ellir dadlau bod bwlch rhwng cyflawniad plant o gefndiroedd gwahanol yn y DU, bwlch nad yw'n lleihau mwyach ond yr ymddengys ei fod wedi bod yn cynyddu eto'n ddiweddar ar gyfer plant yn y blynyddoedd uchaf (Hutchinson, Bonetti et al. 2019). Mewn gwirionedd, mae sawl bwlch, y gellir eu cysylltu â materion fel dosbarth, hil, ethnigrwydd, rhywedd, a hyd yn oed yr adeg o'r flwyddyn y caiff plant eu geni (See Goodall 2017 for a more indepth discussion of these gaps).

Yn anad dim, rheini sy'n llywio cyfleoedd eu plant yn y dyfodol yn y blynyddoedd cynharaf hyn a thu hwnt. Mae'r hyn y mae rhieni'n ei wneud yn cael effaith lawer mwy nag unrhyw ymyriad mewn ysgol gynradd neu uwchradd. (Social Mobility and Child Poverty Commission 2015 10).

#### **4.1.1. Cyfraniad rheini ac ymgysylltiad rhieni**

Mae ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plant wedi denu llawer o sylw gan ymchwilyr (Fan and Williams 2010, Jeynes 2012, Jeynes 2018) ac ymarferwyr; mae effeithiau'r diddordeb hwn wedi arwain at ymgorffori cyfraniad rhieni fel rhan o arfer addysg (See, for example: US Department of Education 2005, Scottish Executive 2006, Welsh Government 2017).

Dangoswyd effaith ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plant mewn amrywiaeth eang o astudiaethau (Fan and Chen 2001, Jeynes 2005, Jeynes 2008, Jeynes 2012); ond mae ymarferwyr a theuluoedd fel ei gilydd yn ei gamddeall weithiau (Harris and Goodall 2007). Mae ymgysylltiad rhieni sy'n effeithio'n gadarnhaol ar gyflawniad plant yn gysylltiedig â'r prosesau addysgol a phrofiadau eu plant (Jeynes 2012 p.717) sef: Ymgysylltiad rhieni ym mywydau eu plant i ddylanwadu ar eu gweithredoedd cyffredinol' (Goodall 2017, p. 55).

Dylid gwahaniaethu rhwng yr ymgysylltiad hwn a mathau eraill o gyfraniad rhieni at addysg a/neu ddysgu, fel y chwe math yn y fframwaith a ddefnyddiwyd gan Epstein; h.y., rhianta, cyfathrebu, gwirfoddoli, dysgu gartref, gwneud penderfyniadau a chydweithio â'r gymuned (Epstein 1990, Epstein 2010, Epstein n.d.g.) Gellir disgrifio ymgysylltiad yn glir yn y graddau y mae rhieni'n cyfrannu at ysgol, addysg a dysgu (Goodall and Montgomery 2013). Yr olaf yw'r math mwyaf effeithiol o ymgysylltiad (Jeynes 2012) ac mae'n digwydd yn bennaf y tu allan i ffiniau'r ysgol ei hun, mewn amgylchedd dysgu yn y cartref fel y'i gelwir (Sylva, Melhuish et al. 2008). Mae hwn yn wahaniaeth pwysig, gan fod ymyriadau sydd â'r nod o gael rhieni i mewn i'r ysgol yn annhebygol o fod yn effeithiol wrth gynyddu ymgysylltiad rhieni yn gyffredinol. Mewn gwirionedd, mae ymyriadau o'r fath yn cynyddu'r bwlch o ran cyflawniad, gan fod y rhieni hynny sydd eisoes yn meddu ar yr hunaneffeithlonrwydd a'r

sgiliau i ryngweithio â staff ysgol yn meithrin rhagor o sgiliau gan adael y rhieni hynny na allant ddod i mewn i'r ysgol ar ôl (Borgonovi and Montt 2012, Goodall 2019).

#### **4.1.2. Ymgysylltiad rhieni â dysgu a'r bwloch mewn cyflawniad**

Mae'r llenyddiaeth wedi awgrymu dro ar ôl tro bod gan ymgysylltiad rheini â dysgu (yn hytrach nag yn uniongyrchol at ysgol) rôl sylweddol i'w chwarae wrth leihau'r bwloch o ran cyflawniad sy'n codi yn sgil y gwahaniaethau yng nghefnidiroedd plant (Jeynes 2005, Sylva, Melhuish et al. 2008, Jeynes 2010, Jeynes 2012, Huat See and Gorard 2014, Jeynes 2014, Huat See and Gorard 2015, Mayer, Kalil et al. 2019).

Canfu Anger a Heineck (2010) fod cysylltiad agos rhwng y buddsoddiad a wna rhieni yn eu plant â deilliannau gwybyddol plant. Yn yr un modd, canfu Hill a Tyson (2009, p.74) bod cymdeithasoli academaidd â phlant yn eu blynyddoedd glasoed cynnar, sy'n cynnwys: rheini yn cyfleu eu disgwyliadau ar gyfer addysg, cysylltu gwaith ysgol â digwyddiadau ehangach, meithrin dyheadau addysgol a gyrfao, yn y pen draw yn meithrin galluoedd gwybyddol ac yn gwella cyflawniad academaidd. Mae ymchwil arall hefyd wedi dangos pwysigrwydd yr amser y bydd rhieni'n ei dreulio â'u plant, yn arbennig mewn gweithgareddau addysgol (Mayer, Kalil et al. 2019) ac mae cysylltiad hefyd rhwng brwdfrydedd, ymgysylltiad a natur chwareus rhieni â mwy o ymgysylltiad a diddordeb academaidd gan y plentyn (Griffith and Arnold 2019, p. 2).

Yn ôl Levinthal de Oliveira Lima a Kuusisto (2020) mae addysg, a ystyrir yn ddyletswydd i ysgolion yn draddodiadol, a lles a datblygiad, a ystyrir yn ddyletswydd i rieni yn draddodiadol, wedi dechrau cyfuno. Ystyr y datblygiad hwn yw bod rolau canfyddedig athrawon a rhieni hefyd wedi dechrau symud yn agosach at ei gilydd.

Mae'n bwysig sylweddoli nad yw ymgysylltiad rhieni yn digwydd ar ei ben ei hun na heb gyd-destun (Goodall 2019, Robinson 2019); daw plant i'r ysgol wedi'u dal mewn cyfres o gydberthnasau sy'n gorgyffwrdd (Bronfenbrenner 1979, Epstein 1987). Mae hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd trin ymgysylltiad rhieni fel rhan ar wahân o addysgu a dysgu – neu yn hytrach, ar wahân i addysgu a dysgu – yn effeithiol fel safbwynt cyfannol, sy'n ystyried rhieni ac aelodau o'r teulu fel partneriaid (Tett 2001, Crozier and Davies 2007) yn yr ymgyrch addysgol. Mae ymchwil flaenorol wedi nodi, er mwyn i unrhyw ymgysylltiad gan rieni fod yn effeithiol, mae angen iddo gael ei integreiddio yn strategaeth yr ysgol (Goodall and Vorhaus 2011).

#### **4.1.3. Pwysigrwydd cyfathrebu**

Mae cyfathrebu rhwng teuluoedd a staff ysgolion yn hanfodol er mwyn hyrwyddo cydberthnasau clir, sy'n dangos parch, sydd yn ei dro yn cefnogi dysgu (Gu 2017, Goodall 2018, Willis and Exley 2018, Lim and Cho 2019). Pwysleisiodd dogfennau polisi, e.e. (Oecd

2014), fod unrhyw gyfathrebu effeithiol yn broses ddwy ffordd rhwng ysgolion a rhieni. Mae angen i deuluoedd gael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn ysgol, ond, yn fwy na hyn, mae cyfathrebu yn dangos gwir ddeialog rhwng partneriaid yn ogystal â phroses o gyfnewid gwybodaeth (Goodall 2016, Bordalba and Bochaca 2019). Canfuwyd bod cyfathrebu da rhwng staff ysgolion a rhieni yn cefnogi hunan-gred rhieni yn eu gallu i helpu plant i ddysgu (Olmstead 2013).

Fodd bynnag, mae cyfathrebu o'r fath yn heriol iawn i lawer o ymarferwyr (Bordalba and Bochaca 2019), am amrywiaeth o resymau sy'n codi dro ar ôl tro (Henderson and Mapp 2002); ac mae'n ymddangos mai llif un ffordd o wybodaeth yw'r cyfathrebu a wneir rhwng ysgolion a'r cartref o hyd yn hytrach na gwir ddeialog (Lewin and Luckin 2010, Goodall 2016).

#### **4.1.4. Rhwystrau i ymgysylltiad rhieni â dysgu**

Mae'r rhwystrau i ymgysylltiad rhieni ar bob lefel yn hysbys, hynny yw'r graddau y maent yn cyfrannu at ysgol ac addysg yn ogystal ag ymgysylltiad yn y cartref, ond ni chânt eu deall na'u hystyried yn arbennig o dda. Ymysg y rhwystrau mae materion sy'n achosi straen, yn arbennig ar gyfer rhieni sy'n wynebu anfantais economaidd, fel incwm ansefydlog neu annibynadwy, costau ac anhygyrchedd gofal plant, diffyg opsiynau trafndiaeth neu opsiynau trafndiaeth drud (Griffith and Arnold 2019). Mae bron bob rhiant yn wynebu pwysau o ran amser, ac mae llawer hefyd yn ansicr ynghylch sut y dylent gefnogi dysgu eu plant (Peters, Seeds et al. 2008).

Er nad oes lle i gael trafodaeth lawn yma, nid oes gan lawer o rieni yr hyder i gefnogi dysgu eu plant (Organisation for Economic Co-operation and Development 2011). Dangoswyd bod cysylltiad cadarnhaol rhwng hunaneffeithlonrwydd rheini a'r graddau y maent yn cyfrannu at addysg eu plant (Hoover-Dempsey, Battiato et al. 2001) ynghyd â gallu rhieni i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu plant (Coleman and Karraker 2000).

## **4.2. Ymgysylltiad rhieni a'i rôl mewn AGA: trosolwg byr**

Gellid dadlau mai'r gallu i gydweithio â rhieni yw un o'r prif gymwyseddau proffesiynol i athrawon. Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu yng Nghymru (Welsh Government 2019) yn nodi mewn perthynas â Statws Athro Cymwysedig (SAC),

disgrifydd SAC: Deallir pwysigrwydd cyfraniad rhieni/gofalwyr a rhieni eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achubir ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau a'u gwerthuso.

ac yn y safonau ar gyfer arweinyddiaeth,

disgrifydd SAC: Mae'r athro yn dangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol â dysgwyr,



rhieni/gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i egwyddorion sylfaenol tegwch a sicrhau potensial pob dysgwr.

Er gwaethaf y pwyslais ar bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni mewn pethynas â chyflawniad academiaidd eu plant a'u llwyddiant dilynol mewn bywyd mewn dogfennau polisi, a'r dystiolaeth sylweddol o astudiaethau ar bwysigrwydd hyfforddiant corfforedig ar sgiliau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltiad effeithiol gan rieni (e.e. Jeynes, 2012), yn aml, ni roddir digon o sylw i baratoi athrawon i ymgysylltu â rhieni mewn rhaglenni AGA (Jordan, Orozco et al. 2001, Saltmarsh, Barr et al. 2015, Willemse, Thompson et al. 2018). Mae'n amlwg nad yw llawer o athrawon wedi cael llawer o hyfforddiant ar gefnogi ymgysylltiad rhieni, os o gwbl. Prin yw'r cyfeiriadau at ymgysylltiad rhieni ac ni roddir llawer o bwyslais arno mewn AGA (Goodall and Vorhaus 2011, Inglis 2012, Daniel, Wang et al. 2016, Goodall 2017, Mutton, Burn et al. 2018, Thompson, Willemse et al. 2018, Willemse, Thompson et al. 2018, Robinson 2019).

Mae prinder mawr o waith ymchwil i brofiadau athrawon o ymgysylltu â rhieni yn ogystal â safbwyntiau athrawon ar ymgysylltiad rhwng rhieni ac ysgolion a'r modd y gall hyn fod yn ddefnyddiol i wella arfer proffesiynol a dysgu myfyrwyr. Dadleuwyd bod y sail dystiolaeth bresennol yn gul a bod angen ei hehangu – drwy fwy o waith ymchwil a chyfleoedd hyfforddiant – er mwyn galluogi athrawon i gael eu paratoi'n dda i feithrin ymgysylltiad rhwng rhieni ac ysgolion a chael eu cefnogi i wneud hynny (Mandarakas 2014).

Yn ôl Mandarakas (2014, pp. 24 - 5):

'despite cultural, historical and context-dependent differences in the forms that parent–school engagement takes from country to country, education reforms internationally recognise both the significance of parents to educational outcomes, as well as the responsibility of the teaching profession for working effectively with parents. However, the research literature concerning teacher preparation for parent engagement is seldom consistent or comprehensive, and teachers generally consider this aspect of professional practice to be one for which they are not well prepared'.

Ymysg yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno cyfleoedd hyfforddiant mwy effeithiol i athrawon dan hyfforddiant mewn rhaglenni AGA mae, er enghraifft, y rhaglenni AGA sydd eisoes wedi'u gorlwytho a'r cymhlethdodau ynghylch ymgysylltiad rhieni, sy'n cynnwys ystyriaethau diwylliannol ac ystyriaethau o ran amrywiaeth. Ar yr un pryd, gall datblygiadau technolegol fel y defnydd o ddulliau fideo ac efelychiadau gynnog datrysiadau posibl i'r heriau presennol a chynnig cyfleoedd hyfforddiant newydd. Trafodir y materion hyn yn fyr isod.

### **4.3. Rôl rhaglenni AGA**

Awgrymwyd bod rhieni'n cyfrannu mwy pan fyddant yn teimlo bod yr athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan rieni a'u bod yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau (Levinthal de Oliveira Lima and Kuusisto 2020).

Er na cheir tystiolaeth gynaliadwy eto ar y modd y mae technolegau digidol yn gwella ymgysylltiad rhieni (Head 2020), mae cyfathrebu digidol wedi dod yn ffordd bwysig i athrawon a rhieni gyfathrebu. Mae addysg a hyfforddiant ar y defnydd effeithiol o dechnoleg i wella deialog rhwng athrawon a rhieni yn fater sy'n dod i'r amlwg (Levinthal de Oliveira Lima a Kuusisto 2020).

Mae Levinthal de Oliveira Lima a Kuusisto (2020, t. 10) yn awgrymu bod ymgysylltiad rhieni

'is based on authentic interactions, true acceptance, trust, and belief in bringing out the best of each family' and they go on to point out that parental engagement 'goes beyond interacting as teacher and parents—rather, refers to interacting as whole individuals that are sensitive about each other's needs, beliefs, and ideas...for the common goal of the child's success in life'.

Er mwyn atgyfnerthu cydberthnasau rhwng athrawon a rhieni – ac felly ymgysylltiad rhieni – mae'n bwysig dechrau cydnabod lle a phwysigrwydd rhieni mewn addysg plant a phobl ifanc (Goodall 2017). Mae addysg athrawon yn chwarae rhan bwysig yn pontio'r bwll hwn.

Canolbwyntiodd astudiaeth o ymgysylltiad rhieni ar draws ardaloedd gwahanol yng Nghanada ar asesu effaith ymyriadau gwahanol wedi'u targedu at wella deilliannau myfyrwyr (Leithwood and Patrician 2015). Un o ganfyddiadau eang a chyffredin yr astudiaeth hon oedd, er gwaethaf yr ymyriadau gwahanol, roedd yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i annog cyfranogiad rhieni fel partneriaid at addysg eu plant. Mae cefnogi ymgysylltiad rhieni â dysgu yn galw am broses hirdymor a pharhaus, sydd hefyd yn galw am gyfleoedd dysgu i staff a newid agweddau ymysg pob rhanddeiliad (ibid).

Yng nghyd-destun Awstralia, mae ymgysylltiad rhieni wedi'i ymgorffori mewn rhaglenni AGA a chwricwla. Un o'r gofynion yn y Safonau Proffesiynol i Athrawon yn Awstralia yw bod angen i athrawon graddedig baratoi adroddiad achredu yn nodi sut maent yn bodloni'r meini prawf perthnasol - yn cynnwys sut maent yn ymgysylltu'n effeithiol â rhieni - cyn y gallant symud ymlaen i'r lefel broffesiynol hyfedr (Saltmarsh and McPherson 2019). Er hyn, ceir tystiolaeth i awgrymu na cheir digon o gyfleoedd ymarferol yn y cwricwla, ac yn ystod ymarfer proffesiynol, i athrawon dan hyfforddiant feithrin cymwyseddau yn y maes hwn. Ymhellach, gall dylanwad mentoriaid ac athrawon mwy profiadol, er enghraifft, yn ystod lleoliadau, fod yn arwyddocaol o ran y modd y bydd athrawon dan hyfforddiant yn ystyried ymgysylltiad rhieni yn ddiweddarach yn eu gyrfaoedd.

Yng nghyd-destun Awstralia, archwiliodd Saltmarsh, Barr a Chapman (2015) y graddau y mae rhaglenni AGA yn paratoi athrawon dan hyfforddiant i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni drwy gyfweiliadau lled-strwythuredig â 35 o addysgwyr athrawon. Tynnodd yr ymchwilyr sylw at y diffyg cysondeb o ran ymgysylltiad rhieni mewn rhaglenni addysg athrawon.

Gwnaethant ganfod fod ymgysylltiad rhieni yn cael ei drin mewn modd ad hoc braidd ym mhob rhaglen AGA. Dim ond dwy brifysgol, o'r 15 o brifysgolion sy'n mynd ati'n benodol i ymgorffori unedau ar ymgysylltiad rhieni yn eu rhaglenni AGA, a wnaeth gyflwyno hyfforddiant ymarferol ar ymgysylltiad rhieni yn ystod lleoliadau athrawon dan hyfforddiant ac ar draws yr addysg a ddarperir iddynt: h.y., cyrsiau sylfaen, unedau annibynnol sy'n mynd i'r afael â meysydd o ddiddordeb arbennig, ac unedau annibynnol sy'n mynd i'r afael â'r maes hwnnw o ymgysylltiad rhieni. Ymhellach, eir i'r afael â'r mater o gyfathrebu â rhieni mewn cyrsiau anghenion arbennig ac addysg gynhwysol. Felly, cânt eu trin fel problem o'r cychwyn cyntaf. Canfu'r ymchwilyr hefyd, pan gafodd ymgysylltiad rhieni ei ymgorffori yn y profiad ymarferol i fyfyrwyr, bod eu profiad yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar sawl ffactor yn cynnwys diwylliant pob ysgol, a safbwyntiau mentoriaid athrawon ar bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni at hyfforddiant athrawon.

Mae ymchwil empirig wedi dangos, er bod sawl athro yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda rhieni, mae diffyg eglurder o hyd ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth ddelio â rhieni, beth i'w ddisgwyl gan rieni yn ogystal â'r hyn y dylid ei wneud i wella gwybodaeth broffesiynol ac arferion presennol (Saltmarsh et al 2019).

O ystyried ei bod yn ofynnol i athrawon drafod llawer o faterion sensitif am ymddygiad, cynnydd neu gyflawniad plant â rhieni, gall strategaethau a sgiliau cyfathrebu effeithiol helpu athrawon i ddelio â'r sefyllfaoedd hyn yn hyderus ac yn briodol, ond mae'n ymddangos nad yw llawer o athrawon yn cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer y tasgau hyn.

Yn y cyd-destun Ewropeaidd, gwnaed ychydig bach o ymchwil i'r graddau y caiff athrawon cyn dechrau gwasanaethu eu paratoi i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni (Willemse et al. 2018). Awgrymwyd y gallai'r rhaglenni AGA sydd eisoes wedi'u gorlwytho fod yn un rheswm dros hyn. Mae'r bwch mewn ymchwil a'r ffaith ei bod yn ymddangos nad yw ymgysylltiad rhieni wedi'i gynnwys fel rhan bwysig o baratodau athrawon dan hyfforddiant yn galw am fwy o ymchwil i raglenni addysg athrawon Ewropeaidd yn y maes hwn (ibid). Un maes ffyniannus fyddai asesu effeithiolrwydd dulliau fideo ac efelychiadau wrth baratoi athrawon yn y dyfodol ar gyfer partneriaethau llwyddiannus rhwng teuluoedd ac ysgolion (Willemse et al. 2018).

#### **4.4. Problemau â Rhaglenni AGA ar hyn o bryd**

##### **4.4.1. Diffyg hyfforddiant**

Mae astudiaethau wedi rhoi tystiolaeth nad yw staff ysgolion ac athrawon yn cael hyfforddiant priodol ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni (McConchie 2004, Macgregor 2005, Goodall and Vorhaus 2011). Canfu'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (Van Poortvliet, Axford et al. 2018) mai llai na 10% o athrawon oedd wedi cael Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar ymgysylltiad rhieni. Ymhellach, mae Willemse et al. (2018) yn awgrymu nad yw'n anghyffredin dod o hyd i athrawon nad ydynt yn deall gwerth ymgysylltiad rhieni yn

iawn. Nododd ymchwilwyr yn Awstralia ac UDA mai diffyg damcaniaethu yn y mae hwn oedd ar fai am y paratoi proffesiynol gwael (Jordan, Orozco et al. 2001, Daniel 2011). Mae Flynn (2007) yn dadlau pan (ac os) caiff rhieni eu crybwyll mewn hyfforddiant AGA, bod hyn yn ymwneud yn bennaf ag adrodd, cyfathrebu, ei fod yn ddigyfeiriad yn aml, ac yn ymwneud â sut i fynd i'r afael â sgysiau anodd, sy'n dangos tybiaethau ynghylch natur broblemus y bartneriaeth rhwng rhieni ac ysgolion (Flynn, 2007).

Mae'r dull annigonol o fynd i'r afael â'r maes hwn yn amharu ar ddealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o ymgysylltiad rhieni y tu hwnt i restr o'r pethau y mae rhieni da yn ei wneud (Barton, Drake et al. 2004, 2). Mae hyn yn gyfystyr ag esgeuluso'r dimensiwn cymdeithasol wrth annog rhieni i ymgysylltu ag addysg eu plant, sy'n gofyn am ddealltwriaeth bod ymgysylltiad gweithredol yn digwydd drwy ddeialog â chyd-ddestun (ibid, t. 6). Mae athrawon dan hyfforddiant hefyd yn "unprepared to work with the conflicts, crises and general emotional turmoil that parent communication and criticism throw at them" (Hargreaves 2000, p. 2). Caiff y pwyntiau hyn eu nodi wrth rannu'r maes hwn yn fodiwlau annibynnol, drwy gyrsiau dewisol, ar gam datblygedig o'u hastudiaethau, lle cynigir sgiliau cyfathrebu effeithiol ac ymarferol, yn hytrach na chael eu hintegreiddio ym mhob cwrs sydd ar gael (Saltmarsh, Barr a Chapman; 2015). Er hyn, mae'r anhawster o ran monitro eu perfformiad yn codi o'r graddau y cynigir cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant yn ystod eu lleoliad i ymgysylltu'n aml â rhieni, y gwerth y mae mentoriaid addysgu yn ei roi ar ymgysylltiad ymarferol gan rieni, a diwylliannau ysgolion, a all atal cyfleoedd ymarferol i ymgysylltu (ibid).

#### **4.4.2. Materion strwythurol**

Mae mynegiannau o ddiffyg (deficit discourses) ynghylch grwpiau penodol o rieni wedi cael eu rhannu mewn dogfennau polisi ynghyd ag ar lafar gwlad a'r wasg boblogaidd. Mae'r mynegiant hwn, sy'n bodoli law yn llaw â galwadau am gyfiawnder cymdeithasol a gwella amodau'r rheini y portreadir eu bod dan anfantais, hyd yn oed yn isdrothwyol, wedi llywio'r ffyrdd yr eir i'r afael ag ymgysylltiad rhieni a'r modd y caiff ei ddeall yn gyffredinol ar draws y sbectwm. Pŵer mynegiant o ddiffyg yw ei fod yn cyfeirio'r ffyrdd o feddwl ymysg y cyhoedd ac mewn lleoliadau proffesiynol. Mae'n dylanwadu ar farn (neu ragfarn) ynghylch grwpiau penodol o rieni mewn lleoliadau addysgol, yn cynnwys ysgolion, a'r disgwyliadau ohonynt, yn enwedig cysylltiadau rhwng ysgolion a rhieni (Crozier a Davies, 2007; Goodall, 2019).

Mae Ladson-Billings yn dadlau bod y mynegiant o ddiffyg mewn addysg yn (Ladson-Billings 2013) fframio'r agweddau y mae am fynd i'r afael â nhw o ran y gwahaniaeth rhwng grwpiau o ddiwylliannau gwahanol, statws economaidd-gymdeithasol, hil neu ethnigrwydd, gan bortreadu bod y rheini a ystyrir yn 'eraill' heb ddigon o rywbeth yn y *bôn* oherwydd eu nodwedd *aralleiddio*. Er enghraifft, caiff y diffyg ei feio ar eu gwahaniaeth o ran dosbarth, neu rywedd, neu ethnigrwydd, felly mai nhw a neb arall sy'n gyfrifol am ddeilliannau

addysgol eu plant (Gorski 2016, Goodall 2019, Saltmarsh and McPherson 2019). Mae'r mynegiant hwn yn anwybyddu materion strwythurol sy'n effeithio ar gyflawniad plant. Mae Goodall yn dadlau bod mynegiant o'r fath "is far too embedded, far too pervasive ... to be defeated by something as simple as mere reality... it reinforces our current ideas in an iterative, and ultimately damaging, cycle of presumption and myth" (t. 2). Mae'r mynegiant hwn yn llwyddo, yn llawer rhy aml, fel modd o gelu cyfundrefnau strwythurol a chymdeithasol anghyfiawn (Ladson-Billings 2013, Gillborn, Demack et al. 2017, Goodall 2019).

Mae mynegiant o ddiffyg yn dieithrio yn hytrach nag uno grwpiau gwahanol mewn cymdeithas. O ran ymgysylltiad rhieni, mae'r mynegiant yn cefnogi'r broses o greu rhethreg ni a nhw, lle mai'r ni yw'r model, a bod angen trwsio'r nhw (Gorski, 2016). Felly, i rieni plant y portreadir eu bod dan anfantais, mae'r diffyg yn bwydo o'r cysyniad ynghylch diwylliant tlodi (Ladson-Billings 2017). Mae tlodi yn yr ystyr hwn yn cyfeirio at ddiffyg adnoddau a gwerthoedd gwael a etifeddir o'u cartrefi, sy'n dod i'r amlwg drwy ddyheadau addysgol (canfyddedig) isel rhieni ar gyfer eu plant, a'r ffaith nad ydynt yn gweld unrhyw werth mewn addysg (Treanor 2017, Goodall 2019).

#### **4.5. Effaith Covid-19**

Cafwyd heriau amrywiol wrth addysgu yn sgil y newid i ddysgu cyfunol a dysgu o bell. Awgrymodd adolygiad diweddar ei bod yn debygol y bydd y newid i ddysgu o bell wedi difrodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y degawd diwethaf i bontio'r bwch o ran cyrhaeddiad i blant dan anfantais (Andrew, Cattan et al. 2020).

Roedd y graddau roedd plant yn ymwneud â fforymau addysgu a dysgu ar-lein yn amrywio'n helaeth. Er enghraifft, mae arolwg Andrew et al (2020) â rhieni plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Lloegr yn awgrymu bod effaith ffactorau economaidd-gymdeithasol ar anghydraddoldeb o ran profiadau addysgol wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y pandemig. Mae plant o deuluoedd difreintiedig yn treulio llai o amser yn y cartref yn dysgu o gymharu â'r rheini o deuluoedd breintiedig ac nid yw'r gweithgareddau y bydd plant difreintiedig yn cymryd rhan ynddynt yn gwella eu cyrhaeddiad addysgol o reidrwydd (ibid). Ar y cyfan, prin yw'r adnoddau a'r dyfeisiau technoleg sydd ar gael iddynt.

O ran cyrhaeddiad addysgol, canfuwyd bod plant teuluoedd cefnog yn treulio 30% yn fwy o amser yn dysgu o gartref o gymharu â'r rheini o deuluoedd tlotach. Roedd y grŵp cyntaf yn fwy tebygol o gael adnoddau gweithredol gan eu hysgolion, e.e., dosbarthiadau ar-lein, a sgysiau fideo, a mwy o gyfleoedd i gael tiwtoriaid preifat, na'r ail grŵp. Yn drawiadol, nid oes gan fwy na 50% o blant ysgol gynradd o'r cefndeioredd lleiaf breintiedig ardal eu hunain lle gallant astudio.

Nododd bron i 60% o rieni heriau wrth gefnogi dysgu eu plant ar lefelau cynradd ac uwchradd. Nododd rhieni cefnog eu bod yn teimlo y gallant gefnogi dysgu eu plant pan fyddant yn dysgu o bell yn well, mewn perthynas â'u sgiliau personol a'r ddarpariaeth o ardal astudio. Gall rhieni nad oes ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wella cyflawniad eu plant fod yn gyndyn i helpu eu plant (Organisation for Economic Co-operation and Development 2011). Yn wir, gall y gwahaniaethau yng ngalluoedd, sgiliau ac adnoddau rhieni ddylanwadu ar ddeilliannau addysgol eu plant (Drayton 2020).

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau o arolwg Lucas, Nelson a Semi (2020) ag uwch-arweinwyr ac athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd yn Lloegr. Canfu'r ymchwilyr, er gwaethaf yr arweiniad swyddogol i gefnogi dysgu ar-lein ar bob lefel, bod 80% o athrawon wedi nodi diffyg mawr o ran cwmpas bron bob maes o'r cwricwlwm. Mae bron hanner y rhieni yn cefnogi dysgu eu plant pan fyddant yn dysgu o gartref, gyda'r cyfraniad ychydig yn is ar gyfer plant ysgolion uwchradd. Nodwyd mai diffyg mynediad i ddyfeisiau Technoleg Gwybodaeth (TG) gartref a diffyg ardal briodol i astudio, os o gwbl, oedd y prif ffactorau oedd yn rhwystro plant rhag cymryd rhan.

#### **4.6. Ymgysylltiad Rhieni : Cyd-destun Cymru**

Yn ôl yr Arolwg Rhieni yng Nghymru (2020) gan Ymddiriedolaeth Sutton, dim ond tua 40% o rieni oedd yn teimlo'n hyderus i fynd ati i gefnogi dysgu eu plant. Lluniodd Parentkind arolwg ar-lein i rieni yng Nghymru ynghylch eu canfyddiadau o brofiad addysgol eu plant yn ystod ail hanner tymor blwyddyn academaidd 2019/2020. Dangosodd yr ymatebion cyffredinol bod ychydig dros 20% o rieni yn treulio llai na 25% o'u hamser o gymharu â 45% o rieni a oedd yn treulio mwy na 75% o'u hamser yn goruchwyllo gwaith eu plant. Nid oedd boddhad rhieni â lefel y cymorth a gânt gan ysgolion yn uchel. Nododd cyfanswm o 28% eu bod yn teimlo'n fodlon (bodlon iawn neu eithaf bodlon) ynghylch pa mor aml roeddent yn cadw llygad arnynt, roedd 26% yn fodlon (bodlon iawn neu eithaf bodlon) â'r adnoddau dysgu a ddarparwyd i'w helpu i gefnogi dysgu eu plant, roedd 20% yn fodlon (bodlon iawn neu eithaf bodlon) â'r adroddiad diwedd blwyddyn ac roedd bron i 50% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â dulliau cyfathrebu'r ysgol (Parentkind 2020). Er hyn, cyfrannodd rhieni yn sylweddol at ddysgu eu plant pan oeddent yn dysgu o bell a oedd yn cynnwys cymorth emosiynol yn ogystal â'u helpu â gweithgareddau dysgu. Nododd 53% o rieni eu bod yn ymgysylltu mwy na chyn y cyfyngiadau symud ac nid yw 33% wedi newid lefel eu hymgysylltiad oherwydd y cyfyngiadau symud. Nododd arolwg o 208 o athrawon yng Nghymru bod athrawon yn teimlo bod rhai plant wedi cael cefnogaeth dda yn ystod y cyfyngiadau symud. Nododd yr athrawon hyn fanteision posibl i les disgyblion; '*Mae treulio amser gyda'r teulu, pobi, cerdded ac ati wedi bod o fantais enfawr i'w lles*' (pennaeth). Roedd athrawon hefyd o'r farn bod rhai rhieni wedi dod yn fwy ymwybodol o anghenion dysgu eu plant, ac o'r hyn a oedd yn cael ei addysgu (Marchant, Todd et al. 2020, italics in source).

#### **4.7. Casgliad yr adolygiad o lenyddiaeth**

Fel y dangosodd y llenyddiaeth a drafodwyd uchod, mae ymgysylltiad rhieni yn derm dadleuol ynndo'i hun, ac yn aml ni chaiff ei gynnwys mewn AGA neu caiff ei grybwyll mewn modd sy'n awgrymu mai ymgysylltu â rhieni yw un o feysydd anoddaf rôl athro. Yn aml, cyfrifoldeb athrawon dan hyfforddiant yw canfod sut i gefnogi rhieni ar y pryd, sef drwy eu lleoliadau a thrwy drafodaethau â mentoriaid, sy'n golygu bod diffyg profiad cyson o ran cefnogi rhieni.

## 5. Methodoleg

Er nad oes (a gellid dadlau na ddylai fod) (Hammersley 2007) cyfres dderbyniol o feini prawf i sicrhau dibynadwyedd ymchwil ansoddol, mae'n bwysig bod ymchwilwyr yn egluro eu prosesau a'r rhesymau dros eu penderfyniadau sy'n seiliedig ar ymchwil.

Nod yr ymchwil hon yw cyflwyno cyfres leoledig, â chyfyngiadau amser, o fyfyrddodau cyfoethog ar brofiadau'r rheini a fu'n rhan o'r gwaith o hyfforddi athrawon yng Nghymru yn ysto pandemig COVID-19, yn ogystal â phrofiadau rhieni a welodd y newidiadau yn sgil y pandemig hwnnw. Fel y rhan fwyaf o ymchwil gymdeithasegol, er nad yw'n ceisio dadlennu na diffinio cyfreithiau na datganiadau cyffredinol (Hammersley 2007), nod yr ymchwil yw cyflwyno darlun o'r sefyllfa fel y'i deellir gan amrywiaeth briodol o ymatebwyr (Golafshani 2003).

Er bod y cysyniadau o ddibynadwyedd a dilysrwydd yn ddadleuol o hyd mewn perthynas ag ymchwil ansoddol (Lincoln and Guba 1985, Golafshani 2003), mae o leiaf yn bwysig ystyried bod ymchwil – a chanlyniadau ymchwil – yn ddibynadwy, ynddi'i hun ac wrth gymhwysu'r canfyddiadau i sefyllfaoedd go iawn.

Mae Cohen a Crabtree (2008) yn awgrymu bod saith elfen sy'n cefnogi honiadau o gadernid mewn ymchwil ansoddol; mae'r tabl isod yn dangos y modd y mae'r astudiaeth hon yn ymwneud â'r honiadau hyn:

<b>Meini prawf</b>	<b>Sut y cânt eu bodloni yn yr adroddiad hwn</b>
Gwneud gwaith ymchwil moesegol	Gweler adran 0
Pwysigrwydd yr ymchwil	Gweler adran 4.1
Eglurder a chydlyniaeth yr adroddiad ymchwil	Cadwyd iaith yr adroddiad hwn ar lefel hygyrch yn fwriadol; mae pob rhan o'r data yn ymweud â'i gilydd yn y naratif.
Defnydd o ddulliau priodol a thrylwyr	Gweler adran 0
Pwysigrwydd atgyrchedd neu roi sylw i ragfarn ymchwilydd	Gweler adran 0
Pwysigrwydd sefydlu dilysrwydd neu gredadwyedd	Mae'r data a adroddir yma yn ddilys yn fewnol; cafodd trawsgrifiadau o gyfweiliadau eu gwirio yn erbyn recordiadau, ac anfonwyd yr astudiaeth achos i'w chymeradwyo gan bennaeth yr ysgol (gwiriad aelodau). Mae'r data yn rhoi dealltwriaeth



	gyfoethog o'r dirwedd o ran rianta a lle ymgysylltiad rhieni mewn AGA yn ystod pandemig COVID-19.
Pwysigrwydd dilysu neu ddibynadwyedd	Gwiriad aelodau ar gyfer yr astudiaeth achos; mewnbwn gan aelodau tîm (yn cynnwys darparwyr AGA) ar yr adroddiad terfynol.

*Tabl 2 Meini prawf ansawdd (Yn seiliedig ar Cohen a Crabtree 2008)*

Bydd yr adran hon yn nodi'r broses ymchwil o'r cychwyn hyd at y broses o godeiddio canfyddiadau a llunio argymhellion.

## 5.1. Dethol a chaffael samplau

Er bod cyfyngiadau pandemig COVID-19 wedi effeithio ar yr ymchwil hon (gweler adran 0), aeth y tîm ymchwil ati i weithio gyda darparwyr ac ysgolion drwy gydol y prosiect.

Cyflwynwyd y prosiect i ysgolion partner dros gyfres o gyfarfodydd gan aelodau Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor; ceisiwyd safbwyntiau ysgolion arweiniol ynghylch y cwestiynau ymchwil yn ogystal â'r modd y cynhaliwyd yr ymchwil. Yn ystod y cam hwn o'r prosiect, aeth aelodau'r tîm i gyfarfodydd rhwydwaith o ysgolion partner, i drafod y prosiect a cheisio mewnbwn gan arweinwyr ysgolion partner ar y cwestiynau i'w gofyn a'r meysydd i'w harchwilio.

Ar ôl trafod â'r ysgolion partner, cafodd amserlenni'r cyfweiliadau eu dylunio ar y cyd gan aelodau'r tîm ymchwil yn y ddau sefydliad, yn seiliedig ar wybodaeth berthnasol yn y maes (gweler adran 3), y trafodaethau â'r ysgolion partner a gan gyfeirio at y briff ymchwil.

Defnyddiwyd gwaith samplu bwriadus a chyfleus i ddewis ymatebwyr ar gyfer cam cyfweiliad y prosiect hwn, gan fod strategaethau gwahanol yn briodol i'r grwpiau gwahanol o ymatebwyr (Devers and Frankel 2000, Etikan, Musa et al. 2016). Cynhaliwyd cyfweiliadau â darparwyr AGA drwy fframwaith samplu bwriadus, gan fod hwn yn grŵp llawer llai a chyfyngedig. Cysylltwyd â phob darparwr AGA yng Nghymru dros e-bost yn ogystal ag yn ystod cyfarfodydd, i drefnu cyfweiliadau ag aelodau priodol o'r tîm AGA (Saldana 2011). Cwmpaswyd pob darparwr AGA yng Nghymru yn y gwaith ymchwil hwn (dylid nodi bod un darparwr yn cael ei gynrychioli mewn cyfweiliad rhanddeiliaid gan fod gan yr ymatebydd fwy nag un swydd).

Cysylltwyd ag ymatebwyr i'r arolwg drwy ddulliau amrywiol, yn cynnwys e-bost i aelodau rhwydweithiau amrywiol (Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar (CREY), rhwydweithiau myfyrwyr a mentoriaid darparwyr, rhwydweithiau partneriaeth, ParentKind UK), yn ogystal â thrwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol (e.e., Twitter, Facebook).

Cynhaliwyd cyfweiliadau â rhieni ac athrawon dan hyfforddiant gyda sampl cyfleus (Cohen, Manion et al. 2013) o ymatebwyr. Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, ni fu'n bosibl i'r

ymchwilwyr deithio i gyfweld ymatebwyr. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn anodd cael gafael ar ysgolion a staff ysgolion; felly, roedd y prosiect ymchwil yn dibynnu ar gysylltiadau mewn rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes i gael gafael ar rieni ac athrawon dan hyfforddiant.

Cofnodwyd pob cyfweiliad, gyda chaniatâd yr ymatebwyr. Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau ar-lein, a'r rhan fwyaf ohonynt dros Zoom. Darparodd Zoom drawsgrifiadau o'r cyfweiliadau, a gafodd eu darllen ar y cyd â'r recordiadau, i sicrhau cywirdeb y trawsgrifiad.

Mae Zoom wedi bod yn adnodd defnyddiol wrth gynnal ymchwil ansoddol, gyda rhai ymatebwyr yn nodi bod yn well ganddynt y dull hwn o gael eu cyfweld na dulliau eraill, yn cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb (Archibald, Ambagtsheer et al. 2019). Dylid nodi bod yr holl ymatebwyr wedi arfer â'r meddalwedd hwn erbyn adeg y cyfweiliadau, gan ei fod wedi cael ei ddefnyddio cymaint i addysgu a dysgu dros gyfnod pandemig COVID-19.

## **5.2. Dulliau Casglu Data**

Roedd y prosiect ymchwil hwn yn dibynnu ar ddau brif ddull casglu data: cyfweiliadau lled strwythuredig ac arolygon. Mae'r dulliau hyn yn rhoi modd o driongli (Robson 1993, Cohen, Manion et al. 2013), ond mae hefyd yn bwysig nodi bod triongli yn y gwaith ymchwil hwn hefyd yn digwydd rhwng ymatebwyr yn ogystal â rhwng dulliau: hynny yw, mae'n bwysig nodi'r hyn y mae athrawon dan hyfforddiant wedi'u profi, yn ogystal â lleisiau'r rheini sy'n darparu'r profiadau hyn. Ategwyd y dulliau hyn drwy lunio astudiaeth achos.

### **5.2.1. Arolygon**

Cynhaliwyd arolygon ar gyfer rhieni, athrawon dan hyfforddiant, mentoriaid a darparwyr AGA. Mae arolygon yn ffordd gost effeithiol a defnyddiol o gasglu data gan boblogaethau eang (Minnaar and Heystek 2013), yn enwedig yn y sefyllfa o ran COVID-19 lle'r oedd cyfyngiadau helaeth ar deithio a rhyngweithio. Cynhaliwyd arolygon ar-lein ym Mhrifysgol Bangor gan ddefnyddio meddalwedd Jisc Online Surveys.

Cafodd gwybodaeth am yr arolygon ei dosbarthu drwy negeseuon e-bost i ysgolion partner a darparwyr, yn ogystal â rhwydweithiau o gysylltiadau. Tynnwyd sylw at arolygon hefyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn arbennig drwy Twitter. Cafodd yr arolygon myfyrwyr a rhieni ddigon o ymatebion i gael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn; mae'n anodd cyrraedd ymatebwyr yn aml drwy dulliau sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd (Lefever, Dal et al. 2007, Minnaar and Heystek 2013), a all gyfrif am y nifroedd isel mewn arolygon eraill (hefyd, cwmpaswyd y poblogaethau targed ar gyfer mentoriaid a darparwr yn y cam cyfweld).

Cafodd cwestiynau'r arolwg eu cynllunio gan y tîm ymchwil ar ôl ymgynghori ag ysgolion arweiniol ac ysgolion partner.

### **5.2.2. Cyfweiliadau a grwpiau ffocws**

Roedd cyfweiliadau yn ddull priodol o gasglu data ar gyfer y prosiect hwn, gan ein bod wedi ceisio deall ffeithiau penodol (fel argaeledd gwybodaeth am ymgysylltiad rhieni mewn rhaglenni AGA) yn ogystal â dealltwriaeth ymatebwyr o'r cysyniad hwnnw, sut y cafodd ei werthfawrogi a chanfyddiadau cyffredinol o'r mater (Cohen, Manion et al. 2013).

Roedd y cyfweiliadau yn lled strwythuredig eu natur (Cohen, Manion et al. 2013). Roedd yn bwysig cael fformat ar gyfer y broses gyfweld gan fod cyfweiliadau'n cael eu cynnal gan aelodau gwahanol o'r tîm ymchwil; roedd strwythur yn galluogi'r tîm i fod yn siŵr bod data priodol yn cael eu casglu. Fodd bynnag, roedd hefyd yn bwysig bod yn agored i ddata nad oeddem yn disgwyl nac yn rhagweld ei ganfod, felly roedd y strwythur cyfweld yn rhoi cyfle i ymatebwyr gyflwyno eu syniadau a'u dehongliadau eu hunain.

Defnyddiwyd cyfweiliadau unigol a grwpiau ffocws yn yr ymchwil hon. Roedd yr holl gyfweiliadau â'r darparwyr yn gyfweiliadau unigol; casglwyd data gan fyfyrwyr, rhieni, mentoriaid a rhanddeiliaid mewn trafodaethau grŵp ffocws (Dilshad and Latif 2013). Roedd y cyfweiliadau unigol a'r grwpiau ffocws yn dilyn yr un amserlen cyfweiliad.

Roedd y grwpiau ffocws a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon bob amser yn cynnwys grwpiau homogenaidd (Denscombe 1995), oedd â ffocws cyffredin. Caiff ymatebwyr o grwpiau ffocws eu hadnabod yn ôl rhif y cyfweiliad, felly, er enghraifft, gallai (10) gyfeirio at unrhyw aelod o'r grŵp ffocws, yn hytrach nag un unigolyn drwyddi draw.

### **5.3. Y broses o ddadansoddi data**

Mae'r broses o werthuso'r prosiect hwn wedi dilyn dull strwythuredig (Maxwell 2012). Nid oedd yr ymchwil yn cynnig damcaniaeth i'w phrofi. Yn hytrach, roedd yn dibynnu ar ddull anwythol, gan alluogi'r canlyniadau i ddeillio o'r data ar ôl ystyried y rhannau a'r cyfan (Hammersley 2007).

Datblygwyd fframwaith codio yn seiliedig ar ddarllen ac ailddarllen y cyfweiliadau (Lingard, Albert et al. 2008, Radulescu and Vessey 2011). Roedd y broses hon yn cynnwys defnyddio codau a orfodwyd (a priori) a chodau allddodol. Roedd codau a priori yn deillio o amserlenni'r cyfweiliadau a nodau'r prosiect. Codau trefniannol oedd y rhain, yn rhoi strwythur i'r fframwaith codio cyffredinol (gweler adran Annex 4). Deilliodd codau eraill o'r data (codau allddodol), drwy broses o ddarllen ac ailddarllen y data (Maxwell 2012). Dilynyd y broses strwythuredig hon ym mhob rhan o'r prosiect. Yn gyffredinol, cafodd 497 o eitemau unigol eu codio o'r cyfweiliadau ansoddol (nid yw hyn yn cynnwys yr astudiaeth achos).

Cymerwyd yr un dull ar gyfer y data â'r sylwadau testun rhydd yn yr arolygon. Defnyddiwyd yr un fframwaith codio ar gyfer data o'r arolygon a'r data o'r cyfweiliadau, er mwyn sicrhau y gellir triogli data rhwng ffynonellau (Maxwell 2012).

Roedd y cyfweiliadau, yn enwedig y rhai â'r grwpiau ffocws, o natur naratif, er bod yr amserlen cyfweiliadau y cytunwyd arni wedi'i dilyn cyn belled ag y bo modd. Yn aml, mae natur ddisgyrsiol y data yn golygu bod angen codio dwbl, fel y gellir codio rhannau o ddeialog o dan benawdau gwahanol. Anaml y mae sgysiau rhwng pobl yn syml, ac mae natur cyfweiliadau lled strwythuredig yn golygu bod trafodaethau'n cwmpasu cyfres o bynciau (ac yn ôl eto). Mae hyn yn golygu y gellir nodi sylwadau mewn mwy nag un rhan o'r adroddiad.

Wrth adrodd o'r cyfweiliadau a data'r arolwg, mae camgymeriadau gramadegol a/neu gystrawennol wedi'u cywiro. Ni newidiodd ymdeimlad y cyfathrebu mewn unrhyw achos (Oliver, Serovich et al. 2005).

Wrth adrodd am wybodaeth o gyfweiliadau a grwpiau ffocws, dim ond rhif y cyfweiliad fydd yn nodi pwy yw'r ymatebwyr.

#### **5.4. Astudiaeth achos**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys astudiaeth achos o ysgol benodol, a'i thaith tuag at sicrhau bod rhieni'n ymgysylltu â dysgu eu plant.

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynnwys fel elfen ddangosol o'r adroddiad, i ddangos y modd y gall canfyddiadau ac arferion ynghylch ymgysylltiad rhieni newid drwy weithredoedd staff yr ysgol. Mae astudiaethau achos yn ddulliau poblogaidd mewn ymchwil addysgol (Meyer 2001), yn aml am eu bod yn galluogi'r dysgwr i gysylltu ei brofiad ei hun yn uniongyrchol i'r hyn yr adroddir amdano; yn aml, bydd ymchwil addysgol yn gweithio o sail astudiaethau a modelau enghreifftiol (Hammersley 2007).

Mae astudiaeth achos yn cyflwyno realiti ffiniedig (Yin 2003). Yn yr achos hwn, y 'realiti ffiniedig' yw ysgol yn y de – ond yma, rhaid deall bod 'ysgol' yn cwmpasu'r gymuned gyfan, hynny yw, staff yr ysgol, rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned sy'n cefnogi dysgu, wedi'i ddiffinio'n eang.

Cyflwynir yr astudiaeth achos yma fel darluniad, i gefnogi'r data arall a gyflwynwyd, ac i roi enghraifft 'go iawn' o'r modd y gellir rhoi ymgysylltiad rheini â dysgu ar waith mewn lleoliad ysgol. Mae data yn yr astudiaeth achos yn deillio o gyfweiliadau â'r Pennaeth, y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd, ystadegau swyddogol am yr ysgol, data demograffig cefndirol ar ddalgyrch yr ysgol a gwybodaeth o arolwg ysgol diweddar ar gyfer rhieni.

#### **5.5. Materion ac ystyriaethau moesegol**

Cafodd y prosiect hwn gymeradwyaeth foesegol drwy broses cymeradwyaeth foesegol Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd y broses hon yn cynnwys craffu ar y cwestiynau a'r prosesau ymchwil.

Gofynnwyd am ganiatâd a'i gael gan holl ymatebwyr yr ymchwil, naill ai drwy gael eu caniatâd i barhau ag arolwg ar ôl darllen wyneb-darlun yn rhoi gwybodaeth am yr ymchwil, drwy gwblhau ffurflen ganiatâd ffisegol, neu ganiatâd geiriol yn ystod cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Roedd yr holl ymatebwyr yn oedolion (nid oedd angen cael caniatâd gan rieni) a chawsant daflen wybodaeth yn cynnwys manylion yr ymchwil cyn i'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws gael eu cynnal. Rhoddwyd sicrwydd i'r ymatebwyr y byddent yn ddiennw yn yr adroddiadau, ac eithrio'r pennaeth yn yr astudiaeth achos dan sylw, a roddodd ganiatd i'w ysgol gael ei henwi. Ym mhob achos arall, ni chaiff sefydliadau eu henwi ac ni chaiff ymatebwyr eu henwi ac ni nodir eu rhywedd yn yr adroddiadau.

Oherwydd y cyfyngiadau a roddir ar deithio ac ymweliadau yn sgil pandemig COVID-19, cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau ar-lein, naill ai drwy ddefnyddio Microsoft Teams neu, yn amlach, drwy Zoom. Er bod agweddau ar gyfweiliadau a all fod ar goll yn ystod cyfweiliadau ar-lein o'r fath (iaith y corff, er enghraifft), mae cynnal cyfweiliadau ar-lein yn ddewis amgen addas i drafodaeth bersonol ac, yn wir, gall gyflwyno elfennau gwerthfawr i'r broses (Gray, Wong-Wylie et al. 2020).


## 6. Canfyddiadau

### 6.1. Canfyddiadau o'r Arolwg Rhieni

Cwblhaodd 111 o rieni yr arolwg. Roedd nifer y plant oedd yn byw yn y cartref ar y pryd yn amrywio rhwng 1 a 10 (Canolrif = 2) gyda'r oedrannau'n amrywio o fabanod i 30 oed (Hynaf: Canolrif = 13 oed, ystod (3-30); leuengaf: Canolrif = 8 oed, ystod (0-18)). Roedd gan y mwyafrif o'r rhieni radd Baglor (38.7%)<sup>1</sup>, nid oeddent wedi'u dosbarthu'n weithwyr allweddol (59.5%) ac roeddent yn gweithio o gartref (50.5%). Roedd dros hanner y plant yn mynd i'r ysgol bob dydd (57.5%).

#### 6.1.1. Adnoddau

Gofynnwyd i'r rhieni am y math o ddyfeisiau electronig roeddent yn eu defnyddio i helpu eu plentyn i ddysgu gartref (e.e. cyfrifiadur, gliniadur, llechen, ffôn clyfar). Roedd gan bob rhiant o leiaf un math o ddyfais electronig yn y tŷ i helpu ag addysgu gartref ac roedd gan y mwyafrif dri math o ddyfais (gweler Ffigur 1).




Ffigur 1 Nifer y dyfeisiau electronig mewn cartrefi

Y math mwyaf poblogaidd o ddyfais oedd gliniadur (38%) yna llechen (29%), ffôn clyfar (26%) a chyfrifiadur (yn cynnwys iMac, cyfrifiadur pen desg a Chromebook) (7%). Pan ofynnwyd a gawsant adnoddau priodol yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf (Mawrth 2020), roedd y mwyafrif o'r rhieni'n cytuno'n gryf â'r datganiad (gweler Ffigur 2). Disgrifiodd y sylwadau gan y rhieni anawsterau o ran rhannu un ddyfais neu o ran cyflymder y rhyngwrdd yn enwedig pan oedd y plant a'r oedolyn yn defnyddio'r we yr un pryd. Pan ofynnwyd iddynt

<sup>1</sup> Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU (27%) ac ar gyfer Cymru, (24%).


sgorio datganiad tebyg ond gan gyfeirio at nawr, roedd y rhieni'n cytuno'n gryfach o gymharu â'r cyfyngiadau symud cyntaf (gweler Ffigur 2) gyda'r rhieni'n nodi gymaint yn haws roedd y sefyllfa ar ôl prynu mwy o ddyfeisiau neu eu benthyg o'r ysgol.



Ffigur 2 Sylwadau rhieni ar adnoddau

### 6.1.2. Hyder


Gofynnwyd i'r rhieni nodi a oeddent yn cytuno â datganiad ynghylch pa mor hyderus oeddent yn helpu eu plentyn i ddysgu gartref yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Roedd y mwyafrif o'r rhieni yn cytuno i raddau (27.9%) neu'n cytuno'n gryf (27.0%) â'r datganiad (gweler Ffigur 3). Ymysg y sylwadau gan rieni a nododd eu bod yn llai hyderus roedd prinder cyfarpar ac adnoddau yn ogystal â diffyg cyswllt, arweiniad a disgwyladau gan yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â phynciau arbenigol. Nododd y rhieni hefyd anawsterau o ran cydbwysu gwaith ac addysgu gartref. Nododd rhai a oedd yn cytuno'n gryf eu bod yn athrawon hyfforddedig a oedd yn helpu o ran cymorth academiaidd ond eu bod yn cael trafferth gan fod plant yn ymddwyn yn wahanol i'w rhieni. Pan ofynnwyd iddynt am eu hyder nawr, roedd y lefel cytundeb yn debyg iawn i lefelau blaenorol er bod newid bach yn y lefelau anghytuno gyda mwy yn ymateb eu bod yn Anghytuno rhywfaint yn lle Anghytuno'n gryf (gweler Ffigur 3). Awgrymodd sylwadau gan rieni bod pethau'n haws pan oedd mwy o adnoddau/ cyfarpar ar gael a'r ffaith bod plant wedi addasu'n dda a'u bod yn gyfforddus yn defnyddio llwyfannau'r ysgol.



Ffigur 3 *Hyder rhieni*

### 6.1.3. Cymorth


O ran y cymorth a'r cyswllt gan ysgolion, nododd dros hanner y rhieni bod ysgolion wedi cysylltu â nhw lai nag unwaith bob pythefnos (55.0%), fodd bynnag, roedd hyn yn digwydd o leiaf unwaith yr wythnos i 39.6% ohonynt. Roedd ysgolion yn cysylltu â rhieni gan ddefnyddio o leiaf un dull ac roedd hyn yn digwydd gan ddefnyddio dau neu fwy o ddulliau gwahanol i fwy na hanner y rhieni (63.6% (e.e., e-bost, ap yr ysgol, ffôn). E-bost oedd y dull cyfathrebu a ddefnyddiwyd amlaf (gweler Ffigur 4) a dyma oedd y dull a ffeirir gan rhieni gan mai dyna oedd y dull mwyaf cyfleus (49.0%).



Ffigur 4 *Dulliau cyfathrebu*



Gofynnwyd i' rhieni sgorio i ba raddau roeddent yn cytuno â datganiad ynghylch teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan ysgol eu plentyn yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Roedd yr ymatebion yn amrywiol ac roedd y mwyafrif o'r rheini yn anghytuno â'r datganiad (Gweler Ffigur 5). Ymysg y sylwadau a gafwyd gan rieni a oedd yn anghytuno â'r datganiad roedd prinder gwaith wedi'i osod gan ysgolion (yn enwedig ar gyfer disgyblion iau) a dim digon o gyswllt, er i un rhiant nodi y cysylltwyd ag ef ynghylch lles ond nid ynghylch dysgu. Pan ofynnwyd ynghylch lefel y cymorth nawr, newidiodd y sgorau yn ddramatig gyda'r mwyafrif o'r rheini yn cytuno (64.5%) â'r datganiad. Roedd llawer o'r rheini a oedd yn teimlo na chawsant ddigon o gefnogaeth yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth bellach gan fod mwy o wersi ar-lein, mwy o gyswllt gan ysgolion a mwy o adnoddau/gwaith i'r plant.




Ffigur 5 Teimladau rhieni o gefnogaeth

#### 6.1.4. Profiadau o gefnogi dysgu o gartref

Roedd y rhieni'n ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'r broses o gefnogi eu plant i ddysgu gartref (gweler Ffigur 6). Hefyd, nododd y rhieni eu bod yn gwneud mwy o weithgareddau nad oeddent yn gysylltiedig â'r gwaith yr oedd eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Ymysg y rhain roedd pethau fel coginio neu bobi, dysgu am natur, hanes lleol, iechyd a lles meddyliol, garddio, cerddoriaeth, chwaraeon ac ymarfer corff. Un thema amlwg a gododd gan y rhieni oedd pwysigrwydd siarad am iechyd meddwl a pheidio â phryderu y bydd plant yn cael eu gadael ar ôl. Roeddent yn annog ymarfer corff rheolaidd, cyfleoedd i droi'r sgriniau i ffwrdd, yn ogystal â gweithgareddau fel ymwybyddiaeth ofalgar ac roeddent

yn annog plant i archwilio pethau roeddent yn eu mwynhau gan nad oeddent am ychwanegu mwy o bwysau nac yn teimlo'r angen i wneud hynny. Disgrifiodd y rhieni eu bod yn defnyddio adnoddau a oedd ar gael i ategu'r gwaith a osodwyd gan ysgolion fel BBC bitesize, apiau/gwefannau addysgol, gwर्सlyfrau a hyd yn oed yn talu am diwtoriaid. Nododd y rhieni hefyd bwysigrwydd sgiliau rheoli amser a dysgu annibynnol yn ogystal â chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.



Ffigur 6 Gweithgareddau gyda phlant

Gofynnwyd i'r rhieni a oedd eu profiadau o ddysgu gartref wedi newid eu barn am ysgol eu plentyn a'r modd y mae'n cefnogi dysgu gartref. Dywedodd y mwyafrif bod hyn wedi newid eu barn am yr ysgol (59.0%), gyda'r rhan fwyaf o'r rheini yn nodi safbwyntiau negyddol (64.5%), a'r modd roeddent yn cefnogi dysgu gartref (55.8%). Deilliodd nifer o themâu o'r data.

Un thema o'r data oedd gwell dealltwriaeth o'r ysgol a sut mae pethau'n gweithio. Nododd y rhieni bod ganddynt barch o'r newydd at ysgolion/athrawon a'u bod yn canmol eu gwydnwch ac yn synnu at y modd y llwyddwyd i roi trefn ar bopeth mewn cyfnod mor fyr. Dywedodd y rhieni fod y cyfyngiadau symud wedi gwneud iddynt werthfawrogi amrywiaeth y gwaith a gaiff y plant. Nododd eraill fod y cyfyngiadau symud wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r modd y mae athrawon yn cefnogi'r disgyblion a'u bod yn cydnabod bod athrawon yn gwneud eu gorau.

Un thema arall o'r data oedd ansawdd amrywiol y ddarpariaeth ar-lein gyda rhai yn nodi nad oedd unrhyw wersi ar-lein, a oedd yn golygu bod addysgu gartref wedi bod yn heriol. Nododd y rhieni nad oedd y ddarpariaeth ar-lein cystal ag y gallai fod ac nad oedd rhai ysgolion mewn sefyllfa i gefnogi dysgu gartref. Roedd rhai rhieni yn pryderu ynghylch y diffyg cyswllt â gwaith y plant a rannwyd ar-lein yn rheolaidd ond na roddwyd unrhyw esboniad o'r gwaith ac yn aml cafwyd ymatebion byr drwy ClassDojo ond heb esboniad da i'r rheini a oedd yn ansicr.

Roedd trydedd thema o'r data yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng y disgyblion iau a'r disgyblion hŷn. Nododd y rhieni fod addysgu gartref yn anodd gyda phlentyn oedran cynradd o ran ei annog i ddysgu a gweithio ond bod y cyfyngiadau symud wedi addysgu'r plant hŷn sut i ddysgu'n annibynnol ac i ddisgyblu eu hunain.

Y thema olaf a ddeilliodd o'r data oedd bod y rhieni'n nodi pa mor heriol y gall addysgu gartref fod a nododd un rhiant ei fod yn fwy heriol na'r disgwyl. Nododd y rhieni bod angen paratoi a'i fod yn llafurus iawn. Roedd ysgogi plant yn broblem arbennig o amlwg.

### **6.1.5. Edrych ymlaen**

Gofynnwyd i'r rhieni beth yr hoffent i'r athrawon ei wybod am ymgysylltiad rhieni â dysgu yn y dyfodol.

Roedd gwella cyfathrebu yn thema amlwg gyda llawer o'r rhieni yn awyddus i gael cyswllt rheolaidd â'r athrawon ynghylch dysgu a chynnydd y plant. Mae'r rheini yn awyddus i gefnogi dysgu eu plant ond yn cael trafferth gwybod beth y dylai eu plentyn allu ei wneud ai peidio. Soniwyd am fwy o gymorth gyda dysgu eu plentyn hefyd yn cynnwys mwy o arweiniad ac awgrymiadau ar gyfer cymorth strwythuredig. 'Rydym am gael gwybodaeth o natur ymarferol'.

Dyweddodd un rhiant, 'Rwy'n credu bod angen cefnogaeth ar rieni plant oedran ysgol gynradd i ddeall arddull y gwaith – mae'r gwaith a gaiff plant iau yn fwy seiliedig ar chwarae, mae'n fwy cyfannol ac yn fwy seiliedig ar waith prosiect'. Roedd rhai o'r adnoddau a nodwyd yn cynnwys cyfarwyddiadau mwy gweledol a recordiwyd ymlaen llaw a sicrhau bod cynlluniau gwersi yn haws i rieni eu deall.

Nodwyd bod y rhieni am gael lleisio eu barn am mai nhw sy'n adnabod y disgyblion orau. Un thema arall oedd dealltwriaeth o ba mor heriol yr oedd addysgu gartref. Roedd llawer o rieni yn gweithio'n llawn amser felly ni allent gefnogi dysgu eu plant. Roedd addysgu gartref yn effeithio ar gydb berthnasau gan fod rhieni'n ymgymryd â rolau anghyfarwydd. Nodwyd bod y rôl athro a fabwysiadwyd ganddynt wedi creu gwrthdaro ac wedi effeithio ar iechyd meddwl pawb.

## **6.2. Canfyddiadau o'r arolwg myfyrwyr**

Cwblhaodd cyfanswm o 29 o fyfyrwyr AGA yr arolwg ac roedd 65.5% ohonynt wedi'u lleoli ym Mhrifysgol Bangor, 17.2% ym Mhrifysgol Abertawe, 6.9% ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac ni wnaeth 10.3% ymateb i'r cwestiwn. Roedd y mwyafrif (79.3%) ar gwrs TAR blwyddyn o hyd ac roedd y gweddill yn dilyn cwrs SAC. Roedd bron i ddwy ran o dair o'r myfyrwyr yn arbenigo mewn Addysg Gynradd (62.1%) ac roedd amrywiaeth o bynciau ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwchradd, yn cynnwys Cemeg, Bioleg, Mathemateg, Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth, Saesneg, Cyfrifiadureg ac Ieithoedd Tramod Modern.

### **6.2.1. Deall ymgysylltiad rhieni**

Pan ofynnwyd am eu dealltwriaeth o'r term ymgysylltiad rhieni â dysgu, roedd y myfyrwyr yn bennaf o'r farn ei fod yn golygu cyfraniad rhieni at ddysgu eu plant. Soniodd rhai myfyrwyr am ysgolion/athrawon yn cyfathrebu â rhieni ynghylch dysgu eu plentyn a'r ffaith bod ganddynt ddyletswydd i helpu rhieni i ddeall a chysylltu â dysgu eu plentyn. Nododd un myfyriwr dull gweithredu cyfannol lle mae rhieni yn helpu eu plant i ddysgu gartref, yn y gymuned yn ogystal ag yn yr ysgol.

### **6.2.2. Pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni**

Pan ofynnwyd a oedd ymgysylltiad rhieni â dysgu yn bwysig, dywedodd pob myfyriwr ei fod, ond, roedd amrywiaeth o safbwyntiau ar pam y mae mor bwysig. Roedd rhai myfyrwyr yn cydnabod nad dim ond i'r ystafell ddosbarth y mae dysgu ond y dylid hefyd ei ymestyn a'i atgyfnerthu yn y cartref, felly bod rhieni sy'n cyfrannu yn fwy tebygol o gefnogi dysgu eu plentyn gartref. Gwnaeth nifer bach o fyfyrwyr hefyd gysylltiad rhwng ymgysylltiad rhieni â deilliannau gwell yn yr ysgol. Roedd myfyrwyr eraill o'r farn bod ymgysylltiad rhieni yn bwysig am ei fod yn rhoi cipolwg i rieni ar yr hyn sy'n cael ei addysgu ac yn galluogi rhieni i weld cynnydd eu plentyn a pha mor dda y mae'n dysgu yn yr ysgol. Hefyd, soniodd myfyrwyr fod ymgysylltiad rhieni yn bwysig i agweddau plant tuag at ddysgu a'r ysgol. 'rhieni yw'r prif ddylanwad ar blant ac os nad ydynt yn cyfrannu, yna efallai na fydd y plant yn ymgysylltu'n llawn â'r cwricwlwm'.

Nododd y mwyafrif o'r myfyrwyr (93.1%) fod pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni wedi newid oherwydd y cyfyngiadau symud yn sgil COVID-19. Rhoddwyd ymatebion amrywiol wrth ddisgrifio'r modd y mae ei bwysigrwydd wedi newid. Un thema amlwg oedd y disgwyliad cynyddol i rieni ymgysylltu â dysgu eu plant. 'Dibynnir fwy a mwy ar rieni gyfer addysg eu plant' ac 'Mae hyn wedi golygu bod rhieni wedi gorfod cyfrannu mwy ac ymgymryd â rôl debyg i athro', yn enwedig o ran ysgogi plant i ymgysylltu â dysgu ar-lein. O ran darpariaeth ar-lein, mae'r cyswllt â'r rhieni wedi bod yn anoddach ac mae dysgu o bell wedi bod yn rhwystr o ran cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol. 'Ni chafwyd cymaint o gyfle i ymgysylltu â rhieni fel y byddai ysgolion yn ei wneud fel arfer' ac 'Mae angen mwy o gyswllt â rhieni'.

### **6.2.3. Ymgysylltiad rhieni â chyrsgiau AGA**

Gofynnwyd i'r myfyrwyr a soniwyd am ymgysylltiad rhieni â dysgu fel rhan o'u cwrs. Dywedodd mwy na hanner ohonynt (55.2%) y soniwyd amdano, fodd bynnag, dywedodd 65.5% na soniwyd amdano mewn mwy nag un modiwl o'u hastudiaethau. Ymysg rhai o'r ffyrdd y soniwyd am ymgysylltiad rhieni ar y cyrsiau roedd pwysigrwydd cyfathrebu â rhieni, pwysigrwydd amgylchedd y cartref a chydberthynas rhwng y cartref a'r ysgol ond ni phwysleisiwyd hyn yn ddigonol yng nghyd-destun y cwrs. Gofynnwyd i'r myfyrwyr hefyd a

soniwyd am ymgysylltiad rhieni yn ystod eu lleoliad. Nid oedd mwy na chwarter (27.6%) y myfyrwyr wedi bod ar eu lleoliad ar adeg cwblhau'r arolwg. O'r rheini a oedd wedi bod ar eu lleoliad, nododd 6.19% y soniwyd am ymgysylltiad rhieni, yn enwedig o ran yr heriau ynghylch ymgysylltiad rhieni ond hefyd ei bwysigrwydd a sicrhau bod cydberthynas gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r rhieni.

#### **6.2.4. Edrych ymlaen**

Gofynnwyd i'r myfyrwyr a fyddent yn cefnogi ymgysylltiad rhieni â dysgu yn eu gyrfaeodd fel athrawon yn y dyfodol. Y thema amlwg o'r ymatebion oedd cyfathrebu mwy â rhieni. Nodwyd bod hyn er mwyn sicrhau bod rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a'r cynnydd ac i roi manylion y pynciau yr oedd y plant yn eu cwmpasu yn yr ysgol. Soniodd y myfyrwyr hefyd ynghylch canmol rhieni sy'n ymgysylltu â phrofiad dysgu eu plant er mwyn ceisio annog rhieni eraill i ymgysylltu. Byddent hefyd yn cyfathrebu er mwyn cefnogi rhieni, yn benodol ynghylch sut i gefnogi eu dysgu gartref gyda gwaith cartref neu dasgau. Soniwyd am amrywiaeth o ddulliau mewn perthynas â chyfathrebu â rhieni yn cynnwys galwadau ffôn, llwyfannau ar-lein, nosweithiau rhieni, cylchlythyr, cardiau post/slipiau, digwyddiadau, sgysiau ar ddiwedd y dydd, cyfarfodydd a llythyrau gartref. Un thema arall oedd bod am gynnwys rhieni mewn agweddau gwahanol ar ddysgu eu plentyn. Soniodd y myfyrwyr eu bod am eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau lle y bo modd (wedi'i ategu yn yr arolwg myfyrwyr) ac i wrando ar unrhyw gwestiynau/pryderon a gweithredu arnynt. Byddent yn gwrandao ar adborth ac yn gweithredu'n briodol, yn ogystal â sicrhau bod rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd y myfyrwyr am feithrin cydberthynas waith gadarnhaol â'r rhieni. Yn olaf, nododd rhai myfyrwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd ymateb i'r cwestiwn hwn gan nodi bod angen iddynt gael mwy o fanylion i ddechrau gan mai newydd gael ei gyflwyno oedd hyn. Mae'n ymddangos bod y cysyniad braidd yn anghyfarwydd gan na soniwyd amdano fel rhan o gynnwys AGA a/neu ar leoliad. Roedd un myfyriwr am ddefnyddio'r lleoliad fel cyfle i ddysgu mwy. 'Rwyf am ofyn am gyngor a dilyn esiampl yr ysgol lle roeddwn i ar leoliad'.

### **6.3. Canfyddiadau o'r cyfweiliadau ansoddol**

#### **6.3.1. Diffiniad a phwysigrwydd ymgysylltiad rhieni â dysgu**

'Rwy'n credu bod hyn yn allweddol i addysg plant... am mai 50 munud y byddwch chi'n eu cael gyda nhw ac yna ... maen nhw'n mynd at rywun arall, a rhywun arall eto wedyn. Yr unig gysondeb a gânt drwy gydol yr wythnos yw pan fyddant yn mynd adref a bod eu rhieni yno. Rydych chi'n gwybod bod llawer o drafodaethau am bethau fel gwaith cartref ond nid gwaith cartref sy'n hyrwyddo'r dysgu wedyn ond y sawl sy'n eu cefnogi gartref – sef y rhieni, felly mae cydweithio rhwng rhieni a staff yr ysgol yn hanfodol yn fy marn i. Ac nid yw'n rhywbeth sy'n digwydd yn ddigon aml yn fy marn i' (14).

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn glir eu bod yn gwerthfawrogi ymgysylltiad rhieni; ystyriwyd ei fod yn hanfodol (13), yn hollol hanfodol i'r ysgol ar gyfer y dyfodol (17), ac yn bwysig iawn (7). Nododd un ymatebydd ei fod yn gwybod bod rhieni yn allweddol i ddatblygiad plentyn, mai nhw yw'r prif benderfynyddion (9) (wedi'i ategu gan 18), a gadarnhawyd gan ymatebydd arall a nododd mai dim ond am gyfnod byr y bydd pobl ifanc yn yr ysgol, a'u bod gartref am gyfnod llawer hwy (12).

Ymhelaethodd un ymatebydd drwy ddweud 'mae'n bwysig iawn cael cydberthynas dda â rhieni, fel bod yr ethos hwnnw ym mhob rhan o'r ysgol' (7). Mae hyn yn cyflwyno'r maes cyntaf a'r prif faes o bwysigrwydd y soniodd ymatebwyr amdano ar gyfer ymgysylltiad rhieni, sef y gydberthynas rhwng rhieni a'r ysgol.

### **6.3.2. Cydberthnasau**

Nodwyd eu bod yn gweithio gryn dipyn ag ysgolion ar ymgysylltiad rhieni o ran siarad ag ysgolion am eu strategaethau cyfathrebu. Yn benodol, wrth feddwl am y pandemig, nodwyd eu bod wedi siarad cryn dipyn ag ysgolion ynghylch y modd maent yn cynnal y cyswllt hwnnw. Sut maent yn sicrhau bod y gydberthynas yn cael ei chynnal drwy'r cyfnod hwn. Sut maent yn cyfathrebu â rhieni. (17).

Mae hyn yn crynhoi canfyddiad cyffredinol y staff, gweithwyr AGA proffesiynol ac athrawon dan hyfforddiant o ymgysylltiad rhieni: disgrifir bod ymgysylltiad rheini ynghylch y cydberthnasau rhwng staff yr ysgol a rhieni/teuluoedd (10,17,2,1,8,15,14).

### **6.3.3. Meithrin cydberthnasau**

Pwysleisiodd yr ymatebwyr werth cydberthnasau â rhieni gan nodi ei fod yn ymwneud â meithrin cydberthnasau (17), a sicrhau cydberthnasau cadarnhaol â rhieni (1).

Soniodd un darparwr am bwysigrwydd sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael eu cefnogi i allu meithrin y cydberthnasau hynny â rhieni (8); 'Fel darlithydd TG, rwy'n tybio bod angen codi ymwybyddiaeth y myfyrwyr bod angen iddyn nhw hwyluso'r cydberthnasau cadarnhaol hynny'. (11). Mae'n amlwg bod athrawon dan hyfforddiant wedi deall hyn, gan eu bod yn siarad am edrych ymlaen at feithrin cydberthnasau dwyffordd buddiol â rhieni yn eu gwaith eu hunain, cydberthnasau a gaiff eu meithrin drwy gyfathrebu cadarnhaol ac sy'n rhai da ac iach (15).

Nododd un rhiant sydd hefyd yn athro ei fod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd meithrin cydberthnasau.

'Gall y rhieni hynny fod wedi cael profiad negyddol yn yr ysgol a'n lle ni yw torri'r cylch hwnnw, drwy hyrwyddo cydberthnasau da â'r rhieni, gan roi gwybod iddynt ei bod yn ddiogel iddynt ddod i'r ysgol, ei bod yn hawdd siarad â ni, rydyn ni'n ddymunol - yn wahanol i'r ffordd roedd pethau flynyddoedd yn ôl. Yn ei dro, mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar y plant a

wnes i ddim sylweddoli pwysigrwydd hynny, ond mae'n bwysig ein bod ni'n ei wneud yn dda' (7).

Cafodd y cysyniad hwn o'r newid dros amser yn y gydberthnas rhwng rhieni a staff ysgol ei ategu gan ddarparwr arall, a nododd y gall llawer o rieni fod wedi cael profiadau negyddol ag ysgolion yn y gorffennol, a'i bod yn bwysig iawn bod ysgolion wedi newid ac mai'r unig ffordd o wneud hynny yw drwy feithrin cydberthnasau â rhieni (7). Aeth yr ymatebydd hwn ymlaen i nodi bod y gydberthnas rhwng staff a'u rhieni yn dylanwadu ar blant, ac y gall cydberthnas gyfforddus rhwng y partïon hyn arwain at gydberthnas well rhwng myfyrwyr ac athrawon. Roedd un mentor yn cytuno â hyn, a nododd y bydd yn cymryd blynyddoedd i sicrhau hyn gan ei fod yn gysyniad brawychus i riant nad yw wedi cael profiad cadarnhaol yn yr ysgol o bosibl (14). Nododd yr ymatebydd hwn, ynghyd â sawl un arall, pa mor bwysig yw cyfathrebu cadarnhaol, fel y soniwyd uchod.

Nodwyd bod safonau Estyn (5) yn ystyried cydberthnasau rhwng staff addysgu a rhieni, o dan bennawd lles myfyrwyr ac agweddau at ddysgu; nododd un darparwr bod cynnwys partneriaid mewn dysgu (12) wedi'i wreiddio yn y safonau proffesiynol.

#### **6.3.4. cyfathrebu**

'...os sonnir am ymgysylltiad rhieni â dysgu fel ymarferydd, fel athro, yn amlwg, rydyn ni'n sôn am bob lefel o gyfathrebu â rhieni ynghylch plant, nid dim ond am eu datblygiad academaidd, ond hefyd eu lles cymdeithasol a phersonol, eu datblygiad a'r modd rydym fel athrawon ac ymarferwyr yn adeiladu ac yn meithrin y cydberthnasau hynny â rhieni...' (1).

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ystyried bod a wnelo ymgysylltiad rhieni â mwy na chyfathrebu â rhieni. Mae'n arwyddocaol mai dyma oedd safbwynt llethol y rheini a oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni (10), hysbysu rhieni (11), anfon llythyrau gartref (15), bod angen i rieni fod yn ymwybodol o'r modd y mae plentyn yn ymddwyn yn yr ysgol (10), a bod angen i rieni gyfrannu mwy at yr ysgol (15, 19). Roeddent yn ystyried bod cyfathrebu wrth wraidd y broses o feithrin a chefnogi cydberthnasau.

Nodwyd hysbysu rhieni hefyd gan fentoriaid (14) a darparwyr (4, 1, 9), yn cynnwys y cysyniad o adrodd parhaus (4); nid yw'n syndod y soniwyd am nosweithiau rhieni yn aml. Nododd un darparwr fod a wnelo ymgysylltiad rhieni â sicrhau cefnogaeth rhieni (5), a nododd un arall ei bod yn hollbwysig bod rhieni yn eich cefnogi fel ysgol ac fel athro (7). Ystyriwyd, yn benodol gan athrawon dan hyfforddiant, bod ysgolion yn cyfathrebu â rhieni, drwy dduilliau adrodd fel nosweithiau rhieni, a llythyrau a anfonir gan yr ysgol (10). Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer o fyfyrwyr wedi sôn am werth galwadau ffôn cadarnhaol gartref i rieni, a nodwyd eu bod yn awyddus i sefydlu cyswllt o'r fath (er eu bod yn cael eu hatal rhag gwneud hynny ar leoliadau, gweler 0(10)). Mae'n ddiddorol bod rhieni wedi mynegi'r safbwynt hwn hefyd, a'u bod yn sôn am dderbyn llythyrau, gweithio gyda'r ysgol, a mynd i mewn i'r ysgol (9, 12).

Drwy'r data, mae'n amlwg yr ystyrir bod ymgysylltiad rhieni wedi'i arwain gan ysgolion ac wedi'i sefydlu gan ysgolion;

'Byddwn i'n dweud ei fod yn ymwneud â chydweithio â rhieni, bod gan yr ysgolion nodau ac amcanion o ran datblygiad plentyn a bod angen ymgysylltu rhieni yn y broses honno yn hytrach na'u bod yn gweithio ar eu pen eu hunain; mae angen mwy o gydweithio fel tîm er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol...' (9).

'Y bartneriaeth hon rhwng y cartref a'r ysgol sy'n galluogi'r rhieni i gefnogi eu plant ym mhob agwedd ar eu datblygiad' (18).

Cafwyd sylwadau fel bod angen galluogi rhieni i weld (41), helpu rhieni i weld yr hyn y mae angen ei wneud (41), syniadau ynghylch rhoi'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i rieni (17), a darparu cyrsiau i rieni (17).

### **6.3.5. Cyfathrebu ar gyfer lles**

'Felly mae a wnelo ymgysylltiad rhieni â'u cynnwys yn yr hyn sy'n digwydd i'w plentyn mewn ysgol, ond hefyd sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Ac felly, ystyr ymgysylltiad rhieni i mi yw rhoi'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen ar rieni i gefnogi eu plant yn well, ond hefyd efallai i wella eu lles' (17).

Mae'r dyfyniad hwn yn cysylltu'r cysyniad o ymgysylltiad rhieni a gaiff ei arwain gan ysgol a'i sefydlu gan ysgol, â'r cysyniad pellach o ymgysylltiad ar gyfer lles.

Mae'r cysyniad hwn hefyd yn gysylltiedig â phwysigrwydd canfyddedig y gydberthynas rhwng ysgolion a rhieni; disgrifiodd un darparwr y cysyniad o ymgysylltiad rhieni fel cydberthynas effeithiol â rhieni a gofalwyr i gefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, academiaidd a chorfforol plant (2).

Trafododd darparwr arall bob lefel o gyfathrebu â rhieni ynghylch datblygiad academiaidd plant yn ogystal â'u lles a'u datblygiad cymdeithasol a phersonol a'i bod yn bwysig bod athrawon yn ystyried sut i feithrin y cydberthnasau hynny (1). Nododd un rhanddeiliad hefyd y rhoddwyd llawer o wybodaeth i ysgolion am gefnogi'r cydberthnasau hynny yn ystod y cyfyngiadau symud (17).

### **6.3.6. Ymgysylltiad rhieni â dysgu**

Cafwyd rhai allanolynnau, o ran bod rhai ymatebwyr wedi sôn am y posibilrwydd bod rhieni yn cael lleisio eu barn ynghylch y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg (12) a'r angen i ymgynghori â rhieni ar y cwricwlwm a gyflwynir ar gyfer eu plant (12), fel bod rhieni'n cael rhywfaint o fewnbwn i'r hyn y mae eu plentyn yn ei wneud yn yr ysgol (2). Fodd bynnag, fel y nodir yn 7.3, nid yw hwn yn safbwynt cyffredin.



Cafwyd tystiolaeth o arferion da a adroddwyd gan athrawon dan hyfforddiant, a wnaeth eu hysbrydoli i feddwl ynghylch sut i gefnogi rhieni i ymgysylltu â dysgu yn y dyfodol.

‘...Mae rhywbeth da iawn yn cael ei wneud yn yr ysgol arweiniol i annog ymgysylltiad rhieni drwy anfon e-bost o bopeth rydym wedi'i wneud y tymor hwnnw a phethau y gall rhieni barhau i'w gwneud gartref gyda dysgu gartref... drwy roi gweithgareddau bach hwyliog iddynt eu gwneud gartref sy'n dod â'r teulu ynghyd fel bod y dysgu'n troi yn dasg grŵp yn hytrach na rhywbeth y mae'n rhaid i'r plentyn ei wneud ar ei ben ei hun’ (11).

Ategwyd hyn gan athro dan hyfforddiant arall, a drafododd helpu disgyblion drwy siarad â rhieni (15), a gan randdeiliad a soniodd am gael rhieni i helpu plant gartref (5). Awgrymodd un rhanddeiliad ei fod yn rhoi'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen ar rieni i gefnogi eu plant yn well (17). Siaradodd athro dan hyfforddiant arall am bwysigrwydd annog plentyn i fod yn frwdfrydig am ei ddysgu ei hun (11), a fyddai'n awgrymu cefnogi hunanefeithlonrwydd a gogwydd meistrolaeth myfyrwyr (Pomerantz, Ng et al. 2006, Chouinard, Karsenti et al. 2007, Goodall 2020). Soniodd un rhiant hefyd am bwysigrwydd ansawdd dulliau rhyngweithio teuluoedd (9) mewn perthynas â dysgu.

Daw'r holl syniadau hyn at ei gilydd yn ôl un rhanddeiliad.

‘Gall fod yn ymwneud â meithrin cydberthnasau, am allu cynnal sgysrsiau ac am sicrhau bod rhieni o'r farn y gallant ddod atoch, ac y gallant siarad am unrhyw broblemau, a dathlu llwyddiannau. Felly, mae'n ymwneud â meithrin cydberthnasau. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n allweddol yw datblygu a chyrraedd pwynt lle rydych yn meithrin cydberthynas i'r fath raddau fel ei bod yn troi'n bartneriaeth rhwng ysgol a rhieni’ (17).

Nododd ymatebydd arall bwysigrwydd partneriaethau,

‘Caiff ei gwmpasu yn y ddau gwrs ac mewn astudiaethau craidd ac astudiaethau proffesiynol ac addysgegol, ynghyd â darlithoedd gwadd gan bartneriaid yr ysgol sy'n dod i siarad am bwysigrwydd ymgysylltu â rhieni yn ogystal â'u cael fel rhan o bartneriaeth o fewn ysgol, gan wneud penderfyniadau ar y cyd’ (12).

### **6.3.7. Ymgysylltiad rhieni â hyfforddiant cychwynol athrawon: darpariaeth**

‘Mae'n ymwneud â ph'un a yw'r myfyriwr yn deall y cysyniad o ymgysylltiad rhieni - mae'n anodd - a ydym yn deall yr un peth pan fyddwn yn trafod hynny - beth y byddech yn disgwyl i athro dan hyfforddiant ei ddeall o'r term hwnnw?’ (P)

Roedd darparwyr a myfyrwyr yn glir ei bod yn bwysig bod gan fyfyrwyr ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cydberthnasau cadarnhaol â theuluoedd (8), ac y dylid sicrhau hynny ar y dechrau, gyda'r holl bethau allweddol eraill ar ddechrau lleoliad, fel y gellir dechrau meddwl amdano (10). Roedd un darparwr yn benodol yn defnyddio ystafell a oedd yn galluogi pobl i

chwarae rôl ryngweithiol â rhithffurfiau a grëwyd ar gyfrifiadur. Roedd hyn yn galluogi myfyrwyr i ryngweithio â rhieni (rhithffurf) ac felly i fagu profiad cyn symud ymlaen i'w lleoliadau. Soniwyd am werth y math hwn o brofiad gan eraill 'Dylai athrawon dan hyfforddiant gael rhywfaint o brofiad ohono, fel y gallant weld ac arsylwi'r modd y mae'r staff yn siarad â rhieni, sut i osgoi sefyllfaoedd penodol a sut i ddelio â rhywun sy'n fwy heriol...Rwy'n credu bod hyn yn bwysig o ran bod yn deg iddynt pan fyddant yn dechrau ar eu gyrfaedd' (14). Soniodd y darparwyr hefyd am gyfeirio myfyrwyr at destunau ar gyfathrebu â rhieni a chynnwys rhieni mewn dysgu (4)

Cyfeiriodd y darparwyr hefyd at y safonau (1,2,4,12) sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddangos tystiolaeth o gynnwys rhieni a gofalwyr mewn dysgu (12). Gwnaeth un ymatebydd y sylw diddorol hwn, 'Roedd rôl rhieni'n arfer cael ei deall yn yr hen safonau; ond mae ychydig yn fwy eang yn y safonau newydd – am eu bod yn gymharol llac, maent yn ymwneud â chydweithio a deall y rolau gwahanol' (5). Nododd ymatebydd arall ei bod yn bwysig i fyfyrwyr fyfyrion ofalus ar y safonau hyn, a pheidio â'u trin fel ymarfer ticio blychau (12), er y nododd un myfyriwr ei fod yn teimlo mai dyna yn union yr aethpwyd i'r afael ag ef yn ei leoliad (10).

Roedd cyfranogiad rhieni mewn dysgu (yn hytrach na chyfathrebu neu feithrin cydberthnasau) yn ymddangos mewn rhywfaint o ddarpariaeth; i un darparwr, roedd y cysyniad yn cael ei gwmpasu mewn modiwlau craidd ac mewn trafodaethau parhaus â myfyrwyr, partneriaid ysgol a mentoriaid (14). Gwnaeth yr ymatebydd hwn hefyd y pwynt bod angen i ymgysylltiad rhieni fynd y tu hwnt i gyfathrebu syml â rhieni, fel y gellir cynnwys rhieni mewn penderfyniadau a wneir yn yr ysgol (atebwyd hyn hefyd gan 12). Nid oedd darparwyr eraill mor glir ynghylch y modd roedd ymgysylltiad rhieni yn cael ei gynnwys yn eu darpariaeth, 'I fod yn onest, rwyf o'r farn y bydd y rhan fwyaf o elfennau ymgysylltiad rhieni yn ymhlyg' (14).

'Ni soniwyd amdano yn uniogyrchol o gwbl... dydw i ddim yn meddwl bod ysgolion yn gwerthfawrogi ymgysylltiad rhieni â chefnogi dysgu yn briodol ar unrhyw adeg ar y daith – dim ond pan fydd rhywbeth ar goll, a dyna pryd y bydd yn werthfawr i'r ysgol' (10).

Er bod cytundeb cyffredinol ei bod yn bwysig iawn bod ymgysylltiad rhieni yn cael ei gwmpasu fel rhan o AGA (1, 2, 7, 8, 14), nid oedd consensws ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei wneud. Er bod rhai darparwyr yn glir eu bod wedi cwmpasu ymgysylltiad rhieni yn eu gwaith, ai fod yn cael sylw helaeth a'i fod yn hanfodol (1).

'Rwyf wedi bod yn meddwl lle roeddem yn gwneud hynny yn y rhaglen mewn gwirionedd... pryd roedden ni wedi eistedd i feddwl am y peth. Does gennym ni ddim elfennau penodol o'r rhaglen sy'n benodol ar gyfer hyn' (1).

Roedd eraill yn cytuno nad oedd ymgysylltiad rhieni yn ffocws uniongyrchol i ddarpariaeth AGA (4). Nododd yr ymatebwyr nad oeddent yn teimlo eu bod yn gwneud digon (14) a bod angen iddynt wneud mwy (4) i gefnogi myfyrwyr yn y maes hwn; nododd un ymatebydd,

'Fyddech chi ddim yn cael eich rhoi ar lawr y siop heb gael hyfforddiant ar sut i ddelio â chwsmeriaid, a rhieni yw chwsmeriaid yr ysgol i raddau' (7). Dywedodd ymatebydd arall bod diffyg hyfforddiant clir yn y maes hwn yn gyfle a gollwyd, a ddylai fod yno o'r dechrau (4), a nododd un arall nad oedd y cysyniad yn cael ei drin mewn unrhyw ffordd systematig (3). Aeth un ymatebydd ati i grynhoi cyfosodiad pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni â'r diffyg ffocws 'Mae'n bwysig iawn – ond yn strategol, dydw i ddim yn siŵr ble mae'n ffitio' (2). Nododd ymatebydd arall, er bod ymgysylltiad rhieni yn cael ei drafod â mentoriaid, bod hynny ond yn digwydd yn yr ystyr y dylai athrawon dan hyfforddiant gael y cyfle i ymgysylltu â rhieni. Nododd nad oeddent wedi trafod ei ansawdd na'i amllder nac unrhyw fethodoleg sy'n sail iddo (3).

Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd ganddynt fodiwlau penodol na diwrnodau ysgol arweiniol a oedd yn delio â'r mater hwn (8, 14), ac er gwaethaf y ffaith y deallir pwysigrwydd y mater, nad oedd yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant mewn unrhyw ffordd gydlynol. Fodd bynnag, nododd uwch-arweinydd mewn ysgol bartneriaeth ei fod wedi gweithio gyda myfyrwyr a mentoriaid ar y pwnc, ac yr ystyriwyd ei fod yn bwysig iawn.

Nododd yr ymatebwyr hefyd, yn enwedig mewn rhaglenni TAR annibynnol, nad oedd digon o amser i gwmpasu popeth y byddai pobl am eu cwmpasu, a bod hynny'n heriol gan fod cymaint i'w wneud (12, hefyd 14, 17, 5). Pan ofynnwyd a oedd myfyrwyr ar leoliad yn eu hysgol yn gwybod am bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni â dysgu, atebodd pennaeth ysgol bartneriaeth arweiniol, 'Na, dydyn nhw ddim... gan nad yw'n rhan o'r rhaglen addysg gychwynnol i athrawon' (18).

Mae'n bwysig nodi lleisiau athrawon dan hyfforddiant, am eu bod yn llai cadarnhaol ynghylch y sylw a roddir i ymgysylltiad rhieni, a gwnaethant nodi mai dim ond mewn un sesiwn y cafodd ei gwmpasu (10) a bod hynny hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Aeth y myfyriwr hwn ymlaen i awgrymu y dylai'r sesiwn hon fod wedi bod ar y dechrau gyda'r holl bethau allweddol eraill ar ddechrau lleoliad fel y gallant feddwl amdano, er mwyn cael mwy o ymwybyddiaeth o'r effaith y gall ei chael a pham ei fod yn bwysig, yn hytrach nag aros tan y diwedd (10). Nododd myfyriwr arall nad oedd wedi gweld y pwnc ymgysylltu rhieni yn codi yn ei hyfforddiant mor belled (11).

### **6.3.8. Ymgysylltiad rhieni â hyfforddiant cychwynnol athrawon: lleoliadau**

Mae'n werth archwilio'r cysyniad o ymgysylltiad rhieni wrth iddo godi mewn lleoliadau, yn ogystal, gan fod darparwyr yn awgrymu mai ysgolion yw'r llefydd gorau i fyfyrwyr ddysgu am y cysyniad hwn (12). Nododd darparwyr eu bod wedi trafod ymgysylltiad rhieni â myfyrwyr cyn iddynt fynd ar leoliadau (4), a phwysigrwydd gweithio'n uniongyrchol â staff, fel bod myfyrwyr yn profi ymgysylltiad â rhieni hefyd yn hytrach na dim ond cael eu haddysgu amdano. Nododd darparwyr drafodaethau â mentoriaid i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael

profiadau o gydweithio â rhieni yn ogystal â sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cyflawni'r meini prawf ynghylch hyn ac ychwanegu cofnodion derbyniol i'w PDP (4, 17, 3). Fodd bynnag, nododd darparwr arall nad oedd ymgysylltiad rhieni yn cael ei drafod â mentoriaid oni bai ei bod yn glir nad oedd myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ryngweithio â rhieni (1).

Cydnabu darparwyr, wrth adael cymaint o'r dysgu am ymgysylltiad rhieni i'r profiad yn yr ysgol, y byddai myfyrwyr gwahanol yn cael cyfleoedd gwahanol i ddysgu, ac er y byddai rhai ysgolion yn rhagori yn y maes hwn, y bydd ysgolion eraill yn cadw rhieni hyd braich a bydd y myfyrwyr yn dysgu'r dull hwnnw (5). Nododd un ymatebydd, a oedd yn bennaeth mewn ysgol bartneriaeth arweiniol, ei fod yn mwynhau gallu cefnogi athrawon dan hyfforddiant i ddysgu am werth ymgysylltiad rhieni, a bod y myfyrwyr bob amser yn cymryd diddordeb mawr yn yr agwedd hon ar eu lleoliadau yn yr ysgol (18).

Adlewyrchir y gwahaniaeth hwn yn natganiadau'r myfyrwyr. Mewn un grŵp ffocws, nododd un myfyriwr fod rhai ysgolion yn canolbwyntio ar yr agweddau cadarnhaol a'u bod yn ffonio gartref bob wythnos, a disgrifiodd eraill ysgolion lle nad oedd y myfyrwyr yn cael cysylltu â rhieni a bod y myfyrwyr wedi arsylwi bod gan y staff safbwyntiau o ddiffyg mewn perthynas â'r rhieni (10). Soniwyd am yr un math o safbwyntiau o ddiffyg mewn grŵp ffocws arall i fyfyrwyr, lle roedd y staff o'r farn nad oedd dysgu eu plant yn bwysig i'r rhieni (15). Nododd un myfyriwr ei fod yn difaru nad oedd yn gwybod beth yw ymgysylltiad rhieni na sut beth yw ymgysylltiad rhieni (10).

Fodd bynnag, dylid nodi, wrth drafod ymgysylltiad rhieni yn ystod lleoliadau, ag un eithriad, bod pob ymatebydd wedi cyfeirio at broblemau cyfathrebu (nosweithiau rhieni, adroddiadau, defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hysbysu rhieni), yn hytrach na chefnogi dysgu yn y cartref, 'Fel mentoriaid, rydyn ni'n trafod cyswllt â rhieni yn rheolaidd' (14) er enghraifft.

Nododd yr ymatebydd a oedd yn weddill, er bod y myfyrwyr ar leoliad yn ei ysgol,

'Rwy'n ceisio cynnal sesiwn sy'n canolbwyntio eto ar ochr ddamcaniaethol pethau neu'n trafod yr ymchwil a'r hyn sy'n ategu ein dull gweithredu ac yna bydd fy swyddog ymgysylltu yn cynnal sesiwn ynghylch 'Sut beth yw hyn yn eich ysgol a sut mae'n amlygu ei hun?' Ac mae'r myfyrwyr yn dweud wrthyf yn aml ei fod yn ddefnyddiol ac nad yw'n rhywbeth yr oeddent wedi'i ystyried. Mae'n ddull gweithredu gwahanol ac nid oeddent wedi ystyried ei fod yn rhan o'u rôl. Mae'n rhywbeth y mae ganddynt ddiddordeb mawr ynddo bob amser. Rwy'n mwynhau cael y cyswllt hwnnw ynghyd â'r ffaith y gallaf ddarparu hynny iddynt, ond nid yw'n rhywbeth y byddent yn cael ei wybod o reidrydd yn eu rhaglen ehangach' (18).

## 7. Effaith Covid-19 ar ymgysylltiad rhieni

'Rwy'n credu bod cydberthnasau hyd yn oed yn bwysicach nawr, a dylai fod yn rhywbeth cyfunol yn hytrach na'i gyfyngu i nosweithiau rhieni yn unig' (14).

'Mae wedi newid y ffordd rwy'n meddwl yn llwyr, ac mae wedi agor y drws yn sylweddol i rieni' (7).

'Rwy'n credu bod y cyfyngiadau symud wedi codi cwestiynau ynghylch a ydym yn gwneud digon ynghylch yr agenda hwnnw...' (13).

'Byddech yn arfer ystyried rhieni yn gydweithredwyr yn addysg eu plant, ond maen nhw bellach yn cael eu hystyried yn gyd-athrawon yn addysg eu plant, ond dydw i ddim yn siŵr a oes unrhyw rai ohonom wedi cael amser i lunio ein syniadau ein hunain ynghylch yr hyn sy'n digwydd pan fydd rhieni yn dod yn gyd-athrawon' (3).

Mewn ymateb i'r cwestiynau ar effaith y newidiadau yn sgil COVID-19 ar addysgu ac ar ymgysylltiad rhieni, awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bod y cyswllt rhwng rhieni a staff addysgu wedi cynyddu dros gyfnod y cyfyngiadau symud (14, 7, 5, 9). Gallai'r cyswllt hwn fod ar ffurf galwadau wythnosol (14) rhwng staff a theuluoedd, diweddarau rhieni ynghylch yr hyn sy'n cael ei addysgu, archwiliadau lles (9) (gweler hefyd adran 0). Mae'r rhieni hefyd wedi cynyddu eu cyswllt ag ysgolion (14, 7, 5), gan ddefnyddio cyfeiriadau e-bost y myfyrwyr i gysylltu â'r staff weithiau.

Nododd un o'r ymatebwyr fod y cyfathrebu hwn rhwng staff a rhieni yn fwy bwriadol erbyn hyn (15), o ran bod y staff yn gwneud dewisiadau bwriadol i ymgysylltu â rhieni, yn hytrach na chael sgysiau, er enghraifft ar adeg mynd adref neu wrth gât yr ysgol.

Nododd rhanddeiliad fod y sgiliau newydd y bu'n rhaid i'r staff eu dysgu mewn perthynas â darpariaeth dysgu ar-lein, hefyd wedi eu galluogi i gynyddu cyswllt ac achosion o ryngweithio â rhieni, wrth i'r staff ddod yn fwy hyfedr â thechnolegau (17).

Un newid diddorol oedd presenoldeb (rhithwir) rhieni mewn gwersi (14, 7), a all fod wedi effeithio ar yr addysgu yn ôl un mentor, 'Felly, rwy'n dychmygu y byddai llawer o athrawon wedi cynllunio i gyflwyno eu gwrs ychydig yn wahanol, o wybod y gallai'r oedolion wrando a dylem fod yn gwneud hynny beth bynnag' (14). Sylwodd llawer o'r ymatebwyr ar ymgysylltiad rhieni yn y broses ddysgu yn ystod y cyfyngiadau symud, oherwydd presenoldeb rhieni mewn gwersi neu eu cyfraniad atynt, 'Rydym yn gorfod plesio'r teulu yn ogystal â'r plant, am eu bod yn cyfrannu llawer mwy at yr hyn y mae'r plant yn ei wneud...' (7), sydd, yn ôl yr un ymatebydd, yn golygu bod rhieni'n gofyn am fwy o help gan athrawon, ynghylch sut i gefnogi dysgu gartref.

Nododd un ymatebydd, oherwydd bod cydberthnasau da eisoes wedi'u sefydlu â rhieni, bod y cyfathrebu a'r cysylltiadau â rhieni a myfyrwyr yn uniongyrchol, am fod y rhieni wedi arfer cael rhywfaint o gefnogaeth, a'u bod yn deall y math o bethau a wnaed â'r plant, a'r ffocws drwy weithio â rhieni ar y pethau y gallent ei wneud i helpu gartref, a bod ysgolion a oedd wedi creu cysylltiadau â rhieni yn gallu ymateb i'r cyfyngiadau symud (18).

### **7.1. Dealltwriaeth ar y cyd**

Nododd ymatebwyr, oherwydd y cyswllt cynyddol rhwng staff ysgol a rhieni, bod cynnydd mewn dealltwriaeth ar y cyd rhwng y partïon dan sylw.

Nododd nifer o staff fod rhieni bellach yn deall mwy o lawer am addysgu a rôl yr athro, ac y byddai hyn yn arwain at fwy o lawer o gyfraniad gartref, mwy o lawer o ddealltwriaeth gan rieni o rôl yr athro a ffiniau'r hyn y gellir ei wneud (5). Nododd eraill y byddai rhieni'n cael mwy o gipolwg ar addysg ac addysgu (13), a mwy o empathi ar gyfer athrawon (12).

Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr hefyd o'r farn y gallai profiad y cyfyngiadau symud hefyd wella dealltwriaeth staff o sefyllfaoedd rhieni, a'r materion cydraddoldeb a allai effeithio ar fywydau rhieni a phlant (9,4,18). Roedd un ymatebydd yn gobeithio y byddai'r ddealltwriaeth well o rai o'r heriau a wynebwr gan rieni (e.e. gweithio o gartref, cefnogi dysgu eu plant, peidio â chael digon o ddyfeisiau yn y cartref i wneud hynny), arwain at ddealltwriaeth a rennir o anawsterau dysgu gartref (18), ag y gallai newid rhai o'r agweddau o ddiffyg at rieni. Nododd un ymatebydd fod un aelod o staff wedi dweud ei fod bellach yn teimlo bod ganddo gysylltiad â'r rhieni, ei fod yn teimlo'n agosach atynt a bod ganddo ddealltwriaeth well ohonynt, ar ôl rhannu'r profiad o weithio o gartref ynghyd â chefnogi dysgu ei blant ei hun (18). Nododd yr ymatebwyr fod profiad y cyfyngiadau symud wedi cael pawb i feddwl rhywfaint yn wahanol ac y gallai hyn arwain at newidiadau yn y modd y mae ysgolion yn ymgysylltu â rhieni yn y dyfodol (13).

### **7.2. Dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni**

'Felly, rwy'n credu bod y pandemig wedi gorfodi pobl i sylweddoli pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni neu, i'w roi mewn mwy o gyd-destun, pwysigrwydd y cyswllt hwnnw â'r cartref am mai ... rhieni yw'r gefnogaeth fwyaf sydd gan ddisgyblion ar y funud. Ond rwyf hefyd yn credu bod angen meddwl mewn ffordd fwy creadigol ynghylch sut i wneud y cysylltiad hwnnw, gan fy mod o'r farn bod ysgolion yn euog o fynd gyda'r llif ac edrych y tu mewn i'r adeilad ond heb ddelio â phethau pan fyddant yn digwydd y tu allan' (14).

'Mae'r rhieni ac amgylchedd y cartref yn bwysig ... ac mae COVID-19 wedi gwneud i uwch-arweinwyr sylweddoli hyd yn oed yn fwy pa mor bwysig yw safbwynt rhieni ar addysg' (15).

Nododd yr ymatebwyr drwy gydol y cyfnod cyfweiliadau fod profiad y cyfyngiadau symud wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni â dysgu, ac mae'n ddi-ddorol y nodwyd hyn gan fyfyrwyr, drwy arsylwi'r hyn oedd yn digwydd yn ysgolion eu lleoliadau (10, 15). Roedd un darparwr yn gobeithio y byddai profiad y cyfyngiadau symud yn gwneud pobl yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni ac y gall fod yn gyfle i wella'r gwaith a wneir ynghylch hyn (4). Nododd rhanddeiliaid hefyd fod cyrff cyffredinol yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni (17).

### 7.3. Ymylon arian

'Bydd agweddau cadarnhaol i bawb yn deillio o hyn,... Nid yw popeth yn negyddol, a bydd agweddau cadarnhaol i ymgysylltiad rhieni yn y dyfodol, yn ogystal â rhai sgiliau sydd wedi'u meithrin gan ein hysgolion a'n myfyrwyr nawr a fydd yn helpu i feithrin cydberthnasau gwell â rhieni...' (17).

Siaradodd un rhanddeiliad (1) am 'ymylon arian', sef syniadau neu arferion o gyfnod y cyfyngiadau symud a allai fod yn werthfawr yn y dyfodol. Mae ysgolion a rhanddeiliaid wedi dod yn hyfedr wrth ddefnyddio adnoddau ar-lein, ac mae llawer o ysgolion wedi cynyddu achosion o ryngweithio â theuluoedd dros gyfnod y cyfyngiadau symud (17). Bydd rhai ysgolion yn parhau i ddefnyddio llwyfannau fel Seesaw a Google Classroom yn benodol ar gyfer gwaith cartref ar ôl i ysgolion ddychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb (17), ynghyd â defnyddio llwyfannau sy'n galluogi staff a rhieni i ryngweithio (13).

Nododd ymatebydd arall y gall staff barhau i roi cymorth anghydamserol i rieni, yn hytrach na chael digwyddiadau ffisegol, y gellid cysylltu'r cymorth hwn â sesiynau byw, ar-lein a allai sicrhau bod mwy o rieni yn cael budd (14). Nododd ymatebydd arall fod ysgolion yn newid rhai o'u digwyddiadau i fod ar-lein yn ogystal â llunio fideos byr i gefnogi dysgu gartref (13).

Ystyriwyd bod ymgysylltiad rhieni wedi cynyddu hefyd (12, 11); fel uchod, roedd llawer o rieni yn mynychu sesiynau byw ac wrth gwrs yn cefnogi dysgu gartref. Nododd yr ymatebwyr hefyd fod mwy o gydweithio rhwng rhieni a staff ysgolion, felly bod rhieni yn cyfrannu at yr hyn roedd eu plant yn ei wneud yn yr ysgol a hefyd eu bod yn deall pam maent yn ei wneud a oedd yn helpu'r dysgwr i wneud cynnydd (12). Mae'n ddi-ddorol bod dealltwriaeth o werth ymgysylltiad rhieni â dysgu yn ymhlyg yn y datganiad hwn. Nododd un ymatebydd y bydd angen gweithio ar y newidiadau i'r buddiannau er mwyn iddynt gael eu hymgorffori, a'i fod wedi bod yn ystyried sut y gellir adeiladu ar y newidiadau hyn fel ysgol, 'gan gynnal y cyswllt dilys hwnnw, a sut i adeiladu ar hynny er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r mathau cywir o gyfleoedd a chymorth sydd eu hangen ar rieni' (18).

## **8. Astudiaeth Achos: Ymgysylltiad Rhieni yn Ysgol Gynradd Awel y Môr**

Mae'r astudiaeth achos hon yn seiliedig ar waith Ysgol Gynradd Awel y Môr ar ymgysylltiad rhieni â dysgu plant. Mae'r astudiaeth achos yn seiliedig ar wybodaeth gefndirol am yr ysgol a'r ardal, data o'r ysgol a chyfweiliadau â Swyddog Ymgysylltu â Theuloedd yr Ysgol (F) a'r Pennaeth (H).

Mae'r astudiaeth achos hon yn esboniadol, gan ei bod yn ceisio dangos yr hyn sydd wedi digwydd (disgrifiadol) a hefyd pam y bu'r newidiadau a gyflwynwyd yn yr ysgol hon yn llwyddiannus (Hamilton and Corbett-Whittier 2012). Fel astudiaeth achos annibynnol, mae'r elfen hon o'r adroddiad yn esboniadol, yn hytrach nag yn ddiffiniol – mae'n ychwanegu at y data a gyflwynwyd fel dull o driongli (Noble and Heale 2019). Nod yr astudiaeth hon yw dangos y modd y mae'r themâu a'r cysyniadau, yr ymhelaethir arnynt yn yr adolygiad o lenyddiaeth ac a ddangosir yn yr arolwg a'r data o'r cyfweiliadau, wedi cael eu gweithio allan yn achos penodol un ysgol. Nid yr ysgol yw'r achos yma, ond y daith ymgysylltiad rhieni yr aeth yr ysgol honno arni.

### **8.1. Gwybodaeth gefndirol**

#### **8.1.1. Gwybodaeth gefndirol ar Ysgol Gynradd Awel y Môr**

Mae Ysgol Gynradd Awel y Môr yn ysgol gynradd o faint canolig (333 o fyfyrwyr ar y gofrestr) yn ardal Dwyrain Sandfields ym Mhort Talbot, yn Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar safle a adeiladwyd yn gymharol ddiweddar (2013).

Mae'r ysgol wedi'i sgorio gan Estyn fel 'Da'.

Mae'r ysgol yn cynnwys darpariaeth feithrin, babanod ac iau.

Mae gan yr ysgol nifer uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (gweler isod) a nifer uwch na'r cyfartaledd o blant sydd â lefelau amrywiol o anghenion cymorth; yn 2018/19, roedd gan 23.1% o'r plant statws Gweithredu gan yr Ysgol (15% yw cyfartaledd yr ALI), ac roedd gan 17.5% o'r plant statws Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (10% yw cyfartaledd yr ALI).

#### **8.1.2. Gwybodaeth gefndirol ar ardal Dwyrain Sandfields**


Mae pob ysgol yn unigryw o ran ei lleoliad a'i chymuned; er mwyn deall y daith a gymerwyd gan Awel y Môr, rhaid i ni hefyd ddeall y cyd-destun hwnnw y mae'r ysgol yn bodoli ynddo.




Mae teuluoedd yn wynebu lefelau uchel o amddifadedd yn yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol. Dangosir hyn gan y ffaith bod 58.1% o'r disgyblion yn yr ysgol hon yn cael prydau ysgol am ddim, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n 18.4%(Van den Brande, Hillary et al. 2019).

Gan ddefnyddio'r mynegai amddifadedd lluosog, mae Dwyrain Sandfields yn safle **98 allan o 1,909 yng Nghymru**, lle mai 1 yw'r mwyaf difreintiedig a 1,909 yw'r lleiaf difreintiedig (UK Local Area 2020)(pwyslais yn y gwreiddiol). Mae'r ffigur isod yn dangos sefyllfa'r ardal mewn perthynas ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Fel sy'n glir o Ffigur 7, mae trigolion yr ardal yn wynebu nifer o heriau, mewn perthynas ag incwm (mae 96% o lefydd yng Nghymru mewn sefyllfa well), cyflogaeth (mae gan 97% o lefydd yng Nghymru ystadegau cyflogaeth gwell), ac addysg (mae gan 86% o lefydd yng Nghymru ganlyniadau addysgol gwell).


**Cyffredinol: 5%** Gwell na 5% o'r ardaloedd yng Nghymru



**Amddifadedd Incwm: 4%** Gwell na 4% o'r ardaloedd yng Nghymru




**Cyflogaeth: 3%** Gwell na 3% o'r ardaloedd yng Nghymru



**Iechyd: 2%** Gwell na 2% o'r ardaloedd yng Nghymru



**Addysg: 14%** Gwell na 14% o'r ardaloedd yng Nghymru



Ffigur 7 Mynegai amddifadedd lluosog Dwyrain Sandfields

Mae gan yr ardal gyffredinol lefelau isel o gymwysterau addysgol (UK Census Data.com).

	Dim cymwysterau	Lefel 1	Lefel 2	Prentisiaeth	Lefel 3	Lefel 4 neu uwch	Cymwysterau eraill
Y Deyrnas Unedig	23	14	15	3	12	27	5
Cymru	26	13	16	4	12	24	4
<b>Dwyrain Sandfields</b>	<b>37.23</b>	<b>15.82</b>	<b>14.98</b>	<b>5.03</b>	<b>10.05</b>	<b>13.20</b>	<b>3.69</b>

Tabl 3 Lefelau uchaf o gymwysterau Dwyrain Sandfields

Fel y gellir gweld o Tabl 3, mae lefelau'r cyflawniad addysgol ymysg oedolion (dros 16 oed) yn gymharol isel yn yr ardal hon, ac mae canran uwch o oedolion heb unrhyw gymwysterau o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan ac ar gyfer Cymru, ac mae canran yr oedolion sydd â chymwysterau ar lefel 4 neu uwch yn hanner y canran ar gyfer y DU. Mae hyn ychydig o dan hanner y ganran gyfartalog ar gyfer Cymru.

Mae lefelau cyflawniad addysgol rhieni yn sylweddol, oherwydd ei bod yn ymddangos bod cydberthynas rhwng cyflawniad addysgol rhieni a deilliannau pobl ifanc yn yr ysgol (Woessmann 2004, Nicholas-Omoregbe 2010). Fodd bynnag, nid oes angen i'r effaith hon fod yn benderfynedig, fodd bynnag, oherwydd gall ymdrech gan rieni (mewn perthynas â dysgu plant) hefyd gael effaith sylweddol ar gyflawniad (Houtenville and Conway 2008), ynghyd â chamau priodol gan rieni ar lefelau gwahanol o ddysgu (Jeynes 2014).

## **8.2. Taith Ymgysylltiad Rhieni yn Awel y Môr**

Mae'r astudiaeth achos hon yn cwmpasu deiliadaeth y pennaeth presennol (H) yn Awel y Môr, ac ar y cyfan, mae'n seiliedig ar gyfweiliad â'r pennaeth a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021, wedi'i ategu gan ddata arall fel sy'n briodol.

### **8.2.1. Y sefyllfa flaenorol**

Cymerodd y pennaeth presennol yr awenau dair blynedd yn ôl a disgrifiodd y gydberthynas flaenorol rhwng rheini a staff fel a ganlyn: 'Roedd cydberthynas eithaf gelyniaethus rhwng staff yr ysgol a'r rhieni, nid oedd yn anghyffredin i weld pobl yn sefyll mewn ciwiau anferth yn y dderbynfa i weld y pennaeth, ac roedd y corff llywodraethu yn cael nifer mawr o gwynion...' (H). Arferwyd cynnal nosweithiau rhieni mewn ystafelloedd dosbarth y tu ôl i ddrysau caeedig, gyda rhieni yn ciwio y tu allan mewn distawrwydd, ac yn aml byddai'n arwain at ddadleuon eithaf ffyrnig gyda'r pennaeth yn rhedeg o gwmpas yn amddiffyn pobl (H). Nododd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd fod 'popeth yn frwydr' (F), gyda mân faterion fel colli siwmpwr ysgol yn gwaethygu ac yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn 'beirniadu'r ysgol' (F) 'ond mae pethau yn wahanol nawr, am fod ein cydberthnasau yn wahanol – mae'n lle gwahanol' (F).

### **8.2.2. Sicrhau cefnogaeth staff**

Er mwyn newid o sefyllfa 'ni a nhw' i'r awyrgylch presennol o gydweithio, roedd angen i'r uwch-dîm arwain a phob aelod o staff gymryd camau bwriadol, yn cynnwys cael y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd i weithio gydag aelodau eraill o staff.

Nododd y pennaeth bod gwahaniaethau rhwng aelodau o staff a theuluoedd, gyda rhai athrawon yn methu uniaethu â'r rhieni,

'Mae ein staff addysgu yn eithriadol o ddsbarth canol ac nid yw'r teuluoedd rydym yn eu gwasanaethu yn ddsbarth canol... Yn enwedig y staff a oedd yma o'r blaen ac na allent weld budd yn yr hyn roeddem yn ei wneud i ddechrau. Roeddent yn meddwl ein bod yn cymryd dull meddal, ein bod yn ildio i'r rhieni, yn ceisio eu tawelu a'u cadw'n hapus yn hytrach na dangos yr awdurdod yr oedd angen i ni ei ddangos' (H).

Roedd rhannu gwybodaeth am y teuluoedd hefyd yn elfen amlwg o waith y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd hefyd, er mwyn helpu'r staff i 'ddeall sefyllfa'r teulu' (F), fel y gallent ddeall y plant yn llawer gwell (c.f. the importance of the immediate environment around the child, Bronfenbrenner 1979).

Nid oedd y broses o sicrhau cefnogaeth staff yn un gyflym na hawdd, 'Roedd rhai yn barod iawn i gefnogi, rydych yn arwain a byddan nhw'n dilyn, ond mae angen llawer mwy o waith gydag eraill' (F). Roedd y gwaith hwn yn seiliedig ar rannu ymchwil am werth ac effaith ymgysylltiad rhieni ynghyd â chael uwch-aelodau o staff i fodlu cydberthnasau, 'bod allan yno yn yr iard', anfon y negeseuon testun sy'n tynnu sylw at waith da y plant. Nid oedd y broses yn cael ei galluogi gan hyfforddiant allanol, ond yn hytrach gan 'yr hyn rydym wedi'i wneud yn fewnol' (F), a gan natur agored uwch-arweinwyr tuag at gymuned yr ysgol gyfan. Fodd bynnag, nododd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd bod y newidiadau'n amlwg ymysg y staff, a nododd un athro bod y newidiadau i gydberthnasau â rhieni a phlant wedi'i wneud yn 'athro hollol wahanol i'r hyn yr arferwn fod' (F).

### **8.2.3. Adeiladu credyd**

Mewn cyfarfodydd cynnar â'r uwch-dîm arwain yn Awel y Môr, cytunodd y pennaeth newydd â'r staff bod adfer cydberthnasau â'r rheini yn flaenoriaeth i'r ysgol, ac un o'u camau cyntaf oedd penodi swyddog ymgysylltu â theuluoedd. Penododd yr ysgol aelod presennol o staff, a oedd yn 'lleol' (H) ac yn deall y gymuned yn yr ysgol. Yn bwysig, nid oedd yr aelod hwn o staff wedi'i wreiddio mewn safbwyntiau o ddiffyg mewn perthynas â rhieni (gweler adran 9.1.3), a nodweddir gan y pennaeth fel 'mae'r plant yn camymddwyn am nad yw'r rhieni'n gwneud eu gwaith; mae angen i'r rhieni ddatrys hynny' (H). Roedd yr aelod hwn o staff yn barod i dderbyn ffyrdd newydd o weithio, yn seiliedig ar yr ymchwil yn y maes. Ac am ei fod yn lleol a bod y rhieni'n ei hadnabod yn dda, gallai 'ein cyflwyno' (H) ar yr un lefel â'r rhieni.

Gwelodd y tîm arwain newydd hefyd bwysigrwydd 'bod yn weladwy' (H) ar yr iard yn y bore a'r prynhawn, gan feithrin cydberthnasau â rhieni drwy sgwrsiau bach yma ac acw â'r rhieni, gan ofyn 'Sut hwyl ydych chi'n ei gael ar yr addurno? Sut oedd yr ymarfer pêl-droed?' (H) yn ogystal â thynnu sylw at waith da gan y plant. Disgrifiodd y pennaeth y dull hwn fel 'rhoi credyd yn y banc gyda'r rhieni' (H), gosod sylfaen er mwyn meithrin cydberthnasau yn y dyfodol. Mae'r broses hon yn parhau; mewn digwyddiad diweddar a drefnwyd gan yr ysgol, trefnwyd cludiant i bob teulu i barc lleol lle roedd gweithgareddau'n cael eu cynnal, ond nid oedd yr athrawon yn cymryd rhan yn y broses o ddarparu'r gweithgareddau hynny,

'Roeddwn i am fod yn rhydd i grwydro a pharhau i feithrin cydberthnasau y tu allan i'r ysgol, er mwyn bod ar yr un 'lefel' â'r teuluoedd'.

Un o ganlyniadau cyntaf y cydberthnasau newydd hyn oedd cais gan rieni i wella dulliau cyfathrebu gan yr ysgol, (gweler adran 6.2.4). Rhoddodd yr ysgol y gorau i anfon y 'cylchlythyr hir' (H) a'r 'negeseuon e-bost yn hefru' (H) a buddsoddodd mewn gwasanaeth negeseuon testun, i roi gwybodaeth hygyrch i rieni ar adegau priodol. Defnyddiwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 'rhoi credyd yn y banc' (H), oherwydd y gallai'r staff dynnu sylw at waith da gan y myfyrwyr, er enghraifft, ar ôl anfon 'naw peth da am eich plentyn' gartref ond yna, mae'r neges nesaf yn dweud 'ond mae angen i ni siarad am hyn nawr', roedd yr ail neges yn ymddangos yn llai ymosodol (H).

Rhoddodd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd lawer o bwyslais ar gyfathrebu â rhieni, yn aml drwy 'arolygon bach', 'holiaduron bach i rieni' (F).

Roedd y pennaeth hefyd wedi newid tôn y dulliau cyfathrebu gan yr ysgol yn fwriadol, er mwyn bod yn llai ffurfiol. Gwahoddir y rhieni i alw'r pennaeth wrth ei enw yn hytrach na defnyddio teitl, 'dydw i ddim am i rieni feddwl fy mod yn well na nhw' (H). Mae'r pennaeth yn cydnabod bod hwn yn safbwynt dadleuol ac nad yw penaethiaid eraill yn cytuno, ond roedd o'r farn ei fod yn gam pwysig a symbolaidd yn y gymuned hon.

Galwodd yr ysgol ar wasanaethau Achub y Plant a rhoi rhaglen ar waith ar gyfer teuluoedd a phlant, a chroesawyd hyn. Efallai yn bwysicaf oll, roedd yr holl wasanaethau hyn – penodi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd, y sgysiau bach, bod yn weladwy, newid y dulliau cyfathrebu, a'r rhaglen ymgysylltu – yn gwneud gwahaniaeth i rieni, a'r neges yn cael ei rhannu ar yr iard, gyda rhieni'n siarad â'i gilydd,

'Mae staff yr ysgol yn iawn mewn gwirionedd ac maen nhw wedi bod yn gymorth mawr i mi gyda hyn' (H),

ac yn sgil hyn roedd mwy o rieni yn teimlo'n gyfforddus i fynd at aelodau o staff.

#### **8.2.4. Gweithio gyda rhieni a theuluoedd**

Nododd y pennaeth, yn hytrach na threfnu pethau i'r rhieni yn yr ysgol, bod y staff yn gweithio gyda nhw i gyflwyno pethau yr oedd y rhieni am eu cael; i'r perwyl hwnnw, mae'r ysgol wedi cyflwyno cyrsiau ar iaith arwyddion, Makaton, a hyd yn oed wedi darparu hyfforddiant i rieni gymhwyso fel cynorthwywyr addysgu, yn cynnwys darparu neu drefnu lleoliadau fel rhan o'r hyfforddiant hwnnw.

Nododd y pennaeth fod gan y rhieni ddiddordeb arbennig mewn dysgu am blant ag ADHD; gofynnodd grŵp o rieni am hyfforddiant ar y pwnc hwn a gwnaethant ei gyflawni. Mae'r ysgol hefyd wedi cynnal cyrsiau ar goginio a siopa ar gyllideb.

Croesawyd y cyrsiau hyn, a nododd rhieni eu bod yn cynnwys amrywiaeth eang o gyrsiau (gweler 0), ac fel y gellir gweld yn y rhestr yn yr atodlen, aeth y cyrsiau y tu hwnt i'r rhai oedd â'r nod o gefnogi dysgu (er bod cyrsiau o'r fath ymysg y rhai a gynigiwyd).

Fel y nodwyd uchod, roedd nosweithiau rhieni yn fater arall yr oedd staff am ei ailystyried, er mwyn eu gwneud yn fwy o 'ddigwyddiad cymunedol'. Symudwyd y cyfarfodydd hyn i'r neuadd, lle roedd awyrgylch mwy cyfeillgar. Roedd y pennaeth yn amlwg wrth y drws, yn croesawu rhieni, ac roedd gan y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd fwrdd i'r rhieni allu trafod materion. Yn bwysicaf, gwelwyd bod y rhieni'n cymryd rhan weithredol yn y broses, gan wneud mwy na dim ond derbyn gwybodaeth mewn nosweithiau rhieni. Cafodd y rhieni gyfres o gwestiynau y gallent eu gofyn i'r staff addysgu, am y modd y gallent gefnogi dysgu yn y cartref, a chafodd y staff gwestiynau i'r rhieni, a oedd eto'n canolbwyntio ar gefnogi dysgu myfyrwyr. Nododd y pennaeth fod y nosweithiau rhieni yn llawer mwy perthnasol i'r rhieni nawr, 'mae'r holl ddrwgdeimlad a arferai fod yn yr ystafelloedd wedi mynd, ac mae'r rhieni'n gadael yn teimlo eu bod wedi cael sgwrs dda' (H).

Wrth drafod, nododd y pennaeth bod y newid hwn yn seiliedig ar ymchwil a gafwyd gan yr aelodau o staff (Goodall and Montgomery 2013). Nododd y pennaeth 'rydym am i rieni deimlo bod yr ysgol hon yn perthyn iddyn nhw' (H); roedd yr ysgol yn adeilad newydd ac yn fan croesawgar ond 'a oedd y rhieni wir yn teimlo ei bod yn perthyn iddyn nhw?' (H). I'r perwyl hwnnw, trefnwyd ystafell i rieni, oedd yn cynnwys dodrefn cyfforddus a lluniaeth, fel y gallent gael man iddynt eu hunain yn yr ysgol.

'Rydym wir am geisio gwneud yr ysgol yn ysgol gymunedol lle gall y rhieni ddod i ddefnyddio'r holl wasanaethau gwahanol hyn, felly dechreuom gynnal diwrnodau digwyddiadau, lle gallent siarad â thîm am y teulu, gallent siarad â gweithwyr budd-daliadau, gallent siarad â gweithwyr ieuchyd, gallent ddod yma a chael profion sgrinio canser y fron, er enghraifft, felly gwnaethant dod i arfer â dod i'r ysgol a bod llawer o bethau ar gael iddynt...'  
(H).

Defnyddiodd yr ysgol ei chyllid hefyd i ddarparu gwasanaethau therapydd lleferydd ac iaith, yn yr ysgol, ddau ddiwrnod yr wythnos. Galluogodd hyn y rhieni i gael y cymorth hwn heb orfod trefnu trafniadaeth i'r ddinas fawr agosaf, fel roedd yn gorfod digwydd o'r blaen.

Nid oes unrhyw blant wedi cael eu gwahardd o Ysgol Gynradd Awel y Môr yn ystod y tair blynedd diwethaf; mae'r pennaeth yn nodi nad yw hyn oherwydd newid yn nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn, ond yn hytrach oherwydd newid mewn meddylfryd, a'i fod wedi dweud wrth y rhieni ei fod am 'weithio gyda nhw i ddatrys y broblem' (H).

Nododd y pennaeth hefyd, er nad yw nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn wedi newid, na chafwyd unrhyw achosion dros y ddwy flynedd diwethaf lle gellid bod wedi ystyried gwahardd disgyblion, gan fod ymddygiad yn yr ysgol wedi gwella. Mae'r pennaeth yn credu mai'r newid hwn yn y dull o weithio gyda rhieni sy'n gyfrifol am hyn, gan eu bod yn cefnogi'r dull o fynd i'r afael ag ymddygiad. 'O'r blaen, gallai rhieni fod wedi troi'r sefyllfa wyneb i

waered', a beio'r ysgol am broblemau ymddygiad, ond nawr mae'r rhieni 'am weithio gyda ni' i helpu eu plant (H). Roedd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn ategu hyn, gan nodi gan fod y plant yn gwybod bod y rhieni a'r staff yn cydweithio, ac yn gallu gweld bod y rhieni'n ymddiried yn y staff, y gall y plant fod yn fwy agored gyda'r staff. Effaith hyn oedd y gallai'r plant drafod materion a phroblemau â'r athrawon, yn seiliedig ar ddealltwriaeth ar y cyd, lle o'r blaen, byddent wedi 'cadw popeth iddynt eu hunain' yna 'ffrwydro yn y sefyllfaoedd lleiaf' oherwydd diffyg opsiwn arall (F). Nododd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd fod y plant yn credu eu bod yn cael 'cefnogaeth gyfannol' gan eu rhieni a'u hathrawon (F).

Nododd y pennaeth hefyd fod y cydberthnasau gwell â theuluoedd, a gwybodaeth am deuluoedd, wedi arwain at lai o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol, oherwydd y gellir atal llawer o broblemau cyn iddynt waethygu. Mae'r rheini yn llawer mwy agored â'r staff ac yn gallu trafod materion yn agored. Cafodd natur agored ei grybwyll gan y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd nifer o weithiau, gan nodi ei fod yn rheswm pam roedd cydberthnasau wedi gwella; roedd y staff bellach yn 'deall' sefyllfaoedd y plant yn well, ac roedd ganddynt 'fwy o empathi' a 'mwy o gydymdeimlad' tuag at y myfyrwyr (F). Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddeall achosion yr ymddygiad yn ogystal â'r ymddygiad ei hun.

Gellir gweld lleisiau rhieni drwy arolwg diweddar o rieni yn Awel y Môr; arweiniodd y cwestiwn, 'Sut rydym wedi gwneud cynnydd yn ein dull o ymgysylltu â rhieni dros y 4 blynedd diwethaf?' at atebion fel 'Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth anhygoel i'w wneud ac mae mwy a mwy o rieni yn cymryd rhan nawr, ac mae hynny mor dda i'r plant.' 'Mae rhieni'n cwrdd â rhieni eraill', 'Atgyfeiriadau at asiantaethau eraill'

'Rwyf wedi cymryd rhan mewn llawer o'r cyrsiau ymgysylltu â theuluoedd dros y 4 blynedd diwethaf gan Teuluoedd yn Cysylltu i gwblhau fy nghwrs Gofal Plant Lefel 2 sydd wedi fy ysbrydoli i barhau ar fy nhaith i Lefel 3 ac i Awel y Môr y mae'r diolch am hynny. Rwyf mor ddiolchgar i mi gael cymaint o gyfleoedd. Rwyf hefyd wedi cwblhau nifer o gyrsiau eraill fel y cwrs chwarae, hylendid bwyd, seicoleg plant i enwi dim ond rhai. Mae Awel y Môr bob amser yn rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i'r rhieni a'r plant a hi yw'r unig ysgol rwy'n gwybod amdani sy'n gwneud hyn. Roedd yr amser ymgysylltu â theuluoedd ar brynhawn dydd Mercher i'r rhieni a'r plant yn wych ac roedd y plant wrth eu bodd. Dechreuodd gyda Teuluoedd yn Cysylltu<sup>2</sup> yn helpu'r plant i ddysgu ac yna'n helpu i roi pob cyfle i'r rhieni hefyd ac roedd yn wych' (O'r arolwg rhieni, ysgol Awel y Môr).

Gofynnodd yr un arolwg i'r rhieni beth y gallai'r ysgol ei wneud i wella – roedd 50 o atebion i'r cwestiwn hwn ac roedd 28 yn awgrymu nad oedd angen unrhyw welliant, 'Dim byd', 'Dalier ati â'r gwaith da', 'Dim angen gwella'. Roedd awgrymiadau mwy manwl yn cynnwys

---

<sup>2</sup>Ymyriad sy'n canolbwyntio ar deuluoedd yw Teuluoedd yn Cysylltu a ddarperir mewn ysgolion gan yr elusen, Achub y Plant Lord, P., C. Rennie, R. Smith, A. Gildea, S. Tang, G. Miani, B. Styles and C. Bradley (2020). Randomised Controlled Trial Evaluation of Families Connect. Slough, NFER.

mwy o rybudd cyn cynnal digwyddiadau (nodwyd hyn mewn 2 ateb), awgrymodd 2 ateb y dylid cynnig y cyrsiau i fwy o rieni ac awgrymodd 2 ateb y dylid cynnal cyrsiau o fathau penodol.

### **8.3. Y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd**

Fel y nodwyd, roedd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd a gyflogwyd gan Awel y Môr eisoes wedi bod yn aelod o staff, ac roedd hefyd yn aelod o'r gymuned leol, 'Merch o Sandfields ydw i' (F). Symudodd yr aelod hwn o staff o rôl fel cynorthwydd addysgu i rôl newydd ar gais y pennaeth, er mwyn cefnogi'r broses o greu 'cydberthnasau cryfach â'r rhieni' (F) yn yr ysgol.

Nododd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd bwysigrwydd bod yn lleol a bod y teuluoedd yn ei hadnabod, ac y gallent fod yn 'agored' â hi; a hefyd, pa mor bwysig ydoedd bod y teuluoedd yn gallu cael gafael arni'n uniongyrchol, drwy rif ffôn symudol penodol, 'dydyn nhw ddim yn gorfod mynd drwy'r Dderbynfa i gael gafael arnaf i' a bod ganddi ei swyddfa ei hun lle gallai'r rheini deimlo'n gyfforddus (F).

Nododd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd bod ei rôl yn mynd y tu hwnt i fod wedi'i lleoli'n llwyr yn yr ysgol; trafododd ddefnyddio cysylltiadau yn y gymuned i gefnogi rhieni â phroblemau domestig (fel darparu carpedi mewn fflat).

### **8.4. Ymgysylltiad rhieni mewn AGA**

Pan ofynnwyd ynghylch pwysigrwydd dysgu am ymgysylltiad rhieni fel rhan o ddod yn athro, awgrymodd y pennaeth fod y pwnc hwn yr un mor bwysig â rheoli ymddygiad yn y dosbarth, a bod angen i athrawon dan hyfforddiant ddeall natur a gwerth ymgysylltiad rhieni cyn iddynt ddechrau gweithio. Cytunodd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd, gan nodi ei fod yn 'anferth' a bod angen ei gynnwys mewn hyfforddiant (F). Nododd y pennaeth hefyd nad oedd unrhyw sôn am ymgysylltiad rhieni yn ei hyfforddiant ei hun. Ymhellach, roedd profiadau mewn ysgolion gwahanol yn amrywio, gyda rhai ysgolion yn mynnu cael rhaniad pendant rhwng y staff a'r rhieni (fel yr ategwyd ym mhrofiadau myfyrwyr yn yr adroddiad hwn (gweler adran 0)).

### **8.5. Cyfyngiadau symud**

Nododd y pennaeth fod 78% o'r plant wedi manteisio ar gymorth ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud, canran uwch o lawer nag mewn ysgolion eraill yn yr ardal. Roedd yr ysgol wedi cefnogi teuluoedd drwy ddarparu technolegau pan oedd angen, a sicrhau bod aelod o staff ar gael yn yr ysgol i ateb galwadau ffôn. Dangosodd adroddiadau ar sgiliau darllen y plant eu bod wedi gwella neu gynnal lefelau darllen yn ystod y cyfyngiadau symud

yn y dosbarth derbyn ac ym Mlwyddyn 1; gwelwyd dirywiad bach ym mlwyddyn 2 sydd wedi'i unioni ers i'r plant ddychwelyd i'r ysgol (gweler 0).

## **8.6. Y diffiniad o ymgysylltiad rhieni yn Awel y Môr**

'... i ni fel ysgol, mae ymgysylltiad rhieni yn golygu bod y rhiant yn cael effaith ar ddysgu'r plentyn, boed hynny yn y cartref neu yn yr ysgol' (H).

Nododd y pennaeth mai proses yn hytrach na mater unigol oedd gwella ymgysylltiad rhieni, nid oherwydd bod 'carfan newydd o rieni' bob blwyddyn, ond am fod rhywbeth arall y gall y staff ei ddysgu bob amser.

## **8.7. Canlyniadau yn Awel y Môr**

'Rydym yn gweld bod ein rhieni'n cael effaith ar ddysgu eu plant, ond bu'n rhaid i ni ddilyn proses helaeth i gyrraedd yno' (H).

- Llai o blant yn cael eu gwahardd (ni chafodd yr un plentyn ei wahardd dros y tair blynedd diwethaf)
- Llai o gwynion gan rieni i'r pennaeth
- Cynnydd mewn ymgysylltiad rhieni â dysgu
- Gwella cydberthnasau rhwng staff addysgu a rhieni
- Llai o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol
- Llai o absenoldebau

## **8.8. Trafodaeth**

Mae'n arwyddocaol bod yr astudiaeth achos hon wedi'i lleoli mewn ardal o amddifadedd cymharol, chyflawniad addysgol isel ymysg oedolion a lefelau cyflogaeth isel. Mae'r canlynol yn amlinellu'r themâu allweddol a nodwyd yn y data.

### **8.8.1. Cydberthnasau**

Mae pwysigrwydd cydberthnasau yn rhan annatod o'r astudiaeth achos hon (yn ogystal â gweddill yr adroddiad a'r ymchwil ar ymgysylltiad rhieni).

Mae'r cydberthnasau rhwng rhieni a staff yn Awel y Môr wedi newid yn sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, o un elyniaethus i un o weithio mewn partneriaeth (Goodall 2017).



Mae hyn yn rhannol oherwydd gwaith a rennir a chydadeiladu, er enghraifft yr hyn a gynnigir i rieni (Carroll, LaPoint et al. 2001).

### **8.8.2. Pŵer**

Un llinyn arwyddocaol drwy gydol yr astudiaeth achos hon yw aiddosbarthu pŵer, o fod yn rhywbeth oedd gan y staff bron yn gyfan gwbl, wedi'i gefnogi gan safbwyntiau o ddiffyg mewn perthynas â rhieni, i sefyllfa lle caiff pŵer ei rannu rhwng y rhieni a'r staff.

Mae'r sefyllfa hon o rannu pŵer yn amlwg yn y ffaith bod y rhieni'n galw'r pennaeth wrth ei enw (yn hytrach na defnyddio teitl), y cyrsiau y gofynnodd y rhieni iddynt gael eu darparu (yn hytrach na'r rhai yr oedd y staff o'r farn y 'dylai' rhieni eu mynychu neu yr oedd eu hangen ar y rhieni), mynd ati'n fwriadol i agor yr ysgol i gynnal digwyddiadau academaidd ac anacademaidd i rieni, newid ffurf a thôn y dulliau cyfathrebu (Mapp 2002), penodi swyddog ymgysylltu â theuluoedd o'r gymuned (gan fod gwahaniaeth o ran dosbarth yn aml rhwng yr athrawon a'r rhieni), a'r newidiadau i nosweithiau rhieni a alluogodd y rhieni i gymryd rhan weithredol yn y broses, yn hytrach na derbyn gwybodaeth yn unig (Goodall 2017). Nododd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd bod y pŵer yn cael ei rannu ymysg y staff, yn ogystal, a bod y pennaeth 'Yn gwranddo ar y rhieni, ac ar y staff, a bydd yn ystyried unrhyw syniad' (F).

### **8.8.3. Deall ymgysylltiad rhieni**


Mae Awel y Môr wedi symud o gynnwys rhieni mewn ysgol/addysgu (lle caiff rhieni eu gwahodd i mewn i ysgolion ac mae'r pwyslais ar sicrhau bod y rhieni yn cefnogi agenda a bennir gan yr ysgol), i ymgysylltiad rhieni â dysgu plant (lle mae'r rhieni a'r staff yn cydweithio i gefnogi dysgu, a chaiff pwysigrwydd cyfraniad y rhieni ei gydnabod yn glir) (Goodall and Montgomery 2013).

## 9. Casgliadau yr adroddiad

Roedd yr holl ymatebwyr yn gwerthfawrogi ymgysylltiad rhieni yn y broses o addysgu eu plant. Mae hwn yn ganfyddiad gwerthfawr; fel y dangosir yn yr adolygiad o lenyddiaeth. Ymgysylltiad rhieni â dysgu yw un o'r elfennau cryfaf y gellir eu defnyddio i wella addysgu a deilliannau i blant a phobl ifanc (Jeynes 2005, Jeynes 2012, Boonk, Gijsselaers et al. 2018). Caiff yr adran hon ei fframio gan gwestiynau ymchwil y prosiect.

### 9.1. CY1: Beth mae darparwyr AGA eisoes yn ei ddarparu mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni â dysgu?

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod a wnelo ymgysylltiad rhieni â chyfathrebu (o'r ysgol i'r cartref a chyfathrebu dwy ffordd rhwng partion). Roedd hyn yn bennaf at ddiben meithrin cydberthnasau rhwng staff a rhieni i ddechrau, ac yn ail, i sicrhau lles a datblygiad plant a phobl ifanc; gellir gweld y cynnydd hwn yn Ffigur 8.



Ffigur 8 Diffiniadau o ymgysylltiad rhieni

Mae gwerth cydberthnasau da rhwng yr ysgol a'r cartref yn hysbys yn y llenyddiaeth (Barbour, Eisenstadt et al. 2018), ynghyd ag effaith y cydberthnasau hyn ar les pobl ifanc (Emerson, Fear et al. 2012), fel y nodir yn yr adolygiad o lenyddiaeth, uchod. Roedd darparwyr ac ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd y cydberthnasau hyn, ynghyd â'r angen i gefnogi myfyrwyr i feithrin cydberthnasau o'r fath.

#### 9.1.1. Ymgysylltiad rhieni mewn AGA

Mae darparwyr AGA yn glir ei bod yn bwysig cynnwys ymgysylltiad rhieni yn eu rhaglenni ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd y ddarpariaeth hon yn 'ymhlyg' neu nid oedd wedi'i hintegreiddio'n strategol i'r ddarpariaeth AGA. Roedd nifer o ddarparwyr yn disgwyl i hyn gael ei gwmpasu mewn lleoliadau myfyrwyr, ac yn cydnabod y

gallai hyn arwain at brofiadau gwahanol iawn (fel y mae adroddiadau myfyrwyr yn nodi). Er hyn, roedd yr arolwg myfyrwyr yn cynnig darlun mwy addawol gyda mwy na hanner y myfyrwyr yn nodi y soniwyd am y cysyniad yn eu darpariaeth, er mai dim ond mewn un modiwl roedd hyn fel arfer.

Tynnwyd sylw mentoriaid at ymgysylltiad rhieni mewn ysgolion, gan bwysleisio y dylid galluogi myfyrwyr i gyflawni gofynion y safon mewn perthynas â chydweithio â theuluoedd. Nododd ymhell dros hanner y myfyrwyr a ymatebodd i'r arolwg y trafodwyd ymgysylltiad rhieni yn ystod eu lleoliadau.

Mae'n amlwg o ymatebion yr holl ymatebwyr nad yw dysgu plant yn cael ei drin yn gyson gan bob darparwr, ac nad yw profiad myfyrwyr o leoliadau yn gyson ar y pwnc hwn.


### **9.1.2. Diffiniad o ymgysylltiad rhieni**

Mae'r safbwynt a fynegwyd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cyd-fynd â'r cysyniad o ymgysylltiad rhieni ag ysgol neu addysgu (Goodall and Montgomery 2013), ac yn cyd-fynd ag agweddau hŷn at ymgysylltiad rhieni, y ceir enghraifft ohono yn fframwaith Epstein (Epstein , Epstein 1992, Epstein 2001).

Roedd ymgysylltiad rhieni, fel y gwelwyd enghreifftiau gan bob darparwr a phob myfyriwr, yn ymwneud â hysbysu rhieni am waith yr ysgol, a meithrin cydberthnasau â rhieni a theuluoedd. Tynnodd ymatebwyr sylw at y materion y mae llawer o rieni yn eu hwynebu mewn cydberthnasau ag ysgolion, yn enwedig yn seiliedig ar brofiadau blaenorol rhieni o'r system addysg (Mendez, Carpenter et al. 2009). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, i'r rhan fwyaf o ymatebwyr, mai ffocws y gydberthynas oedd lles y person ifanc, yn hytrach na dim ond materion academaidd. Soniwyd am werth yr amgylchedd dysgu yn y cartref (Sylva, Melhuish et al. 2008) yn yr arolwg myfyrwyr, ynghyd â phwysigrwydd rhieni o ran agweddau plant at ddysgu.

Er y soniodd rhai ymatebwyr am bartneriaeth â rhieni gan rai ymatebwyr fel eu gweledigaeth o ran gweithio gyda rhieni, yn seiliedig ar feithrin cydberthnasau rhwng y cartref a'r ysgol, ac, yn wir, defnyddiwyd y term cyd-athrawon (gweler isod). Yn bennaf, roedd y gydberthynas a ragwelwyd rhwng staff yr ysgol a'r rhieni yn un a gyfarwyddwyd gan yr ysgol, gyda'r rhieni mewn rôl ymatebol, yn hytrach nag un ragwetihol. Dangosir hyn yn Ffigur 9, isod, sy'n dangos y cynnydd o gyfraniad rhieni ag ysgolion (gweithgareddau a arweinir ac a ysgogir gan yr ysgol sydd, yn y cysyniad gwreiddiol, yn cymryd rhan yn safle ffisegol yr ysgol fel arfer), drwy gyfrannu at addysgu (gweithgareddau a allai gael eu cynnal oddi wrth safle'r ysgol ond sydd yn dal i gael eu harwain gan yr ysgol i ryw raddau) ac ymgysylltiad rhieni â dysgu; mae galluogedd rhieni yn cynyddu ac mae galluogedd ysgolion yn lleihau wrth symud drwy'r continwmm. Fel y dangosir yn yr adolygiad o lenyddiaeth,

ymgysylltiad rhieni â dysgu, ar waelod y continwwm, sydd fwyaf tebygol o fod o fudd i ddeilliannau plant.



Ffigur 9 - *Continwwm* (Goodall a Montgomery, 2013).

### 9.1.3. Safbwyntiau o ddiffyg

Drwy'r data o'r cyfweiliadau, gwelwyd safbwyntiau o ddiffyg mewn perthynas â rhieni yn codi dro ar ôl tro (Garcia and Guerra 2004, Gillies 2005, Irizarry 2009, Vincent, Ball et al. 2010, Goodall 2019), gan ddarparwyr, rhanddeiliaid ac athrawon dan hyfforddiant.

Roedd y safbwyntiau hyn wedi'u cynnwys yn y ffordd y caiff rhieni eu portreadu yn yr hyfforddiant cychwynnol athrawon ei hun. Mae'n dangos bod trafodaethau ar sicrhau bod myfyrwyr yn barod i gael 'sgyrsgiau anodd' (4), eu bod wedi cael trafodaethau â staff ar leoliadau ynghylch 'tawelu rhieni ymosodol' (5), ynghylch sut i osgoi sefyllfaoedd anodd a sut i ddelio â rhieni heriol (14). Nododd un darparwr fod ymgysylltiad rhieni wedi'i gwmpasu mewn trafodaethau ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; nododd myfyrwyr yn yr arolwg fod eu hyfforddiant wedi cynnwys problemau ynghylch heriau o ran ymgysylltiad rhieni. Wrth gwrs, mae'r rhain yn faterion dilys i'w trafod â myfyrwyr. Fodd bynnag, o ystyried y diffyg gwybodaeth a roddir i fyfyrwyr mewn perthynas â natur, effaith a gwerth ymgysylltiad rhieni, pennodd y portreadau hynny o achosion negyddol o ryngweithio â rhieni fframwaith ar gyfer ymgysylltu â rhieni nad yw'n gadarnhaol.

Parhaodd yr adroddiadau gan athrawon dan hyfforddiant ynghylch eu profiadau ar leoliadau â'r thema hon; nododd myfyrwyr dro ar ôl tro bod athrawon wedi dweud wrthynt 'nad oes ots gan rieni' (15, 11), a'i bod yn ymddangos bod athrawon wedi 'dechrau dilyn arferion gwael' (1), gan dybio nad oedd ots gan rieni am addysg eu plant. Awgrymodd yr ymatebydd hwn nad oedd yr athrawon yn ei leoliadau yn deall 'pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni a'r effaith bosibl' (15). Soniodd myfyriwr arall am arfer oedd yn peri dryswch iddo, sef pan fyddai staff yn yr ysgol yn ffonio'r rhieni 'yn ystod y diwrnod gwaith', yn methu cael ateb ac yna nad oeddent yn mynd ar eu drywydd â'r rhiant ar adeg arall. Arsylwodd y myfyriwr ar y ffaith ei fod ef a'r athro yn y gwaith, felly ei bod yn gwbl bosibl y gallai'r un peth fod yn wir am y

rhiant (10). Arsyllwodd yr un myfyriwr, yn ysgol ei leoliad, pan oedd y staff am godi mater ynghylch tangyflawniad â rhiant, y byddai llythyr yn cael ei anfon at y rhiant ac yna y byddai disgwyl iddo ef gysylltu â'r ysgol.

Nododd y myfyrwyr hefyd nad oeddent yn cael cysylltu â rhieni, hyd yn oed am resymau cadarnhaol (e.e., roedd myfyriwr a oedd wedi cael problemau ymddygiad yn aml wedi bod cael 'seren aur'). Awsgrymodd yr athro dan hyfforddiant y dylid cysylltu â'r rhiant ond dywedwyd wrtho na ddylai wneud hyn oherwydd y gallai hyn olygu y byddai'r rhiant yn 'cysylltu â'r ysgol drwy'r amser' (15). Mae'n bwysig nodi'r sgysiau hyn, o ystyried y pwyslais a roddodd staff AGA ar brofiad y lleoliad ar gyfer myfyrwyr sy'n dysgu am ymgysylltiad rhieni.

Er bod llai o ran nifer, cafwyd mynegiannau negyddol (os nad rhai â diffyg) mewn perthynas â rhieni y gellid dweud eu bod yn poeni gormod, yn 'ymwthgar ynghylch graddau' (10). Nododd ymatebydd arall fod rhai rhieni, drwy wthio eu plentyn i ragori mewn arholiadau, wedi rhoi straen ar eu plant, 'Pan fydd ymgysylltiad rhieni yn effeithio'n andwyol ar blentyn, rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni hefyd gydnabod bod angen i ni ofyn i'r rhiant gymryd cam yn ôl a gadael i'w blentyn fyw ei fywyd ei hun' (11). Soniodd un rhanddeiliaid, bod y staff yn ystyried ar adegau bod ymgysylltiad rhieni yn mynd yn 'rhy bell', a bod 'rhaid aelodau o'r staff o'r farn bod y rhieni yn cymryd drosodd' (5).

Fodd bynnag, dangosodd un darparwr dystiolaeth o arferion da yn ei ardal, pan geisiwyd mynd i'r afael â thymbiaethau a rhagfarn ynghylch rhieni mewn ffordd gadarnhaol yn ei ddarpariaeth AGA,

'Rydym hefyd yn siarad yn y modiwl hwnnw am y ffaith, gan mai athro'r disgybl ydych chi nid y rhiant, na allwch chi lunio safbwynt ynghylch rhieni ac rydym yn mynd i'r afael â thymbiaethau a stereoteipiau a safbwyntiau ynghylch llunio barn ar unwaith am deulu a'r dull o rianta. Mae honno'n sgwrs eithaf heriol sy'n anodd i'r myfyrwyr' (3).

Nododd darparwr arall, er y gall aelod o staff dybio'n gyflym nad yw rhiant nad yw'n dod i noson rieni (nac yn mynychu ar-lein) yn poeni am addysg ei blentyn, ond, mewn gwirionedd, gall fod sawl rheswm pam nad yw rhiant yn teimlo'n gyfforddus i fynychu. Siaradodd y darparwr hwn am yr angen i oresgyn rhwystrau y mae rhieni yn eu hwynebu wrth ryingweithio â'r ysgol (14).

## **9.2. CY2: Sut mae rhieni wedi ymgysylltu â dysgu yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19?**

Yn benodol o'r arolwg rhieni, mae'n amlwg bod rhieni wedi ymgysylltu â dysgu eu plant mewn sawl ffordd yn ystod y ddau gyfnod o gyfyngiadau symud (yn ddiddorol, er nad oedd unrhyw awgrymiadau bod rhieni wedi mynychu gwersi, roedd yn amlwg o'r data bod hyn wedi digwydd ar adegau).

Roedd y rhieni'n amrywio o fod yn hyderus iawn yn cefnogi dysgu (yn benodol y rhieni hynny a oedd yn athrawon eu hunain) i fynegi pryder mawr ynghylch gallu cefnogi dysgu; Cafodd 'Nid athro ydw i' ei ailadrodd mewn ffyrdd amrywiol yn yr ymatebion i'r arolwg.

Roedd yn amlwg bod rhieni yn cefnogi'r tasgau dysgu ffurfiol a bennwyd gan ysgolion, fel gweithio drwy daflenni gwaith a thasgau penodol. Hefyd, pwysleisiodd y rhieni bwysigrwydd lles, sy'n thema sy'n codi ym mhob rhan o'r adroddiad hwn. Roedd rhai rhieni yn canolbwyntio ar les ac iechyd meddwl nai llai ar draul gwaith ysgol neu o leiaf yn rhoi blaenoriaeth i les dros waith academiaidd. Roedd eraill yn sicrhau bod eu plant yn cael arferion i gefnogi dysgu, neu'n creu ardaloedd penodol ar gyfer y dysgu hwnnw.

Roedd y rhieni hefyd yn glir eu bod yn cefnogi dysgu nad yw'n academiaidd, 'sgiliau bywyd', coginio, gweithgaredd corfforol, a chwarae (a allai fod, ac sydd, wrth gwrs, yn rhannau o gwricwlwm yr ysgol ond efallai nad oeddent yn cael blaenoriaeth mewn dysgu ar-lein). Nododd y rhieni weithgareddau sy'n amlwg yn cyd-fynd â'r diffiniad mwy penodol o ymgysylltiad rhieni â dysgu (yn hytrach na'r ysgol), yn cynnwys sgysiau â phlant am ddysgu, annog chwilfrydedd, annog plant i ddysgu am bethau a oedd o ddiddordeb iddynt, cynnwys y teulu ehangach yn y dysgu.

### **9.3. CY3: Sut y cefnogwyd ymgysylltiad rhieni â dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud?**

Fel y nodwyd uchod, cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar hyn gan rieni - o ganmoliaeth fawr i ysgolion 'di-fai', 'roeddent yn anhygoel' i 'dim cyswllt o gwbl yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf'. Roedd yn amlwg bod rhai rhieni yn rhwystredig oherwydd y diffyg cymorth a gawsant gan ysgolion, ac roedd eraill yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth sylweddol.

Nododd y rhieni amrywiaeth o gefnogaeth gan ysgolion, a oedd yn cynnwys gwersi ar-lein, gwersi byw (er bod nifer o rieni hefyd yn difaru na chawsant y rhain), taflenni gwaith a pheccynnau dysgu, cyfarwyddiadau i ffynonellau cymorth eraill (BBC Bitesize er enghraifft).

Y prif syniad a ddaeth gan y rhieni oedd ynghylch cyfathrebu – roedd llawer o'r rhieni o'r farn bod yr ysgolion wedi cyfathrebu'n dda iawn â'r rhieni a'u bod wedi cael cefnogaeth ganddynt. Roedd rhieni eraill o'r farn nad oeddent wedi cael cefnogaeth dda o gwbl; yn aml, roedd rhieni â phlant mewn ysgolion gwahanol (ysgol gynradd ac ysgol uwchradd fel arfer) yn nodi lefelau gwahanol o gymorth gan ysgolion gwahanol.

Yn unol â data arall a nodir yma, soniodd llawer o rieni eu bod yn deall mwy am yr hyn roedd athrawon yn ei wneud, ac yn deall y pwysau oedd ar athrawon, 'maen nhw'n fwy anhygoel na'r hyn roeddwn i'n ei feddwl', ac 'rwy'n edmygu eu gwydnwch', gan arwain at 'hyd yn oed mwy o barch i athrawon'. Weithiau, roedd y sylwadau hyn yn cael eu gwrthdroi gan sylwadau negyddol ond fel y gwelir yn adran 0, roedd y mwyafrif o'r rhieni o'r farn eu bod yn cael cefnogaeth dda.

#### **9.4. CY4: A yw ymgysylltiad rhieni â dysgu wedi newid yn ystod y cyfyngiadau symud – os felly, sut?**

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith ei bod yn ymddangos nad yw profiad y cyfyngiadau symud wedi cynyddu pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni (y mae'r pwysigrwydd wedi bod yn hysbys ers sawl blwyddyn) ond yn hytrach, yn ystod y cyfyngiadau symud, 'nid yw wedi mynd yn bwysicach, gan ei bod yn debygol y bu'n bwysig erioed, ond mae'n fwy amlwg ei bod yn bwysig bod rhieni yn ymgysylltu yn y dysgu ac yn cefnogi eu plant â'u gwaith ysgol yn gyffredinol' (10).

Yn yr arolwg, mynegodd rhieni safbwyntiau cymysg ynghylch ymgysylltiad rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud. Nododd y rhieni bod dysgu gartref yn 'arddull' gwahanol o ddysgu, ac yn unol ag ymatebwyr i gyfweiliadau, nododd rhai rhieni a oedd yn athrawon bod eu plant eu hunain yn ymddwyn yn wahanol gartref o gymharu â'r modd y byddai disgwyl iddynt ymddwyn mewn ystafell ddosbarth.

Ar y cyfan, nododd y rhieni bod ganddynt fwy o wybodaeth am yr hyn roedd eu plant yn ei wneud ac yn ei ddysgu ynghyd â mwy o ddealltwriaeth o'r cwricwlwm. Roedd nifer o'r rhieni yn falch o'r cynnydd mewn cyfathrebu gan ysgolion a staff yn ystod y cyfyngiadau symud a gwnaethant fynegi'r gobaith y byddai'r lefel hon o gyfathrebu yn parhau.

Mae'r ymatebwyr wedi bod yn glir mai un o'r prif newidiadau oherwydd y cyfyngiadau symud oedd cynnydd yn ansawdd y cydberthnasau rhwng staff ysgolion a theuluoedd. Mae mwy o ddealltwriaeth ar y cyd rhwng y ddau grŵp, yn rhannol oherwydd cydnabyddiaeth glir bod y grwpiau, mewn gwirionedd, yn gorgyffwrdd (e.e., mae llawer o athrawon yn rhieni eu hunain ac felly maent wedi bod yn cefnogi eu plant eu hunain i ddysgu gartref).

Mae'n arwyddocaol, yn yr astudiaeth achos, yn ogystal ag ym mhrofiad yr ysgol arweiniol a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni, bod y cydberthnasau hyn wedi cael eu meithrin yn fwriadol a'u cefnogi am gryn amser cyn y cyfyngiadau symud. Nododd ysgol yr astudiaeth achos fod eu plant wedi colli llai o gyfleoedd i ddysgu na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd y cydberthnasau blaenorol â rhieni.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd lles, a chefnogi cydberthnasau â rhieni ar gyfer lles, fel rhan o'r gwaith yr oeddent wedi'i drefnu mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud, yn benodol drwy fwy o gyfathrebu â rhieni. Mae'n ddiddorol bod myfyrwyr a darparwyr wedi nodi bod rhai ysgolion wedi dechrau cyfathrebu â rhieni am faterion cadarnhaol yn fwriadol, yn ogystal ag am faterion problemus (arfer a nodweddir gan ysgol yr astudiaeth achos fel 'rhoi credyd yn y banc').

Nododd yr ymatebwyr hefyd fwy o ymgysylltiad uniongyrchol gan rieni â dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud, er enghraifft drwy rieni yn mynychu gwersi neu'n rhyngweithio â'u plant ynghylch dysgu yn amlach. Roedd rhai ysgolion wedi rhoi ymyriadau ar waith i gefnogi hyn,

fel anfon syniadau gartref ynghylch y modd y gallai rhieni fynd â syniadau ymhellach, neu'r pynciau a oedd wedi'u cwmpasu, gyda ffyrdd o ddechrau sgysiau teuluol.

### **9.5. CY5: Sut mae ysgolion, rhieni, athrawon dan hyfforddiant a staff AGA yn gweld ymgysylltiad rhieni â dysgu yn datblygu yn y dyfodol?**

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn gobeithio y byddai'r cydberthnasau cryfach, a'r ddealltwriaeth well rhwng staff addysgu a rhieni yn parhau ar ôl diwedd cyfyngiadau COVID-19. Hefyd, roedd y rhieni yn gwerthfawrogi'r cynnydd mewn cyfathrebu ac yn gobeithio y byddai hyn yn parhau, fel y nodwyd gan y myfyrwyr yn eu harolwg. Nododd nifer o rieni eu bod bellach yn gwybod llawer mwy am yr hyn roedd eu plant yn ei ddysgu a lle roedd eu plant wedi cyrraedd ar eu teithiau addysgol a'u bod yn gobeithio y gallai hyn barhau. Yn unol ag un o'r ymatebwyr i'r cyfweiliadau a nodwyd uchod, nododd nifer o rieni, mai nhw, fel rhieni, oedd yn 'adnabod eu plentyn orau', ac felly y dylent gael eu cynnwys yn fwy yn eu haddysg. Mae hyn yn cyd-fynd â nodweddion ymgysylltiad rhieni yn y llynyddiaeth fel partneriaeth rhwng rhieni, staff ysgolion a'r gymuned ehangach (Williams, Davies et al. 2008, British Educational Communications and Technology 2009, Daniel 2011, Hornby 2011, Goodall 2018, Mutton, Burn et al. 2018, Thompson, Willemse et al. 2018, Willemse, Thompson et al. 2018, Levinthal de Oliveira Lima and Kuusisto 2020).

Nododd nifer o ddarparwyr hefyd fod y ffaith bod yr ymchwil hon yn cael ei chynnal, ac y gofynnwyd iddynt gymryd rhan yng ngham y cyfweiliad, wedi'u hannog i feddwl yn fwy am le ymgysylltiad rhieni yn eu darpariaeth. Roedd hyn yn cynnwys meddwl yn fwy strategol am ble roedd y cysyniad yn seiliedig ar eu darpariaeth eu hunain ynghylch sut a beth y gallai myfyrwyr ei brofi ar eu lleoliadau mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni.

Roedd ymatebydd arall yn gobeithio y byddai'r profiad o'r cyfyngiadau symud, a'r ffaith bod y gwaith ymchwil i ymgysylltiad rhieni yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn 'dangos ei fod yn rhywbeth o werth' (4) i aelodau o'r tîm addysgu AGA.

### **9.6. CY6: Sut y gall y data a gafwyd o'r ffynonellau hyn gael eu hintegreiddio i AGA i gefnogi dysgwyr y dyfodol yn y ffordd orau?**

Mae'n amlwg, er bod darparwyr AGA, myfyrwyr a mentoriaid, yn ogystal â rhieni, yn ystyried bod y cysyniad o ymgysylltiad rhieni â dysgu yn bwysig, ar hyn o bryd nid oes cysondeb yn y darpariaeth ynghylch y syniad hwn, ac ar adegau, nid ymdrinnir â'r cysyniad yn glir o gwbl.

Byddai hyn yn dadlau bod newidiadau cadarnhaol y gellir eu gwneud i ddisgwyliadau o ddarpariaeth AGA drwyddi draw, er mwyn sicrhau dealltwriaeth gliriach o'r cysyniad gan



bawb dan sylw, yn ogystal â chysondeb o ran cyflwyniad a phrofiad. Mae adran 11 yn cynnwys argymhellion i'r perwyl hwn.

## 9.7. Cyfyngiadau

Fel y byddai teitl y prosiect yn awgrymu, cynhaliwyd yr ymchwil hon yn ystod pandemig COVID-19, a arweiniodd at gau ysgolion yn ffisegol yn ystod cyfnod yr ymchwil, ac yn sgil hynny at gynnydd i bwysau ar staff ysgolion, gan fod staff ysgolion yn gweithio i gefnogi dysgu o bell. Roedd staff AGA hefyd yn gweithio i roi cyfarwyddiadau a chefnogaeth i'w myfyrwyr eu hunain ond hefyd i gefnogi proses lleoliadau myfyrwyr yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau<sup>3</sup>. Arweiniodd y newidiadau yn sgil y pandemig i addysg at newidiadau ym mhrosesau arferol AGA; yn aml, roedd athrawon dan hyfforddiant yn cael eu cyfarwyddiadau o bell yn ogystal ag ymgysylltu mewn lleoliadau o bell (Addysg Cymru Education Wales 2020, la Velle, Newman et al. 2020).

Oherwydd y pwysau uwch ar staff AGA a staff ysgolion, roedd yn fwy anodd caffael ymatebwyr ar gyfer yr ymchwil hon; cynigiwyd cyfarfodydd grŵp ffocws niferus i grwpiau amrywiol ond ni ddangoswyd unrhyw ddiddordeb. Am y rheswm hwn, rydym yn dibynnu ar yr arolwg rhieni, yn ogystal â'r cyfweiliadau â rhieni, er mwyn deall safbwyntiau rheini ar effaith COVID-19 (yn ogystal â'r llenyddiaeth yn y maes). Roedd yr arolygon yn nodi safbwyntiau ychydig dros 100 o rieni; nododd 40% o'r ymatebwyr bod ganddynt radd baglor o leiaf, sydd yn unol â phoblogaeth gyffredinol Cymru (nodwyd bod gan 41% gymwysterau lefel 4 neu uwch) (Welsh Government 2021).

Un o'r offerynnau ymchwil gwreiddiol oedd darnau o bortffolios dysgu personol athrawon dan hyfforddiant, a dechreuodd y tîm ymchwil gynnal trafodaethau â phartion cyfrifol ynghylch defnyddio data o'r rhain ar ffurf ddiennw. Nid oedd hyn yn ymarferol, oherwydd pryderon ynghylch preifatrwydd ynghyd â chyfyngiadau'r feddalwedd a ddefnyddiwyd. Defnyddiwyd grwpiau ffocws ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, a'r arolwg athrawon dan hyfforddiant, yn lle darnau o'r portffolio.

---

<sup>3</sup> Er ei bod yn arferol trafod 'cau' ysgolion yn ystod y pandemig, mae hwn yn derm anghywir oherwydd, yn y lle cyntaf, roedd llawer o ysgolion yn dal i fod ar agor i ryw raddau (e.e. i gefnogi plant yr ystyriwyd eu bod yn agored i niwed neu blant gweithwyr allweddol) ac yn ail am nad oedd 'ysgolion' yn gyfystyr â'u hadeiladau ond yn hytrach â'u cymunedau o staff, dysgwyr a theuluoedd, a oedd yn parhau i ymgysylltu'n sylweddol â'r broses o addysgu.

## **10. Prif Ganfyddiadau**

### **10.1. Meithrin Cydberthnasau**

I grynhoi, roedd pob ymatebydd yn gwerthfawrogi ymgysylltiad rhieni yn y broses o addysgu eu plant. Ar y cyfan, mae darparwyr AGA yn portreadu ymgysylltiad rhieni fel cyfathrebu rhwng rhieni ac athrawon â'r nod o feithrin cydberthnasau a fydd yn cefnogi lles a datblygiad plant a phobl ifanc. Credwyd yn bennaf bod hyn yn gysylltiedig â hysbysu rhieni am waith yr ysgol. Mae'r safbwyntiau yn adlewyrchu dealltwriaeth blaenorol o ymgysylltiad rhieni a drafodwyd yn adran 0, lle mae gweledigaeth y gydberthynas hon wedi'i chyfeirio gan staff ysgolion ac mae gan rieni rôl ymatebol yn hytrach nag un rhagweithiol. Mae ymchwil flaenorol a'r astudiaeth achos a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos buddiannau dull mwy cyfannol a chydweithredol mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni sy'n pwysleisio ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plant gartref (Sylva, Melhuish et al. 2008), ac sydd hefyd yn gweithio i rannu pŵer yn fwy cyfartal rhwng athrawon a rhieni.

### **10.2. Safbwyntiau o Ddiffyg**

Drwy'r data o'r cyfweiliadau, gwelwyd safbwyntiau o ddiffyg mewn perthynas â rhieni yn codi dro ar ôl tro gan ddarparwyr, rhanddeiliaid ac athrawon dan hyfforddiant; i ryw raddau mae'r safbwyntiau hyn o ddiffyg wedi'u cynnwys yn y ffordd y caiff rhieni eu portreadu yn yr hyfforddiant cychwynnol athrawon ei hun. Er bod profiadau heriol â rhieni yn faterion dilys i'w trafod â myfyrwyr a bod angen paratoi ar eu cyfer, ni roddwyd digon o wybodaeth i fyfyrwyr ynghylch gwerth ymgysylltiad rhieni. Yn hytrach na chanolbwyntio ar bwysigrwydd a buddiannau ymgysylltiad rhieni, yn aml, roedd athrawon dan hyfforddiant ar leoliad yn nodi bod athrawon yn aml yn tybio nad oedd ots gan rieni am addysg eu plant. Mae'r safbwyntiau hyn o ddiffyg yn lleihau'r profiadau a'r cydberthnasau cymhleth ac amrywiol rhwng rhieni ac athrawon. O ganlyniad, mae'r tybiaethau hyn yn atgyfnerthu portread negyddol o rieni ac yn cyflwyno heriau i gyfleoedd meithrin cydberthnasau sy'n elfennau pwysig o allu rhieni i ymgysylltu â dysgu eu plant gartref.

### **10.3. COVID-19 ac Ymgysylltiad Rhieni**

Bu rhieni yn ymgysylltu â dysgu eu plant mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19. Er bod rhai o'r rhain yn cynnwys tasgau dysgu ffurfiol a bennwyd gan yr ysgol, tynnodd y rhieni sylw at bwysigrwydd lles, gan roi blaenoriaeth uwch i les na gwaith academaidd weithiau. Roedd rhieni hefyd yn cefnogi lles eu plant drwy greu arferion ac ardaloedd penodol lle gallent ddysgu, yn ogystal â chydabod dysgu nad yw'n academaidd fel pobi, gweithgarwch corfforol a chwarae nad oeddent yn cael blaenoriaeth o reidrwydd mewn dysgu ar-lein.

Roedd y mwyafrif o'r rhieni o'r farn eu bod yn cael cefnogaeth dda gan athrawon yn ystod y cyfyngiadau symud, fodd bynnag, roedd y profiadau'n amrywio rhwng ysgolion. Er bod rhai rheini o'r farn bod yr ysgolion wedi cyfathrebu'n dda â nhw, nododd rhieni eraill ddiffyg cyfathrebu yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Mae'n ymddangos bod profiad y cyfyngiadau symud wedi gwneud pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni yn fwy gweladwy i rieni ac athrawon. Er bod angen 'arddull' gwahanol o ddysgu ar gyfer dysgu o gartref er mwyn addasu i'r newid mewn amgylchedd dysgu, nododd y rhieni bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r cwricwlwm a'r hyn roedd eu plant yn ei ddysgu ar y cyfan.

Er gwaethaf y profiadau amrywiol hyn yn ystod y cyfyngiadau symud, nodwyd bod y cydberthnasau rhwng staff ysgolion a theuluoedd wedi gwella. Llwyddodd y rhieni i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn roedd eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol yn ogystal â rôl eu hathro, ac roedd yr athrawon yn dibynnu ar rieni i gefnogi dysgu eu plant o gartref.

Mae gan COVID-19 oblygiadau ehangach ar ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plant a'r cydberthnasau rhwng rhieni ac athrawon. Hwylusodd darpariaethau dysgu ar-lein gynnydd mewn cysylltiad rhwng ysgolion a chartrefi, yn enwedig wrth i'r staff ddod i arfer â'r dechnoleg. Croesawyd y cynnydd hwn mewn cyfathrebu rhwng athrawon a rhieni, ac roedd yr ymatebwyr yn gobeithio y byddai'r cydberthnasau cryfach hyn, a'r ddealltwriaeth well rhwng staff addysgu a rhieni yn parhau ar ôl diwedd cyfyngiadau COVID-19. Mae hefyd yn werth nodi bod ysgol yr astudiaeth achos, a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni cyn y pandemig, wedi colli llai o gyfleoedd dysgu na'r disgwyl yn ystod y cyfyngiadau symud. Cefnogwyd hyn gan gydberthnasau sefydledig a oedd yn bodoli eisoes â rhieni.

#### **10.4. Effaith y Pandemig ar Ymgysylltiad Rhieni**

Bu'n rhaid i rieni, athrawon a phlant fel ei gilydd addasu i effaith y pandemig wrth i'r broses o gau ysgolion ei gwneud yn ofynnol i blant ddysgu o gartref. Mewn sawl ffordd, gwelwyd gwelliant o ran ymgysylltiad rhieni â dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud wrth i'r broses addysgu ddigwydd gartref, ar-lein, ac wrth i gyfathrebu gynyddu rhwng rheini ac athrawon. Dechreuodd athrawon a rhieni gydnabod bod ymgysylltiad rhieni yn bwysicach yn 'weladwy' i gyflawniad addysgol a lles cyffredinol plant. Mae'r canfyddiadau o'r astudiaeth achos yn dangos ei bod yn debygol y bydd ysgolion sydd â dealltwriaeth a dull gweithredu clir eisoes o ran ymgysylltiad rhieni ac sy'n meithrin cydberthnasau rhwng yr ysgol a'r rhieni mewn sefyllfa well os bydd angen addasu i brofiadau heriol fel pandemig byd-eang.

Mae'r llenyddiaeth yn y maes a'r data o'r arolwg yn tynnu sylw at faterion cydraddoldeb mewn perthynas â'r cyfyngiadau symud a'r broses o gau ysgolion yn ffisegol: nid oedd digon o ddyfeisiau ar gael i bob teulu i sicrhau mynediad hawdd i ddysgu a deunyddiau ar-lein.

Gwellodd y cyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud; mae'n ymddangos bod hyn yn dangos bod staff ysgolion wedi dysgu o brofiad y cyfyngiadau symud cyntaf, a hefyd bod staff a theuluoedd yn fwy cyfarwydd â'r prosesau dan sylw ar gyfer cefnogi dysgu ar-lein.

Mae'r argymhellion hyn yn nodi ffyrdd clir o sicrhau bod dull mwy cyson i'r ddarpariaeth ar gyfer ymgysylltiad rhieni mewn AGA a bod hyn yn trosi i arferion yn lleoliad yr ysgol.

## **10.5. Ymgysylltiad rhieni mewn AGA**

Mae'r adroddiad hwn yn dangos pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni â dysgu plant ac mae'n tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer rhoi'r cysyniad hwn ar waith yn fwy cadarn mewn ysgolion. Rydym hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgorffori cysyniadau ymgysylltiad rhieni â dysgu yn ystod camau cychwynnol hyfforddi athrawon, lle gellir sicrhau dealltwriaeth gyson o ymgysylltiad rhieni a'i ymgorffori yn y ddarpariaeth o AGA. Roedd ymatebwyr hefyd yn ystyried y drafodaeth a grewyd gan y broses ymchwil fel arwydd o bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni yn nysgu plant ac roedd y cyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru yn amlygu hyn. Nododd rhai ymatebwyr fod cymryd rhan yn yr ymchwil hon wedi gwneud iddynt feddwl yn fwy gofalus am ymgysylltiad rhieni na phe na fyddent wedi cymryd rhan yn yr ymchwil.

Mae'r data yn dangos, er bod darparwyr AGA yn cydnabod bod ymgysylltiad rhieni yn bwysig, nad yw'r cysyniad ei hun wedi'i ymgorffori drwy AGA ac na chaiff ei ystyried yn elfen strategol bwysig o'r broses o baratoi athrawon y dyfodol. Mae diffyg cysondeb o ran darpariaeth a phrofiadau ynghylch ymgysylltiad rhieni ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, yn enwedig mewn perthynas â phrofiadau ar leoliad. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae ymgysylltiad rhieni yn ei olygu mewn darpariaeth AGA er mwyn sicrhau y caiff ei gyflwyno'n gyson a bod y profiad ymarferol yn gyson. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r argymhellion a wnaed gan yr adroddiad hwn er mwyn mynd i'r afael â'r materion a amlinellir yma.

## **11. Argymhellion ar gyfer Dyfodol AGA**

Mae ein hargymhellion yn bellgyrhaeddol, oherwydd pwysigrwydd y pwnc hwn, ac maent yn ymwneud â'r amrywiaeth ehangach o addysg yn yr ysgol yng Nghymru yn ogystal ag AGA. Gwnawn hyn er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth i ymgysylltiad rhieni â dysgu, sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau AGA, i ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, y fframwaith ar gyfer arolygu ysgolion a'r safonau ar gyfer beirniadu addysg ac athrwon.

### **11.1. Argymhelliad 1: Sicrhau lle ymgysylltiad rhieni yn y ddarpariaeth AGA yn y dyfodol**

Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at ddarparwyr AGA. Mae'n amlwg o'r uchod bod diffyg cysondeb ar draws darpariaeth AGA yng Nghymru, o ran:

- Y ddealltwriaeth o ystyr y term 'ymgysylltiad rhieni â dysgu'
- Y wybodaeth a'r cynnwys a ddarperir ynghylch y term hwn mewn cyfarwyddiadau uniongyrchol mewn AGA
- Profiadau athrawon dan hyfforddiant mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni â dysgu, yn eu lleoliadau.

Oherwydd pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni â dysgu ar gyfer deilliannau academiaidd a chanlyniadau eraill ar gyfer plant a phobl ifanc, rhaid mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn.

Ymhellach, rhaid mynd i'r afael â nhw mewn ffyrdd sy'n rhan annatod o AGA, yn hytrach na fel rhywbeth ychwanegol (e.e., ychwanegu darlith am werth ymgysylltiad rhieni i fodiwlau penodol). Fel y nodwyd yn yr adolygiad o lenyddiaeth, mae gan ymgysylltiad rhieni gysylltiad agos â dysgu yn yr ysgol yn y bôn, ac nid yw'n rhywbeth ar wahân iddo.

Byddai'n dda adeiladu ar y cydberthnasau gwell sydd wedi'u meithrin drwy'r pandemig, rhwng staff ysgolion a rhieni; dylid integreiddio'r gwersi hyn wrth baratoi athrawon newydd.

Er ein bod yn gwneud awgrymiadau dros dro mewn perthynas ag AGA, nid ydym yn awgrymu newidiadau penodol, amrywiol i bob rhaglen AGA yng Nghymru ar hyn o bryd; yn hytrach, rydym yn awgrymu y bydd gwaith â rhanddeiliaid amrywiol yn arwain at newidiadau o'r fath, gweler isod.

### **11.2. Argymhelliad 2: Seminar**

I Llywodraeth Cymru, rydym yn awgrymu y dylid cynnal seminar diwrnod o hyd yn ystod haf 2021, gyda phob darparwr AGA yng Nghymru, ac sy'n agored i bob athro dan hyfforddiant, sy'n gwasanaethu athrawon, a phawb sydd wedi'u derbyn i raglenni AGA ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dylai'r seminar hon, a gynhelir yn rhithwir er mwyn caniatáu ar gyfer cyfyngiadau COVID-19 a niferoedd mawr, gynnwys y canlynol:

- Cyflwyniadau o ganfyddiadau'r adroddiad hwn
- Cyflwyniadau ar natur a gwerth ymgysylltiad rhieni
- Gweithdai ymysg ymarferwyr ynghylch y modd maent yn cefnogi ymgysylltiad rhieni â dysgu ar hyn o bryd
- Gweithdai ymysg ymarferwyr ynghylch y gefnogaeth y gallant ei rhoi ar waith yn y dyfodol ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu
- Gweithdai ymysg ymarferwyr ynghylch yr hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig ynghylch cefnogi rhieni i gefnogi dysgu gartref: beth rydym wedi'i ddysgu, beth y gallem barhau i'w wneud?

Byddai'r canfyddiadau o'r seminar hon yn bwydo i'r gweithgor, gweler isod.

### **11.3. Argymhelliad 3: Cymorth byrdymor ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu mewn AGA**

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a darparwyr AGA sicrhau, yn y byrdymor, bod pob darparwr AGA yn cael copi o'r adroddiad hwn, ac amlinelliad byr o natur a gwerth ymgysylltiad rhieni, ynghyd â darlleniadau allweddol y gellir eu darparu i fyfyrwyr ac ANGAu yn ogystal â staff ysgolion a mentoriaid.

### **11.4. Argymhelliad 4: Cynnull grŵp o randdeiliaid i adrodd ar y dulliau er mwyn cynnwys dealltwriaeth o natur a phwysigrwydd cymorth ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu mewn AGA yng Nghymru**

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnull grŵp rhanddeiliaid i sefydlu argymhelliad cyfannol o'r cysyniadau ynghylch ymgysylltiad rhieni i addysg yn yr ysgol yng Nghymru; ceir cymorth clir yn nogfennau Llywodraeth Cymru eisoes ar gyfer hyn (Llywodraeth Cymru 2015). Dylai wneud y canlynol:

- Llunio diffiniad clir o ymgysylltiad rhieni â dysgu plant, i'w ddefnyddio yn y safonau addysgu a'r arolygiad.
- Archwiliad, yn seiliedig ar yr adroddiad hwn a'r gweithdai a awgrymir uchod, o'r hyn a ddsygwyd drwy'r pandemig (yr Ymylon Arian).
- Archwiliad o le cymorth ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu mewn addysg gychwynnol i athrawon.
- Archwiliad o le cymorth ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu yn y broses arolygu ar gyfer ysgolion.
- Archwiliad o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gwasanaethu athrawon ynghylch y cysyniad o ymgysylltiad rhieni â dysgu.
- Archwiliad o'r safonau addysgu; byddem yn awgrymu y dylid ystyried newid 'cydweithio â theuluoedd' i 'gefnogaeth ar gyfer ymgysylltiad teuluol â dysgu' gan fod hyn yn gliriach ac yn fwy penodol.

Mae'n bwysig nodi nad ydym yn awgrymu unrhyw fath o arolygiad uniongyrchol o ymgysylltiad rhieni â dysgu (sydd y tu hwnt i gylch gwaith y system addysg). Yn hytrach rydym yn awgrymu *cefnogaeth* yn yr ysgol ar gyfer ymgysylltiad rhieni â dysgu.

## Annex 1. Rhagor o wybodaeth am ddulliau

Mae'r tabl isod yn dangos pa ddulliau a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil gwahanol.

Cwestiwn Ymchwil	Y fethodoleg a fabwysiedir
1: Beth mae darparwyr AGA eisoes yn ei ddarparu mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni â dysgu?	Cyfweliad: Darparwyr, Athro dan Hyfforddiant, Mentoriaid Astudiaeth Achos
2: Sut mae rhieni wedi ymgysylltu â dysgu yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19?	Cyfweliad: Rhieni, Rhanddeiliaid Arolwg
3: Sut y cefnogwyd ymgysylltiad rhieni â dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud?	Cyfweliad: Darparwyr, Rhieni, Rhanddeiliaid Arolwg Astudiaeth Achos
4: A yw ymgysylltiad rhieni â dysgu wedi newid yn ystod y cyfyngiadau symud – os felly, sut?	Cyfweliad: Rhieni, Rhanddeiliaid Arolwg
5: Sut mae ysgolion, rhieni, athrawon dan hyfforddiant a staff AGA yn gweld ymgysylltiad rhieni â dysgu yn datblygu yn y dyfodol?	Cyfweliad: Darparwyr, Rhanddeiliaid, Athrawon dan Hyfforddiant, Rhieni, Mentoriaid Arolwg Astudiaeth Achos
6: Sut y gall y data a gafwyd o'r ffynonellau hyn gael eu hintegreiddio i AGA i gefnogi dysgwyr y dyfodol yn y ffordd orau?	Dadansoddi data

Tabl 3 Cwestiynau a dulliau



## **Annex 2. Cyd-destun safbwyntiol a'r posibilrwydd o ragfarn dymunoldeb**

Er ei bod yn bosibl bod ymchwil ansoddol a meintiol o safon uchel wedi'i gynnal o ran dilysrwydd a chadernid, mae'r elfennau hyn yn dod i'r amlwg mewn ffyrdd gwahanol mewn mathau gwahanol o ymchwil (Malterud 2001). Felly, mae'n bwysig archwilio'r ddau fater o gyd-destun safbwyntiol a rhagfarn dymunoldeb, mewn perthynas â data a gasglwyd yn gyffredinol a data a gasglwyd gan y prif ymchwilydd yn benodol.

Cyflogwyd holl aelodau'r tîm ymchwil gan ddau SAU ar adeg yr ymchwil ac roedd y ddau SAU yn ddarparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon. Yn yr ystyr hwn, gellid dweud bod yr adroddiad hwn yn deillio o fath o ymchwil fewnol (Mercer 2007). Fodd bynnag, er mwyn rhoi cymaint o gyfle â phosibl am ryddid mynegiant a diffyg rhagfarn, ni chafodd unrhyw ymatebwyr eu cyfweld gan aelodau o'r tîm ymchwil a oedd yn gyfrifol am eu gwaith. Ym mhob achos, cafodd myfyrwyr eu cyfweld gan ymchwilwyr nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldeb dros eu hastudiaethau na dylanwad uniongyrchol arnynt (er bod rhai myfyrwyr wedi mynd i sesiwn ar ymgysylltiad rhieni a ddarparwyd gan brif ymchwilydd, gweler isod). Cynhaliwyd pob cyfweiliad â darparwyr a myfyrwyr gan aelodau o'r tîm ymchwil nad oeddent yn aelodau o dimau addysgu AGA.

Rhaid mynd i'r afael â dymunoldeb yn y gwaith ymchwil hwn. Mae rhagfarn dymunoldeb cymdeithasol yn digwydd pan fydd ymatebwyr yn newid eu safbwyntiau a gofnodwyd i 'edrych yn well i eraill' neu i deimlo'n well amdanynt eu hunain (neu, gellid dadlau, eu gwaith) mewn perthynas â'r pwnc dan sylw (Larson 2019, 534). Yn achos y prosiect hwn, gallai'r rhagfarn hon fod wedi digwydd pe byddai'r ymatebwyr wedi ceisio adrodd ar eu gwaith neu ganfyddiadau mewn ffyrdd sy'n cyfateb i'r llenyddiaeth yn y maes (yn hytrach nag i realiti eu gwaith neu ganfyddiadau). Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â chyfweiliadau a gynhaliwyd gan un o aelodau'r tîm ymchwil, sydd wedi gwneud gwaith amlwg ym maes ymgysylltiad rhieni. Nododd ymatebwyr waith y person hwn pan ofynnwyd pa destunau a ddefnyddiwyd wrth addysgu am ymgysylltiad rhieni, roedd eraill wedi clywed darlithoedd a roddwyd gan yr aelod hwn o'r tîm. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi'r data a gafwyd, nid yw'n ymddangos bod y rhagfarn hon wedi effeithio ar y data.

## Annex 3. Holiaduron

Roedd yr holiaduron yn cael eu cynnal ar-lein. Roedd yr holl holiaduron yn cynnwys penawdau ac roedd yn cynnwys elfennau graffig; nid yw'r rhain wedi'u hatgynhyrchu yma er mwyn arbed lle. Fodd bynnag, mae tudalen gyntaf un arolwg wedi'i hatgynhyrchu isod:



Swansea University  
Prifysgol Abertawe



PRIFYSGOL  
BANGOR  
UNIVERSITY

### ITE Parent Engagement - parent survey (final)

---

Page 1

**What is the purpose of the research?**

We are conducting research into how parental engagement is presented and integrated into initial teacher education.

**Who is carrying out the research?**

The research is being carried out by research teams at Swansea University and Bangor University. The research has been approved by the College Research Ethics Committee in the College of Arts and Humanities at Swansea University.

**What happens if I agree to take part?**

If you agree to take part, you will be given the opportunity to fill in an online survey; this should take no more than 10 or 15 minutes to complete.

## ITE Parent Engagement - ITE mentor

Please read this information carefully.

### **What is the purpose of the research?**

We are conducting research into how parental engagement is presented and integrated into initial teacher education.

### **Who is carrying out the research?**

The research is being carried out by research teams at Swansea University and Bangor University. The research has been approved by the College Research Ethics Committee in the College of Arts and Humanities at Swansea University.

### **What happens if I agree to take part?**

If you agree to take part, you will be given the opportunity to fill in an online survey; this should take no more than 10 or 15 minutes to complete.

### **Are there any risks associated with taking part?**

The research has been approved by the College Research Ethics Committee. There are no significant risks associated with participation. You will not be asked any questions that will identify you.

### **What will happen to the information I provide?**

An analysis of the information will form part of our report at the end of the study and may be presented to interested parties and published in peer reviewed journals, conferences, related media and possibly used in teaching. Note that all information presented in any reports or publications will be anonymous and respondents will not be identifiable.

### **Is participation voluntary and what if I wish to later withdraw?**

Your participation is entirely voluntary – you do not have to participate if you do not want to. If you decide to participate, but decide not to complete the survey, you are free to withdraw at any time, without giving a reason and without penalty.

### **Data Protection Privacy Notice**

The data controller for this project will be Swansea University. The University Data Protection Officer provides oversight of university activities involving the processing of personal data, and can be contacted at the Vice Chancellors Office. The legal basis that we will rely on to process your personal data will be processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest. This public interest justification is approved by the College of Human and Health Sciences Research Ethics Committee, Swansea University.

The legal basis that we will rely on to process special categories of data will be processing is necessary for archiving purposes in the public interest, scientific or historical research purposes or statistical purposes.

Any requests or objections should be made in writing to the University Data Protection Officer:-

University Compliance Officer (FOI/DP)

Vice-Chancellor's Office

Swansea University

Singleton Park

Swansea

SA2 8PP

Email: [dataprotection@swansea.ac.uk](mailto:dataprotection@swansea.ac.uk)

### **How to make a complaint**

If you are unhappy with the way in which your personal data has been processed you may in the first instance contact the University Data Protection Officer using the contact details above.

If you remain dissatisfied then you have the right to apply directly to the Information Commissioner for a decision. The Information Commissioner can be contacted at: - Information Commissioner's Office,

Wycliffe House,

Water Lane,

Wilmslow,

Cheshire,

SK9 5AF

[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

### **What if I have other questions?**

If you have further questions about this study, please do not hesitate to contact us:

Dr Janet Goodall

School of Education

Swansea University

E : [j.s.goodall@swansea.ac.uk](mailto:j.s.goodall@swansea.ac.uk)

I confirm that I have read the above information and I would like to take part in the study by completing this survey. · *Required*

Yes

No - I do not want to take part

## Survey

1. Where do the students you support as a mentor study?

Primary

Secondary

2. Do you teach in primary or secondary?

If secondary, which subject?

3. How many students do you support as a mentor?

4. What do you understand by the term 'Parental engagement in learning'?

5. Do you discuss the concept of parental engagement in learning with your mentees?

Yes

No

6. Do you think parental engagement in learning is important to discuss with your mentees?

Yes

No

Why or why not?

7. Do you recommend any reading around parental engagement in learning to students?

Yes

No

If yes, which readings do you recommend?

8. Do you think the importance of parental engagement with learning has changed due to the COVID 19 lockdown?

Yes

No

If yes, how has it changed?

9. Is there anything else you would like to say about parental engagement in learning?

## Thank you

Thank you for your time. If you have any questions about this survey, please contact Dr Janet Goodall ([j.s.goodall@swansea.ac.uk](mailto:j.s.goodall@swansea.ac.uk))

Please click the Finish button to submit your response

## AGA Ymgysylltiad Rhieni - Mentor (terfynol)

Darllenwch y wybodaeth isod yn ofalus.

### **Beth yw pwrpas yr ymchwil?**

Rydym yn cynnal ymchwil am y modd mae ymgysylltiad rhieni yn cael ei gyflwyno a'i integreiddio i addysg gychwynnol athrawon.

### **Pwy sy'n rhedeg yr ymchwil?**

Mae'r ymchwil yn cael ei gynnal gan y timau ymchwil ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor. Mae'r ymchwil wedi'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe.

### **Beth fydd yn digwydd os cytunaf i gymryd rhan?**

Os cytunwch i gymryd rhan, cewch gyfle i lenwi arolwg ar-lein; ni ddylai hyn gymryd mwy na 10 neu 15 munud i'w gwblhau.

### **Oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â chymryd rhan?**

Mae'r ymchwil wedi'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg. Nid oes unrhyw risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â chymryd rhan. Ni ofynnir unrhyw gwestiynau i chi a fydd yn galluogi eich adnabod chi.

### **Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth rwy'n darparu?**

Bydd dadansoddiad o'r wybodaeth yn rhan o'n hadroddiad ar ddiwedd yr astudiaeth a gellir ei gyflwyno i bartïon â diddordeb a'i gyhoeddi mewn cyfnodolion, cynadleddau a chyfryngau cysylltiedig a adolygir gan gymheiriaid. Sylwch y bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir mewn unrhyw adroddiadau neu gyhoeddiadau yn anhysbys.

### **A yw cyfranogiad yn wirfoddol a beth os hoffwn dynnu'n ôl yn ddiweddarach?**

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol – nid oes rhaid i chi gymryd rhan os nad ydych chi eisiau gwneud hynny. Os penderfynwch gymryd rhan, ond penderfynu peidio â chwblhau'r arolwg, mae croeso i chi dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm a heb gosb.

### **Hysbysiad Preifatrwydd Diogelu Data**

Y rheolwr data ar gyfer y prosiect hwn fydd Prifysgol Abertawe. Mae Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn darparu goruchwyliaeth o weithgareddau prifysgol sy'n cynnwys prosesu data personol, a gellir cysylltu ag ef yn Swyddfa'r Is-Ganghellor.

Y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol fydd bod prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd. Mae'r cyfiawnhad budd cyhoeddus hwn wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Coleg Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Abertawe.

Y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu categorïau arbennig o ddata fydd bod prosesu yn angenrheidiol ar gyfer dibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol.

Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol :-

Swyddog Cydymffurfio'r Brifysgol

Swyddfa'r Is-Ganghellor,

Prifysgol Abertawe,

Parc Singleton,

Abertawe,

SA2 8PP

Ebost: [dataprotection@swansea.ac.uk](mailto:dataprotection@swansea.ac.uk)

### **Sut i wneud cwyn**

Os ydych chi'n anhapus gyda'r ffordd y mae eich data personol wedi'i brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon yna mae gennych chi hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:-

Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House,

Water Lane,

Wilmslow,

Sir Gaer,

SK9 5AF

[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

### **Beth os oes gennych gwestiynau eraill?**

Os oes gennych gwestiynau pellach am yr astudiaeth hon, mae croes i chi gysylltu gyda ni:

Dr Janet Goodall

Ysgol Addysg

Prifysgol Abertawe

E: [j.s.goodall@swansea.ac.uk](mailto:j.s.goodall@swansea.ac.uk)

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y wybodaeth uchod a rwy'n fodlon cymryd rhan yn yr astudiaeth trwy lenwi'r arolwg hwn · *Required*

Ydw

Na - Nid wyf eisiau cymryd rhan.

## Arolwg

1. Ble mae'r myfyrwyr yr ydych yn cefnogi fel mentor yn astudio?

Cynradd

Uwchradd

2. Ydych chi'n dysgu mewn ysgol gynradd neu uwchradd?

Os Uwchradd, pa bwnc?

3. Faint o fyfyrwyr ydych chi'n eu cefnogi fel mentor?

4. Beth ydych chi'n ddeall am y term 'ymgysylltiad rhieni â dysgu'?

5. Ydych chi'n trafod y cysyniad o ymgysylltiad rhieni â dysgu gyda'r myfyrwyr rydych chi'n eu mentora?

Ydw

Na

6. Ydych chi'n meddwl bod ymgysylltiad rhieni â dysgu yn bwysig i drafod gyda'r myfyrwyr rydych chi'n eu mentora?

Ydy

Na

Pam neu pam ddim?

7. Ydych chi'n argymhell unrhyw ddarllen sy'n ymwneud ag ymgysylltiad rhieni â dysgu i fyfyrwyr?

Ydw

Na

Os ydych, pa ddarlleniadau ydych chi'n argymhell?

8. Ydych chi'n meddwl fod pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni â dysgu wedi newid oherwydd y cyfnod clo COVID 19?

Ydy

Na

Os ydyw, sut mae wedi newid?

9. Oes unrhyw beth arall fyswch chi'n hoffi dweud am ymgysylltiad rhieni â dysgu?

## Diolch

Diolch am eich amser. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn, cysylltwch â Dr Janet Goodall ([j.s.goodall@swansea.ac.uk](mailto:j.s.goodall@swansea.ac.uk))

Cliciwch ar y botwm 'Finish' er mwyn cyflwyno eich atebion



# ITE Parent Engagement - NQT

Please read this information carefully.

## **What is the purpose of the research?**

We are conducting research into how parental engagement is presented and integrated into initial teacher education.

## **Who is carrying out the research?**

The research is being carried out by research teams at Swansea University and Bangor University. The research has been approved by the College Research Ethics Committee in the College of Arts and Humanities at Swansea University.

## **What happens if I agree to take part?**

If you agree to take part, you will be given the opportunity to fill in an online survey; this should take no more than 10 or 15 minutes to complete.

## **Are there any risks associated with taking part?**

The research has been approved by the College Research Ethics Committee. There are no significant risks associated with participation. You will not be asked any questions that will identify you.

## **What will happen to the information I provide?**

An analysis of the information will form part of our report at the end of the study and may be presented to interested parties and published in peer reviewed journals, conferences, related media and possibly used in teaching. Note that all information presented in any reports or publications will be anonymous and respondents will not be identifiable.

## **Is participation voluntary and what if I wish to later withdraw?**

Your participation is entirely voluntary – you do not have to participate if you do not want to. If you decide to participate, but decide not to complete the survey, you are free to withdraw at any time, without giving a reason and without penalty.

## **Data Protection Privacy Notice**

